

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 7/2021
Dyddiad Cyhoeddi: 11/02/2021

Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant: Gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid

Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant: Gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb
Ymchwil OB3



Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siân Williams

Is-adran Cymunedau

Llywodraeth Cymru

Rhyd y Car

Merthyr Tudful

Ffôn: 0300 025 3991

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Cynnwys

Geirfa	2
1. Cyflwyniad	3
2. Methodoleg	5
3. Tystiolaeth o gynhwysiant digidol a chanlyniadau.....	8
4. Y cyd-destun polisi a'r cyd-destun strategol.....	19
5. Trosolwg o Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant.....	30
6. Canfyddiadau'r gwaith maes: Dylunio a datblygu	40
7. Canfyddiadau'r gwaith maes: Gweithredu	51
8. Canfyddiadau'r gwaith maes: Cyflawniadau a chanlyniadau.....	76
9. Casgliadau ac argymhellion	91
Atodiad A: Canllawiau Trafod.....	102

Rhestr o dablau a ffigurau

Tabl 5.1: Dangosyddion Perfformiad Allweddol CDC	35
Tabl 5.2: Perfformiad y rhaglen (Gorffennaf 2019 - Mehefin 2020).....	36
Ffigur 5.1: Strwythur disgwyliedig tîm y rhaglen.....	38
Ffigur 9.1: Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid cychwynnol CDC	92
Ffigur 9.2: Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid Diwygiedig CDC	95

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
CDC	Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (2019-2022)
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
NWIS	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1 Penodwyd Ymchwil OB3, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru (CDC): Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant.
- 1.2 Nodau'r gwerthusiad yw:
 - adolygu a chrynhofi'r dystiolaeth bresennol ynghylch y berthynas rhwng cynhwysiant digidol ac iechyd
 - adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ffordd y cyflwynwyd y rhaglen
 - asesu i ba raddau y mae nodau'r rhaglen wedi'u cyflawni a'r targedau wedi'u cyrraedd
 - darparu tystiolaeth o ganlyniadau'r rhaglen i unigolion a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.
- 1.3 Mae'r gwerthusiad yn cael ei gynnal mewn tri cham allweddol, a gall yr amseriadau newid pe bai'r rhaglen yn cael ei hymestyn i 2025:
 - gwerthusiad proses a damcaniaeth newid yn ystod 2020
 - gwerthusiad interim a gwerthusiad o'r canlyniadau yn ystod 2021
 - gwerthusiad terfynol crynodol yn ystod 2022.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r cam proses a damcaniaeth newid sydd wedi cynnwys ymchwil desg, gan gynnwys dadansoddiad o ddogfennau a data monitro'r rhaglen, ynghyd â gwaith maes gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, staff cyflawni a sefydliadau a gefnogir.
- 1.5 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn naw pennod, fel a ganlyn:
 - pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
 - pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
 - pennod tri: adolygiad o lenyddiaeth sy'n ymwneud â chanlyniadau cynhwysiant digidol

- pennod pedwar: y cyd-destun polisi a strategol, gan gynnwys adolygiadau o raglenni cynhwysiant digidol a ragflaenodd y rhaglen hon
- pennod pump: trosolwg o'r rhaglen, yn seiliedig ar adolygiad o ddogfennau a data'r rhaglen
- penodau chwech i wyth: canfyddiadau'r gwaith maes
- pennod naw: casgliadau, gan gynnwys model rhesymeg Damcaniaeth Newid y rhaglen a materion i'w hystyried dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill.

Ynglŷn â Damcaniaeth Newid

- 1.6 Offeryn methodolegol yw Damcaniaeth Newid a ddatblygir ar ddechrau gwerthusiad i ddarganfod beth mae rhanddeiliaid yn ei gredu yw pwrpas rhaglen, a sut y maent yn credu y bydd y rhaglen yn cyflawni ei chanlyniadau. Gall y model rhesymeg Damcaniaeth Newid sy'n deillio o hynny ddangos y canlyniadau a ddisgwylir o'r rhaglen, a thrwy hynny alluogi rywun i fyfyrion ynghylch a yw'r gwaith cyflawni'n gweithio yn unol â'r bwriad.
- 1.7 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y materion yr oedd llunwyr polisi yn disgwyl i'r rhaglen fynd i'r afael â nhw yn ogystal â'r allbynnau a'r canlyniadau y gobeithiwyd y byddai CDC yn eu cyflawni. Mae'n archwilio'r adnoddau a'r mewnbynnau a roddwyd ar waith ar gyfer y rhaglen a sut y disgwyliwyd i'r rhain gyflawni canlyniadau tymor byr a thymor hir. Mae'r dull Damcaniaeth Newid hefyd yn archwilio'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhaglen a ffactorau allanol a allai fod wedi effeithio ar ei pherfformiad.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal y gwerthusiad, proffil y sefydliadau a gyfwelwyd ac yn trafod rhai o'r ffactorau methodolegol allweddol a ystyriwyd wrth ymgymryd â'r astudiaeth.

Dull

- 2.2 Roedd y gweithgareddau gwerthuso a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Medi 2020 yn cynnwys yr elfennau canlynol o waith:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, cyfweiliadau cwmpasu gyda chynrychiolwyr Canolfan Cydweithredol Cymru a pharatoi methodoleg a chynllun prosiect wedi'u mireinio
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddi dogfennau polisi a dogfennau strategol perthnasol gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth allweddol; adolygu dogfennau a data monitro'r rhaglen CDC yn ogystal â llenyddiaeth berthnasol yn ymwneud â'r berthynas rhwng cynhwysiant digidol ac iechyd a chanlyniadau eraill
- paratoi canllawiau trafod ansoddol ar gyfer cyfweld â'r rhai a fyddai'n cyfrannu at y cam hwn o'r gwerthusiad (gweler Atodiad A) a Hysbysiad Preifatrwydd ategol
- cyfweld â:
 - 10 o swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dylunio a chyflawni'r rhaglen
 - 11 aelod o'r tîm cyflawni sy'n gweithio yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru yn ogystal â Chynghorydd Arbenigol y rhaglen
 - dau gynrychiolydd o sefydliadau isgontractwyr cyflawni, sef Prifysgol Abertawe a'r Good Things Foundation
 - cynrychiolwyr o 20 o sefydliadau sydd wedi cydweithio â CDC

- syntheseiddio canfyddiadau'r gwaith maes ac adolygiad desg i ddatblygu model rhesymeg Damcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen CDC a datblygu set o argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen.

Proffil y sefydliadau a gyfwelwyd

2.3 Roedd proffil yr 20 o sefydliadau a gyfwelwyd yn cynrychioli'n fras gronfa ddata CDC o sefydliadau a gefnogwyd, yn yr ystyr:

- eu bod wedi'u lleoli ar draws 18 o awdurdodau lleol gwahanol: roedd pump yng ngogledd Cymru, pump yn ne-orllewin Cymru a deg yn ne-ddwyrain Cymru
- y cyfwelwyd ag ystod eang o sefydliadau gan gynnwys pum sefydliad iechyd, wyth sefydliad o'r trydydd sector neu'r sector elusennol (gan gynnwys dwy ganolfan gymunedol a chanolfan ieuencid), dwy gymdeithas dai, un sefydliad sector cyhoeddus, tri awdurdod lleol (gan gynnwys gwasanaeth llyfrgell a lleoliad gofal cymdeithasol) ac un darparwr gofal nyrsio o'r sector preifat.

Ystyriaethau methodolegol

2.4 Mae angen ystyried y materion canlynol mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon:

- mae'r cynnydd mewn achosion a'r cyfyngiadau dilynol oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar ddarpariaeth y rhaglen yn ogystal ag ar y nifer sy'n ymgysylltu â hi ac yn cymryd rhan ynddi. O'r herwydd, mae'n briodol cyflwyno dau Fodel Rhesymeg Damcaniaeth Newid yn yr adroddiad hwn: un i gyflwyno bwriad gwreiddiol y rhaglen ac un arall i adlewyrchu'r cyflawniad gwirioneddol. Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar y dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal yr astudiaeth hon e.e. cynhaliwyd pob cyfweiliad drwy Microsoft Teams neu dros y ffôn
- dewiswyd y sampl o sefydliadau o gronfa ddata o 628 o sefydliadau a ddarparwyd gan y rhaglen. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cytunwyd na fyddai'n briodol cynnwys ysgolion yn y sampl, er mai'r rhain oedd mwyafrif y cofnodion addysg ar y gronfa ddata.

Cytunwyd hefyd y byddai lleoliadau gofal cymdeithasol yn cael eu gor-samplu er mwyn adlewyrchu gwaith diweddar CDC gyda chartrefi gofal. Felly mae angen i ganfyddiadau'r cam hwn o'r gwerthusiad ystyried y materion hyn. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod cam nesaf y gwerthusiad yn cofnodi profiadau ysgolion sydd wedi ymgysylltu â'r rhaglen

- mabwysiadwyd dull samplu pwrpasol i ddewis sefydliadau a oedd wedi ymwneud fwyaf ag ymyriadau CDC, fel y cofnodwyd ar gronfa ddata CDC. Er gwaethaf yr her o sicrhau cyfraniad sawl sefydliad oherwydd y pandemig presennol, dim ond dau newid a wnaed i'r sampl y cytunwyd arni.

3. Tystiolaeth o gynhwysiant digidol a chanlyniadau

- 3.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r canfyddiadau allweddol sydd ar gael o lenyddiaeth ddiweddar yn ymwneud â chynhwysiant digidol yn y DU. Ei nod yw nodi unrhyw ymchwil ar fanteision gweithgaredd cynhwysiant digidol i ieuchyd, llesiant a chanlyniadau eraill. Mae hefyd yn nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd ar gael i lywio gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Cynhwysiant digidol a chyfiawnder cymdeithasol

- 3.2 Mae **Mynegai Digidol o Ddefnyddwyr Lloyds Bank UK 2020**¹ yn amcangyfrif nad oes gan 11.7 miliwn (22 y cant) o bobl yn y DU y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio'r rhyngwrdd ar gyfer bywyd bob dydd - felly mae lefelau ymgysylltiad digidol bron i chwarter y boblogaeth yn isel iawn. Awgryma dadansoddiad o ranbarth Cymru yn yr ymchwil² mai Cymru sydd â'r gyfran uchaf o bobl all-lein o blith unrhyw wlad neu ranbarth yn y DU, sef 15 y cant³ o'i gymharu â chyfartaledd o 8 y cant yn y DU.
- 3.3 Oedran yw'r ffactor mwyaf o hyd, gyda'r rhai dros 70 oed yn debygol iawn o fod â chyfraddau ymgysylltu digidol isel iawn. Mae incwm blyneddol aelwydydd yn ffactor arall, gyda'r rhai ag incwm aelwyd blyneddol o £50,000 neu fwy 40 y cant yn fwy tebygol o fod â sgiliau digidol sylfaenol o'u cymharu â'r rhai sy'n ennill llai nag £17,499.
- 3.4 **Mae'r adroddiad Digital Participation and Social Justice in Scotland**⁴ yn nodi canfyddiadau tebyg ac yn cydnabod bod unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol hefyd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd, mewn tai rhent cymdeithasol, ar incwm isel a thros 60 oed. Rhain hefyd yw'r union unigolion a fyddai'n elwa'n anghymesur o fod ar-lein. Yn hynny o beth, mae technoleg ddigidol yn gwaethgu'r anghydraddoldebau sydd eisoes bresennol ac wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein cymdeithas ac mae'n fater cyfiawnder cymdeithasol pwysig iawn y mae angen mynd i'r afael ag ef⁵.

¹ [Lloyds Bank UK Consumer Digital Index 2020](#)

² [UK Consumer Digital Index 2020 – National and regional findings and case study stories](#)

³ Noder bod yr atodiad ar dudalen 61 Mynegai Defnyddwyr 2020 Lloyds Bank UK yn nodi mai maint y sampl yw 215 ar gyfer Cymru. Maint y sampl ar gyfer y DU gyfan yw 4,233.

⁴ Ymddiriedolaeth Carnegie UK (2016) [Digital Participation and Social Justice in Scotland](#)

⁵ Ibid., tud.8

- 3.5 Mae'r ymchwil yn edrych ar gyfraniad sawl ffactor demograffig tuag at allgáu digidol - ac mae statws gweithio, lefel cymwysterau ac oedran yn arbennig o arwyddocaol. Gwelwyd bod deiliadaeth, incwm, ac a oes plant ar yr aelwyd, hefyd yn benderfynyddion pwysig. I'r gwrthwyneb, nid oedd yn ymddangos bod byw mewn ardal o amddifadedd, rhywedd deiliad y cartref a oedd yn ennill yr incwm uchaf, salwch hirdymor a dangosyddion trefol-gwledig yn dylanwadu ar gynhwysiant digidol.
- 3.6 Mae cymhelliant yn rhwystr allweddol i fynd ar-lein yn ôl Mynegai Digidol Banc Lloyds. Dywed traean o'r rhai sydd all-lein nad oes ganddynt ddiddordeb yn y rhyngrwyd ac mae 48 y cant o'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ar hyn o bryd yn dweud na allai 'dim' eu hysgogi i fynd ar-lein. Awgryma'r arolwg mai'r rhai sy'n ymgysylltu leiaf â'r byd digidol sydd hefyd yn dioddef yr anfantais fwyaf - mae eu biliau cartref yn uwch, maent yn gwario mwy ar gyfleustodau ac yn ennill llai o gyflog na'u cymheiriaid sydd wedi'u cynnwys yn ddigidol.⁶
- 3.7 Mae adroddiad Oxis, sy'n dwyn y teitl **Perceived Threats to Privacy Online Online**⁷ yn cytuno â'r canfyddiadau hyn. Canfu nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn poeni'n benodol am ddiogelwch y rhyngrwyd ac yn syml iawn nid oes gan y mwyafrif o bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr ddiddordeb mewn mynd ar-lein (69 y cant). Ar y cyfan, maent yn dewis peidio â bod yn ddefnyddwyr, ond mae 18 y cant yn nodi mai'r rheswm am hynny yw oherwydd nad ydynt yn gwybod sut i ddefnyddio technoleg, dywed 10 y cant nad ydynt yn mynd ar-lein oherwydd pryderon am breifatrwydd a dywed 2 y cant mai oherwydd nad oes ganddynt fynediad at ddyfais yw'r rheswm am hynny.
- 3.8 Nid yw'n syndod efallai bod agweddau defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr tuag at dechnoleg yn wahanol iawn. At ei gilydd, mae 79 y cant o ddefnyddwyr technoleg yn credu bod technoleg yn gwneud pethau'n well o gymharu â dim ond 29 y cant o'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr. At hynny, mae 72 y cant o'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr yn credu ei bod yn

⁶ Ibid. p.13

⁷ [Oxis \(2019\) Perceived Threats to Privacy Online: The Internet in Britain](#)

haws gwneud pethau heb dechnoleg, ond dim ond 28 y cant o ddefnyddwyr sy'n credu hynny.

- 3.9 Canfu adroddiad Oxis mai defnydd yn y cartref yw'r brif ffordd o hyd i gael mynediad at y rhyngwrdd, ond mae'r defnydd yn y gwaith, y llyfrgell neu ddefnydd o ddyfeisiau symudol oll wedi cynyddu - â defnydd o wifi am ddim bellach yw'r drydedd ffordd fwyaf cyffredin i fynd ar-lein y tu hwnt i'r cartref a'r gwaith. Ffonau symudol yw'r dyfeisiau mwyaf cyffredin a ddefnyddir i gael mynediad at y rhyngwrdd - mae gan 92 y cant o aelwydydd yn y DU ffôn symudol. Bu cynnydd mawr mewn mynediad drwy ddyfeisiau llechen, e-ddarllenwyr a setiau teledu â chysylltiad i'r rhyngwrdd. Mae dyfeisiau a weithredir gan y llais wedi cyrraedd 19 y cant o aelwydydd ym Mhrydain yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r dull o gael mynediad i'r rhyngwrdd yn amrywio yn ôl incwm, gyda 34 y cant o'r rhai sy'n ennill llai na £30,000 y flwyddyn yn dibynnu ar fynediad drwy ddyfeisiau symudol yn unig.

Cynhwysiant digidol, iechyd a llesiant

- 3.10 Mae'r adroddiad diweddar a luniwyd gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK a Chanolfan Cydweithredol Cymru **Cynhwysiant Digidol mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru**⁸ yn darparu tystiolaeth o sut y gall cynhwysiant digidol wella iechyd a llesiant pobl hŷn a phobl sydd â chyflwr, anabledd neu wendid hirdymor yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sawl ysgogiad a galluogwr y gellid eu defnyddio yng Nghymru i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uwch i gynhwysiant digidol ar yr agenda ac er mwyn ei gynnwys wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal.
- 3.11 Awgryma'r adroddiad, er bod cymorth cynhwysiant digidol hyd yma wedi canolbwyntio ar helpu pobl i feithrin sgiliau digidol sylfaenol, mae'n bosibl nad diffyg sgiliau sylfaenol yw'r hyn sy'n rhwystro unigolion rhag defnyddio gwasanaethau digidol mwyach - yn enwedig ym maes iechyd a gofal - oherwydd bod gan nifer cynyddol o bobl fynediad i dechnoleg ddigidol bellach ac maent yn gyfarwydd â thechnoleg o'r fath. Yn hytrach, noda'r

⁸ [Canolfan Cydweithredol Cymru ac Ymddiriedolaeth Carnegie UK \(2018\) Cynhwysiant Digidol mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru](#)

adroddiad fod y neges yn glir: 'mae angen gwasanaethau iechyd a gofal digidol ar bobl yng Nghymru sy'n bwysig iddynt, sy'n hygyrch ac sydd wedi'u cynllunio'n dda, ac sy'n gydnaws â'u profiad iechyd cyffredinol. Mae angen mwy na sgiliau digidol sylfaenol arnynt – mae angen llythrennedd iechyd digidol arnynt sy'n rhoi'r hyder iddynt ddefnyddio offer ac adnoddau yn effeithiol'.

3.12 Mae'r adroddiad yn cydnabod bod yn rhaid canolbwyntio yn y dyfodol ar fesur llwyddiant mentrau cynhwysiant digidol yn ôl y canlyniadau y maent yn eu cyflawni, gan gynnwys canlyniadau iechyd a llesiant, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar fesur gwelliannau mewn sgiliau digidol. Gwna gyfres o argymhellion pwysig ac mae'n galw am:

- sicrhau bod cynhwysiant digidol yn un o benderfynnyddion cymdeithasol iechyd a'i gynnwys wrth fapio iechyd y cyhoedd yn y dyfodol.
- gwerthusiad mwy trylwyr o ganlyniadau iechyd a gofal sy'n deillio o ymyriadau cynhwysiant digidol
- sicrhau bod Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd roi ystyriaeth benodol i weithgaredd cynhwysiant digidol yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig
- dull gweithredu strategol mwy cydgysylltiedig mewn perthynas â chynhwysiant digidol ar draws awdurdodau lleol a sefydliadau iechyd e.e. drwy ddatblygu strategaethau digidol lleol
- cyflymu'r defnydd o ragnodi cymdeithasol ar gyfer cymorth cynhwysiant digidol
- gwella llythrennedd iechyd digidol staff iechyd a gofal gan gynnwys arweinyddiaeth a staff rheng flaen

- cyd-gynhyrchu prosiectau ar gyfer sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru sy'n ymateb yn well i'r rhwystrau cyfredol ac sy'n datblygu'r atebion gorau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.⁹
- 3.13 Mae **canllawiau cynhwysiant digidol**¹⁰ a ddatblygwyd gan GIG Cymru yn 2019 yn amlinellu sut y gall sefydliad iechyd a gofal weithredu ar allgáu digidol i gyflawni pedair egwyddor gofal iechyd darbodus. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at y dystiolaeth gynyddol o fanteision iechyd digidol i gleifion a gofalmwyr ac mae'n cyfeirio at ganfyddiadau gwaith ymchwil perthnasol a diweddar. Mae'r manteision a restrir yn cynnwys:
- hunanofal gwell ar gyfer mân anhwylderau
 - hunanreolaeth well o gyflyrau hirdymor
 - arbed amser ac arian drwy fynd at wasanaethau'n ddigidol
 - llai o unigrwydd ac unigedd.
- 3.14 Mae hefyd yn awgrymu y byddai'r system iechyd a gofal yn elwa o'r gost is sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau'n ddigidol, cleifion yn cydymffurfio'n well â meddyginiaethau a thriniaethau a defnydd mwy priodol o wasanaethau gan gynnwys gofal sylfaenol a gofal brys.
- 3.15 Mae'r gwerthusiad o **Widening Digital Participation**¹¹, rhaglen Ddigidol y GIG sy'n cael ei rhedeg gan y Good Things Foundation yn Lloegr i gefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ac sydd mewn perygl o gael iechyd gwael, yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol o'r canlyniadau iechyd posibl yn sgil gweithgareddau cynhwysiant digidol.
- 3.16 Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at nifer o fanteision i ddysgwyr yn sgil cymryd rhan yn y rhaglen gan gynnwys cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu gallu i reoli eu materion iechyd eu hunain o ganlyniad i allu gael gafael ar wybodaeth iechyd ddibynadwy ar-lein. Nododd ychydig dros hanner y cyfranogwyr, 52 y cant, eu bod yn teimlo'n llai unig neu ynysig o ganlyniad i ddysgu sgiliau

⁹ Wales Co-operative Centre and Carnegie UK Trust (2018) Digital Inclusion in Health and Care in Wales pp. 18-19

¹⁰ [Canllawiau Cynhwysiant Digidol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru](#)

¹¹ Good Things Foundation (2016) [Evaluation of Widening Digital Participation](#)

digidol a nododd 62 y cant eu bod yn teimlo'n hapusach o ganlyniad i gael mwy o gyswllt cymdeithasol. Roedd ychydig yn llai na thri chwarter, 72 y cant, yn cytuno bod dysgu sgiliau digidol wedi gwella eu hunanhyder a 65 y cant yn teimlo'n fwy gwybodus am eu hiechyd¹².

- 3.17 Nododd y gwerthusiad hefyd newidiadau arwyddocaol mewn ymddygiad gyda 56 y cant o'r cyfranogwyr yn nodi y byddent bellach yn chwilio am gyngor nad yw'n gyngor brys ar y rhynggrwyd yn gyntaf, megis gwefan y GIG yn hytrach na mynd yn syth at eu meddyg teulu neu i'r adran damweiniau ac achosion brys. Nododd hanner y cyfranogwyr, 51 y cant, hefyd eu bod wedi defnyddio'r rhynggrwyd i ymchwilio i ffyrdd o wella iechyd meddwl a llesiant.
- 3.18 Amcangyfrifodd y gwerthusiad fod y newid hwn mewn ymddygiad wedi arwain at arbed £6m mewn 12 mis i'r GIG. Roedd yr arbedion hynny yn unig yn cynrychioli enillion ar fuddsoddiad o £6.40 am bob £1 a fuddsoddwyd yn y rhaglen¹³.
- 3.19 Mae adroddiad dilynol sy'n amlygu canfyddiadau ac argymhellion penodol y rhaglen ar sut i **gefnogi staff iechyd a gofal cymdeithasol i ymgorffori technoleg ddigidol yn y gweithle**¹⁴ yn tynnu sylw at y rhwystrau'n ymwneud â'r system, y sefydliad ac unigolion sy'n atal staff iechyd a gofal rhag cofleidio gwasanaethau digidol gan gynnwys diffyg sgiliau a hyder; diffyg amser i uwchsgilio; diffyg offer angenrheidiol a diffyg cefnogaeth ar lefelau uwch sy'n golygu nad oes gan staff 'ganiatâd' i fynd i'r afael â'r rhwystrau.
- 3.20 Yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield ar **gyflawni manteision gofal iechyd digidol**¹⁵ nodir rhai manteision y gellid eu cyflawni o ddatblygiadau

¹² GIG Cymru (2019) t. 8

¹³ Cyfrifwyd yr enillion ar fuddsoddiad fel yr arbedion cost blynyddol cyfun (enillion) yn sgil llai o ymweliadau â meddygon teulu ac adrannau damweiniau ac achosion brys (£6m) o gymharu â buddsoddiad gan y GIG o £810,000 ym mlwyddyn 3 = (£6m - £810,000) / £810,00 = £6.40 (am bob £1 a fuddsoddir). Rhoddir esboniad manwl o'r dull gweithredu yn Atodiad B yr adroddiad: [HEALTH & DIGITAL: REDUCING INEQUALITIES, IMPROVING SOCIETY](#)

¹⁴ Good Things Foundation (2020) [Supporting Health and Social Care staff to embed digital in the workplace](#)

¹⁵ Ymddiriedolaeth Nuffield (2016) [Delivering the benefits of digital health care](#)

arloesol digidol ym maes gofal iechyd megis datblygu apiau ac offer rheoli ar-lein a all fonitro arwyddion hanfodol er mwyn caniatáu i glinigwyr flaenoriaethu cleifion sydd angen sylw brys, ac apiau a allai gefnogi staff sy'n gweithio yn y gymuned¹⁶.

- 3.21 Mae hefyd yn cydnabod y gall technoleg ddarparu gofal llawer mwy rhagweithiol i gleifion ac mae hynny wedyn yn caniatáu i adnoddau gael eu targedu tuag at y rhai mwyaf anghenus¹⁷. Gall hefyd roi cyfle i ddarparu gofal sydd wedi'i gydlynyn well i gleifion cymhleth, yn enwedig wrth iddynt symud o ofal sylfaenol i ofal eilaidd ac i systemau gofal cymdeithasol fel bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn fwy didrafferth heb orfod ailadrodd profion ac ailysgrifennu nodiadau gofal cleifion.
- 3.22 Mae'r ymchwil hefyd yn dangos sut y gall technoleg ddigidol wella mynediad at arbenigedd. Gall gwasanaeth teleiechyd rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol leihau ymweliad ag adrannau damweiniau ac achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty a gwella canlyniadau i gleifion¹⁸.
- 3.23 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd newid diwylliannol o fewn sefydliadau gofal iechyd lle mae staff yn barod i dderbyn newid ac yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i adnabod cyfleoedd i wella. Awgryma fod hyfforddiant yn hanfodol ac y dylid ei ddarparu i'r holl staff sy'n defnyddio technoleg newydd cyn ei chyflwyno, ochr yn ochr â chymorth mewn amser real¹⁹. Awgryma'r adroddiad, os gall sefydliadau gofal iechyd ddod yn fwy digidol, y byddai hynny'n arwain at well canlyniadau i gleifion a gweithwyr proffesiynol clinigol yn treulio mwy o'u hamser yn trin cleifion yn hytrach nag ar brosesau sy'n gwastraffu amser neu ar dasgau gweinyddol²⁰.
- 3.24 Canfu adroddiad gan Brifysgol Loughborough sy'n edrych ar y berthynas rhwng **cynhwysiant digidol ac iechyd a llesiant menywod mewn**

¹⁶ Ymhlith yr apiau penodol a grybwyllir mae Patients Know Best; Microsoft HealthVault, Get Real Health ac apiau 'Lucy'system' a 'Bedside' gan Epic, GetWellNetwork, ap Clinig Mayo, MyOps, VitruCare, Wellframe, PatientsLikeMe

¹⁷ Ibid., tud.11

¹⁸ Ibid., tud.15

¹⁹ Ibid., tud.20

²⁰ Ibid., tud.25

cymunedau gwledig²¹, er bod mentrau cynhwysiant digidol yn ceisio cau'r gagendor i alluogi menywod i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u llesiant a'u teuluoedd, bod yr ymchwil yn gyfyngedig ac yn dameidiog. Fodd bynnag, mae mentrau cynhwysiant digidol ar gael sy'n ceisio cau'r gagendor digidol drwy:

- ddarparu seilwaith a mynediad at dechnolegau digidol
- meithrin galluoedd a sgiliau'n ymwneud â sut i ddefnyddio technoleg a darpariaeth ar-lein
- cynyddu rôl technoleg symudol o ran mynd i'r afael ag allgáu digidol²².

3.25 O'r ymchwil cyfyngedig sydd ar gael, mae'r adolygiad yn cadarnhau bod gan gynhwysiant digidol y potensial i gyfrannu at wella iechyd a llesiant menywod.

Unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol

3.26 Mae **Mynegai Banc Lloyds** yn amlinellu manteision lefel uchel o ymgysylltiad digidol i ffordd o fyw a llesiant pobl:

- dywed 87 y cant ei fod yn eu helpu i gysylltu â ffrindiau a theulu
- dywed 84 y cant ei fod yn eu helpu i drefnu eu bywyd
- dywed 55 y cant ei fod yn gwneud iddynt deimlo'n fwy o ran o'r gymuned a
- dywed 44 y cant ei fod yn eu helpu i reoli eu llesiant corfforol a meddyliol.

3.27 Mae'r adroddiad **Digital Participation and Social Justice** yn amlygu canfyddiadau tebyg. Canfu gydberthynas uniongyrchol rhwng allgáu digidol a'r tri phenderfynydd allweddol canlynol:

- ffordd egnïol o fyw - mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a gwirfoddoli yn llawer mwy tebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd hyd yn oed pan fydd

²¹ Prifysgol Loughborough (2018) [Digital inclusion and women's health and well-being in rural communities](#)

²² Ibid., tud.29

dangosyddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol eraill wedi'u hystyried. Mae hyn yn cael ei ystyried yn ganfyddiad pwysig ar gyfer datblygu polisi gydag awgrym y dylai'r defnydd o 'fachau personol' a hobiau fod yn ddull allweddol o annog pobl i archwilio'r rhyngwrwd am y tro cyntaf: 'finding online content that relates to someone's hobbies can be a highly effective approach to digital participation'²³

- iechyd meddwl - nodwyd mynediad i'r rhyngwrwd fel ffactor arwyddocaol sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant
- cysylltiad cymdeithasol - roedd y rhai â mynediad i'r rhyngwrwd yn fwy tebygol o deimlo bod ganddynt gysylltiad cymdeithasol na'r rhai heb fynediad i'r rhyngwrwd pan ystyriwyd yr holl ffactorau eraill²⁴.

3.28 Mae adroddiad yn edrych ar fentrau sy'n pontio'r cenedlaethau i **fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol**²⁵ gan Lywodraeth Cymru hefyd yn nodi'r mater cynyddol o allgáu digidol a chymdeithasol ymysg pobl hŷn. Wrth i wasanaethau symud ar-lein, mae pobl hŷn yn colli cyfleoedd i gysylltu â ffrindiau a theulu drwy dechnoleg ddigidol. Cyfeiria'r adroddiad at rôl bwysig mentora sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae'n edrych ar enghreifftiau ledled y DU o 'fentora o chwith' lle mae pobl iau yn dysgu sgiliau seiber i bobl hŷn ac yn awgrymu y gallai'r dull hwn 'leihau ynysigrwydd cymdeithasol i bobl hŷn... cynyddu eu hunanhyder a'u hyder digidol' gan arwain at ganlyniadau buddiol i bobl ifanc hefyd megis datblygu sgiliau arwain a chyfathrebu. Cyfeirir at fenter Arwyr Digidol CDC²⁶ fel astudiaeth achos yn yr adroddiad.

Effaith y pandemig COVID-19

3.29 Nid yw'n syndod mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd yn y cam cynnar hwn o effaith y pandemig COVID-19 ar gyfraddau allgáu digidol. Fodd bynnag, mae Mynegai diweddaraf Lloyds Bank yn cynnwys canlyniadau o arolwg

²³ Ymddiriedolaeth Carnegie UK (2016) t.12

²⁴ Ibid., tud.13

²⁵ Llywodraeth Cymru (2019) [Adolygiad o fecanweithiau allweddol mewn arferion sy'n pontio'r cenedlaethau, a pha mor effeithiol ydynt o ran lleihau unigrwydd/ynysigrwydd cymdeithasol](#)

²⁶ Cynllun gwirfoddoli digidol yw Arwyr Digidol sy'n cael ei redeg gan CDC sy'n hyfforddi plant a phobl ifanc i helpu oedolion hŷn na allant ddefnyddio'r rhyngwrwd.

ciplun a gynhaliwyd ar ôl y cynnydd mewn achosion o COVID-19 sy'n awgrymu y gellir gweld newidiadau mewn ymddygiad o ran y defnydd o wasanaethau digidol eisoes. Roedd cofrestriadau ar gyfer gwasanaeth bancio ar-lein gan y garfan o bobl 70+ deirgwaith y gyfradd a welwyd yr un amser y llynedd ac mae nifer y bobl 40+ oed sy'n cofrestru ar gyfer gwasanaeth bancio ar-lein hefyd wedi goddiwedd y cyfraddau ar gyfer 2019 gan awgrymu y gallai fod rhywfaint o effaith ar gyfraddau defnyddio gwasanaethau digidol yn y dyfodol.

3.30 Mae'n ymddangos bod agweddau tuag at ymgysylltiad digidol hefyd wedi newid o ganlyniad i COVID-19. Canfu'r arolwg ciplun y canlynol:

- roedd 78 y cant o bobl yn cytuno bod y pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r angen am sgiliau digidol
- roedd 80 y cant yn cytuno bod defnyddio technoleg wedi bod o gymorth anhepgor iddynt
- roedd 51 y cant yn credu bod yr angen am sgiliau digidol yn eu bywyd cartref/bywyd gwaith wedi dod yn fwy angenrheidiol oherwydd y cyfyngiadau symud²⁷.

Sylwadau i gloi

3.31 Mae'n amlwg bod y cyfraddau allgáu digidol wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf (er bod y samplau ar gyfer Cymru mewn rhai o'r arolygon yn fach iawn) gyda mwyafrif sylweddol o'r rhai nad ydynt ar-lein dros 70 oed. Mae'n ymddangos bod bron i hanner y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ar hyn o bryd yn awgrymu nad oes ganddynt awydd o gwbl i fynd ar-lein. Awgryma'r ymchwil y gall diffyg sgiliau digidol sylfaenol wneud i bobl deimlo'n fwy unig a llai cysylltiedig â'u cymuned a gall hynny effeithio ar iechyd meddwl.

3.32 Er bod rhywfaint o ymchwil ar y canlyniadau cadarnhaol i iechyd a llesiant a gyflawnwyd gan fentrau cynhwysiant digidol i gleifion a sefydliadau gofal iechyd, mae bylchau sylweddol yn y dystiolaeth o hyd. Bydd angen tystiolaeth gadarn o ganlyniadau iechyd er mwyn creu newid sylweddol yn

²⁷ Mynegai Digidol Lloyds Bank (2020) t. 28

y ddarpariaeth iechyd a gofal, ac mae'n hanfodol bod gweithgareddau cynhwysiant digidol yn y lleoliadau hyn yn anelu at gofnodi tystiolaeth o'r fath yn y dyfodol.

- 3.33 Er bod effaith y pandemig COVID-19 ar gyfraddau cynhwysiant digidol eto i ddod i'r amlwg, mae'n amlwg o'r gwaith ymchwil bod angen cynyddol i gael digon o sgiliau digidol, hyder a mynediad at ddyfeisiau er mwyn cynnal cysylltiadau cymdeithasol a gwella iechyd meddwl a llesiant yn yr oes sydd ohoni.

4. Y cyd-destun polisi a'r cyd-destun strategol

- 4.1 Mae'r bennod hon yn nodi datblygiadau polisi, deddfwriaethol a strategol allweddol sy'n berthnasol i'r rhaglen CDC. Mae hefyd yn ystyried canfyddiadau adolygiadau blaenorol o raglenni cynhwysiant digidol a ragflaenodd y rhaglen hon yng Nghymru.

Y cyd-destun polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol

Ffyniant i Bawb

- 4.2 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cenedl ffyniannus, diogel, iach, egnïol a chysylltiedig, **Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol**²⁸, yn amlinellu uchelgais hirdymor ar gyfer gwireddu'r Rhaglen Lywodraethu gyfredol, Symud Cymru Ymlaen, erbyn 2021. Mae dwy thema sylfaenol a nodir yn y strategaeth yn ymwneud â gwella iechyd a llesiant pobl, yn enwedig drwy symud y ffocws tuag at gamau gweithredu ataliol, a gwella cysylltiadau ar draws cymunedau drwy adeiladu cysylltiadau sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd. Mae'r strategaeth yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru i ddarparu dulliau digidol i bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal a gwybodaeth gyda'r nod o sicrhau bod cleifion a gofalwyr yn cymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant.
- 4.3 Ers cyhoeddi Ffyniant i Bawb, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ymhellach yr ymgyrch i gyflymu datblygiadau digidol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n sail i'r angen sylfaenol am ymyrraeth i gynorthwyo unigolion a chymunedau i gael mynediad at ddarpariaeth o'r fath.

Cymru Ddigidol

- 4.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith digidol **Cyflawni Cymru Ddigidol** yn 2010 i sicrhau 'dyfodol digidol disgleiriach i bawb yng Nghymru'²⁹. Er ei fod bellach wedi dyddio rhywfaint, mae'r fframwaith yn

²⁸ [Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol](#)

²⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru (Rhagfyr 2010) [Cyflawni Cymru Ddigidol: Fframwaith Amlinellol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gweithredu](#) tud.3

nodi pum amcan allweddol yn ymwneud â chynhwysiant, sgiliau, yr economi, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith. Roedd yn cydnabod rôl y cynllun rhagflaenol, Cymunedau 2.0 o ran hyrwyddo cynhwysiant digidol ar draws ardaloedd difreintiedig.

- 4.5 Mae'r strategaeth ddilynol, **Strategaeth TGCh i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru**³⁰ (Saesneg yn unig) yn nodi sut y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r amcanion ar gyfer y sector cyhoeddus fel y'u nodwyd yn y fframwaith Cymru Ddigidol. Cynigiodd 14 ffrwd waith a fyddai'n cyflawni seilwaith, safonau, galluedd a darpariaeth TGCh cyffredin ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- 4.6 Cyhoeddwyd fframwaith strategol Llywodraeth Cymru **Sicrhau cynhwysiant digidol**³¹ yn 2016 ac mae'n adeiladu ar y Fframwaith Cynhwysiant Digidol blaenorol (2010), y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol (2011) a chynllun ar ei newydd wedd (2015-2017). Mae Fframwaith 2016 yn amlinellu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i chwalu rhwystrau ar gyfer oedolion (16 oed a throsodd) sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yng Nghymru ac yn nodi gweledigaeth lle mae 'pawb sy'n dymuno bod ar-lein yn gallu mynd ar-lein... a gwneud mwy ar-lein i gael budd llawn o'r cyfleoedd y mae'r rhyngwrdd a thechnolegau digidol eraill yn eu cynnig'³². Mae'r fframwaith yn nodi'r pedwar grŵp blaenoriaeth sy'n wynebu allgáu digidol, sef pobl hŷn, trigolion tai cymdeithasol, pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar sydd heb sgiliau digidol sylfaenol a phobl anabl sy'n wynebu rhwystrau o ran e-hygyrchedd. Nodir bod y rhaglen CDC yn gyfrwng allweddol ar gyfer cyflawni nodau ac amcanion y fframwaith hwn, a disgwylir i'r rhaglen ymgymryd â rôl cydlynu a hwyluso.
- 4.7 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu fframwaith digidol newydd '**Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus**', a fydd yn nodi'r camau allweddol i'w cymryd dros y 12 mis nesaf, gyda'r nod cyffredinol o gyhoeddi fframwaith newydd erbyn 2021. Yn ogystal, mae Swyddfa Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru yn

³⁰ Llywodraeth Cymru (2011) [Strategaeth TGCh ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru](#)

³¹ [Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol ar gyfer Cymru](#)

³² Ibid., tud.9

datblygu **Strategaeth Ddigidol newydd i Gymru**. Disgwylir i'r ddwy ddogfen gael eu cyhoeddi cyn bo hir a dylent helpu i lywio'r broses o gyflawni gweddill y rhaglen CDC.

Iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant

- 4.8 Daeth yr **Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru**³³ i'r casgliad 'nad yw'r patrwm presennol o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn addas ar gyfer y dyfodol'³⁴. Mae dau argymhelliad allweddol a wnaed gan yr adolygiad yn ymwneud â'r angen i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol '[d]defnyddio arloesedd a chyflymu datblygiadau mewn technoleg a seilwaith' a 'rhoi rheolaeth yn nwylo'r bobl'. Pwysleisiodd yr adolygiad bwysigrwydd ymateb i'r chwyldro a oedd yn digwydd oherwydd 'digideiddio, hygyrchedd a dadansoddi gwybodaeth am iechyd a gofal pobl' a galwodd am gynyddu technolegau er mwyn gwella mynediad at gyngor a gwybodaeth. Drwy wneud hynny, roedd yr adolygiad yn cydnabod yr angen i helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ymateb i'r datblygiadau hyn. Mae'r adolygiad hefyd yn cydnabod yr angen i gynyddu manteision technoleg ac arloesedd i'r eithaf er mwyn darparu gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol mwy effeithiol ac effeithlon, gan fod yr ymyriadau hyn yn chwarae rhan bwysig o ran hwyluso ymyrraeth gynnar, osgoi uwchgyfeirio a chefnogi llesiant dinasyddion.
- 4.9 Mae **Cymru Iachach**³⁵, a oedd wedi'i fwriadu i ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar athroniaeth gofal iechyd darbodus³⁶ yn ogystal ag atal salwch. Mae hefyd yn anelu at gefnogi pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, galluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl a defnyddio technoleg lle bo hynny'n briodol i greu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol mwy effeithlon, effeithiol, teg a chynaliadwy. Mae nifer o'r prosiectau a ariennir drwy **Gronfa Trawsnewid**

³³ [The Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales. A Revolution from Within: Transforming Health and Care in Wales Final Report January 2018](#)

³⁴ Ibid.p.4

³⁵ [Llywodraeth Cymru \(2018\) Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

³⁶ Gwella gofal iechyd yn ystod cyfnodau o gynydd

gwerth £100m Cymru lachach yn canolbwyntio ar drawsnewid y sector iechyd a gofal cymdeithasol drwy atebion yn y gymuned gan ddefnyddio technoleg, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gleifion ymgysylltu â rhai agweddau ar y gwasanaeth mewn gwahanol ffyrdd yn y dyfodol. O ganlyniad, mae angen gwella sgiliau digidol sylfaenol ymhlith dinasyddion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfranogi ac elwa o dechnolegau a darpariaethau iechyd digidol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

- 4.10 Mae strategaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, **Cysylltu Cymunedau**³⁷ yn cydnabod yr effaith y gall y ddau fater hyn ei chael ar iechyd a llesiant ac mae'n berthnasol i'r rhaglen CDC. Mae'r strategaeth, sy'n ystyried adborth o ymarfer ymgynghori cyhoeddus a chanfyddiadau ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cydnabod pwysigrwydd mynediad at dechnoleg ddigidol wrth fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Nodir bod cefnogi a galluogi cynhwysiant digidol yn ffactorau allweddol o ran cyflawni blaenoriaeth y strategaeth o gynyddu a hyrwyddo cyfleoedd i bobl gysylltu. Nodir CDC fel rhaglen allweddol a fydd yn gwella 'galluoedd digidol dinasyddion a staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan alluogi mwy o bobl i fod yn gyfranogwyr mwy gweithredol yn eu hiechyd a'u llesiant eu hunain'³⁸.

Y cyd-destun deddfwriaethol

- 4.11 O ran y cyd-destun deddfwriaethol, gellir disgwyl i CDC wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu cymdeithas sy'n fwy cynhwysol yn ddigidol, rhywbeth sy'n un o nodau llesiant **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**³⁹. Cyflwynodd y Ddeddf deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac

³⁷ Llywodraeth Cymru (2020) [Cysylltu Cymunedau: Strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach](#)

³⁸ Ibid., tud.20

³⁹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) (y Ddeddf Llesiant)

awdurdodau lleol, fabwysiadu saith nod llesiant hirdymor a rhoi datblygu cynaliadwy a thryloywder wrth wraidd eu gwaith.

- 4.12 Mae CDC hefyd wedi gorfod gweithredu o fewn cyd-destun **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**⁴⁰. Amlinellodd y ddeddfwriaeth hon fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer y sector gwasanaethau cymdeithasol drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio i hyrwyddo llesiant unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae'n nodi gofyniad i awdurdodau lleol a phartneriaethau byrddau iechyd gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth y rhai sy'n byw yn eu rhanbarth gyda phwyslais ar atal, ymyrraeth gynnar, a mwy o ymgysylltiad â dinasyddion a rhoi mwy o lais iddynt.

Y Gymraeg

- 4.13 O ran y Gymraeg, mae rhaglen CDC mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad tuag at wireddu'r amcanion a nodwyd ar draws nifer o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:
- **Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg**⁴¹ sy'n nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn cydnabod y bydd buddsoddi mewn technoleg ddigidol er mwyn i bobl allu defnyddio'r Gymraeg mewn cynifer o gyd-destunau â phosibl yn bwysig er mwyn 'sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol⁴². Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynnigir i siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys y gwasanaethau hynny a gynnigir gan ddarparwyr y sector iechyd a gofal cymdeithasol
 - **Mwy Na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol**⁴³ sy'n amlinellu cynllun gweithredu tair blynedd ar gyfer

⁴⁰ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

⁴¹ Llywodraeth Cymru (2017) [Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr](#)

⁴² Ibid., tud.4

⁴³ [Mwy na geiriau: cynllun gweithredu 2019-2020](#)

2016-2019 a chynllun gweithredu dwy flynedd olynol ar gyfer 2019-2020, yn mabwysiadu'r egwyddor o 'gynnig rhagweithiol'⁴⁴ ar draws gwasanaethau'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nod y strategaeth yw ceisio cynyddu nifer a defnydd y Gymraeg ar draws y sector. Mae'r cynllun gweithredu cyfredol ar gyfer 2019-2020 yn cynnwys amcan i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio mewn technoleg a therminoleg iechyd a gofal cymdeithasol

- **Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru**⁴⁵ sy'n nodi meysydd datblygu allweddol i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod wrth wraidd arloesi a thechnoleg ddigidol. Yn berthnasol i'r rhaglen CDC mae ei uchelgeisiau mewn perthynas â chreu seilwaith digidol Cymraeg a meithrin gallu a sgiliau digidol.

Canfyddiadau o werthusiadau blaenorol o fentrau cynhwysiant digidol

- 4.14 Nodir isod ganfyddiadau allweddol o'r tri gwerthusiad blaenorol o raglenni cynhwysiant digidol a ragflaenodd y rhaglen hon.

Cymunedau @Ei Gilydd

- 4.15 Nod y rhaglen Cymunedau @Ei Gilydd oedd cefnogi cynhwysiant digidol unigolion a chymunedau o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru, drwy weithio â sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a darparu cyllid grant ar gyfer prosiectau iddynt. Derbyniodd y rhaglen gyllid o £10.5 miliwn, gan gynnwys cyfraniad o 71 y cant gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), dros gyfnod o dair blynedd rhwng mis Ionawr 2006 a mis Rhagfyr 2008.
- 4.16 Daeth y gwerthusiad⁴⁶ i'r casgliad fod y rhaglen wedi llwyddo i sefydlu a dosbarthu cyllid grant a bod llawer o brosiectau a ariannwyd wedi cynnig cyfleoedd newydd i unigolion gael mynediad at TGCh a datblygu sgiliau newydd. Canfu'r gwerthusiad, er gwaethaf y ffaith bod nifer fawr o brosiectau wedi arwain at amrywiaeth eang o brofiadau mewn gwahanol

⁴⁴ Hynny yw, darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano

⁴⁵ Llywodraeth Cymru (2018) [Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg](#)

⁴⁶ Llywodraeth Cymru (2008) [Gwerthusiad o raglen Cymunedau@Ei Gilydd: Adroddiad Terfynol](#)

feysydd, bod y rhaglen wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i hamcanion serch hynny.

4.17 Cynigiodd y gwerthusiad nifer o argymhellion i'w hystyried, gan gynnwys:

- yr angen i ddatblygu archif gynhwysfawr o arferion da a fyddai ar gael yn y dyfodol
- ymgysylltu ag Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cymru i gyflawni'r agenda cynhwysiant digidol
- lledaenu model Brocer⁴⁷ llwyddiannus y rhaglen i rannau eraill o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n ariannu systemau grant sydd wedi'u targedu at y sector gwirfoddol a chymunedol
- y dylai unrhyw raglen olynol yn y dyfodol:
 - gael amserlen gyflawni hwy
 - cadw'r model Brocer llwyddiannus a fabwysiadwyd gan Cymunedau@Ei Gilydd
 - ystyried y ffordd orau o atgyfeirio pobl fel y gall cyfranogwyr fynd ar drywydd cyfleoedd digidol pellach
 - ystyried ei rôl i weithio gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cynyddu mynediad at wasanaethau cyhoeddus ar-lein
 - ystyried sut i olrhain yn well ganlyniadau prosiectau a ariennir

Cymunedau 2.0

4.18 Rhaglen chwe blynedd a gyflwynwyd rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2015 oedd Cymunedau 2.0, gyda chyllid o ychydig o dan £20 miliwn a oedd yn cynnwys dyraniad ERDF o £8.9 miliwn. Newidiodd y rhaglen yn sylweddol yn ystod ei hoes gan iddi gael ei hymestyn o ranbarth Gorllewin Cymru a'r

⁴⁷ Penodwyd Broceriaid Cymunedol gan y rhaglen ac fe'u lleolwyd o fewn cyrff y credwyr bod ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae o ran cynhwysiant digidol. Roedd eu cyfrifoldebau yn cynnwys sefydlu cysylltiadau a phartneriaethau ag asiantaethau lleol a helpu grwpiau cymunedol lleol i gael mynediad at ffynonellau cyllid eraill posibl.

Cymoedd i Gymru gyfan. Roedd yr ail gam hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar weithio'n uniongyrchol gyda buddiolwyr unigol.

4.19 Daeth gwerthusiad crynol o Cymunedau 2.0⁴⁸ i'r casgliad:

- bod y rhaglen wedi canolbwyntio fwyfwy dros amser ar weithgareddau i hyrwyddo cynhwysiant digidol gydag unigolion
- bod y gwaith gydag unigolion wedi bod yn llwyddiannus er bod y rhaglen wedi ei chael hi'n anodd cael trafferth cyrraedd rhai grwpiau megis pobl anabl, o gofio natur benodol eu hanghenion a lefel y gefnogaeth oedd ei hangen
- bod y gwaith gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol wedi cael ei groesawu ond nid oedd wedi bod yn drawsnewidiol nac wedi darparu atebion hirdymor
- bod elfennau o arfer da yn cynnwys gwneud defnydd effeithiol o wirfoddolwyr a chynnig darpariaeth mewn sesiynau bach y gellir eu rheoli mewn lleoliadau anffurfiol.

4.20 Argymhellodd y gwerthusiad y dylai unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol gael llai o adnoddau a chanolbwyntio ar hyrwyddo'r achos dros gynhwysiant digidol i sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Awgrymodd hefyd y dylai'r rhaglen gefnogi ac annog partneriaid sydd eisoes yn ymwneud â mentrau digidol i barhau i ymwneud â hwy a lle bo angen, i frocera partneriaethau lleol a thematig newydd. Argymhellodd y gwerthusiad hefyd y dylai'r rhaglen barhau i ddarparu hyfforddiant hyfforddi'r hyfforddwr.

Cymunedau Digidol Cymru (2015-2019)

4.21 Mabwysiadodd y rhaglen hon, a ddarparwyd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017 gyda chyllideb gychwynnol o £1 filiwn y flwyddyn a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, ond a estynnwyd wedi hynny am gyfnod o ddwy flynedd, fodel cyflawni mwy anuniongyrchol na'r cynlluniau a'i rhagflaenodd gan ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu gweithgaredd cynhwysiant digidol.

⁴⁸ Llywodraeth Cymru (2015) [Gwerthusiad o Cymunedau 2.0: Adroddiad Terfynol - Diwygiedig](#)

4.22 Amlinellwyd model rhesymeg damcaniaeth newid ar gyfer y rhaglen ac mae wedi cael ei ystyried wrth baratoi model rhesymeg ar gyfer y rhaglen gyfredol.

4.23 Canfu'r gwerthusiad o CDC⁴⁹:

- fod polisi Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ymyrraeth cynhwysiant digidol yng Nghymru, a bod y Rhaglen Lywodraethu (2016-2021) wedi ailddatgan yr ymrwymiad hwn
- bod y rhaglen wedi perfformio'n dda yn erbyn ei Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ac roedd yr adborth ar ansawdd a pherthnasedd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn rhagorol
- bod canlyniadau pwysig y rhaglen yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol (yn aml yn gysylltiedig â hyfforddiant), rhywfaint o gynnydd yng nghapasiti sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau cynhwysiant digidol, ac ailfywiogi partneriaethau digidol lleol. Roedd canfod effaith y rhaglen ar fuddiolwyr sy'n ddefnyddwyr yn heriol oherwydd 'natur anuniongyrchol y rhyngweithio' rhwng CDC a defnyddwyr gwasanaethau sefydliadau partner⁵⁰
- byddai cyfleoedd posibl i ymyrraeth cynhwysiant digidol yn y dyfodol gofleidio'r agenda iechyd ehangach ac adeiladu ar waith sy'n dod i'r amlwg drwy'r rhaglen yn y sector hwn
- dylai unrhyw raglen olynol gael llai o adnoddau a gweithio drwy bartneriaid y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn hytrach na darparu gweithgaredd rheng flaen ei hun
- pan gynhaliwyd y gwerthusiad yn 2017, cyflwynodd rhanddeiliaid a sefydliadau partner yr achos dros barhau â'r ymyrraeth ac ymestyn y rhaglen CDC, yn enwedig er mwyn galluogi unigolion sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol i fanteisio ar Gredyd Cynhwysol.

⁴⁹ Llywodraeth Cymru (2016) [Gwerthusiad o Gymunedau Digidol Cymru](#)

⁵⁰ [Gwerthusiad o Gymunedau Digidol Cymru](#) tud.5

- 4.24 Roedd y gwerthusiad yn cynnig cyfres o argymhellion, gan gynnwys:
- dylid ymestyn y rhaglen am ddwy flynedd hyd fis Mawrth 2019
 - dylai ffocws y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod estynedig fod ar greu etifeddiaeth gynaliadwy ar gyfer ymyrraeth cynhwysiant digidol, gan gynnwys sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ar gael i bawb ar-lein a chanolbwyntio gweithgaredd ar sefydliadau partner presennol.
 - dylid canolbwyntio ar wella ansawdd a chysondeb Cynlluniau Gwella Ymgysylltu â Chynhwysiant Digidol fel cynnyrch etifeddol y rhaglen.
 - dylai'r rhaglen barhau i ganolbwyntio ar swyddogaethau cydlynu a datblygu partneriaethau, gan weithio tuag at sicrhau bod partneriaethau lleol yn dod yn hunangynhaliol
 - dylid adolygu DPA y rhaglen i adlewyrchu'r newidiadau hyn dros y cyfnod cyflawni dwy flynedd sy'n weddill tan fis Mawrth 2019.

Sylwadau i gloi

- 4.25 Mae'n amlwg bod polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, pan ddyluniwyd rhaglen gyfredol CDC, yn cefnogi ymyrraeth barhaus gan y sector cyhoeddus i fynd i'r afael ag allgáu digidol ymhlith grwpiau allweddol.
- 4.26 Mae polisi Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi'n glir yr angen i ymyrraeth ddigidol ganolbwyntio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyhoeddiadau diweddar, fel Cysylltu Cymunedau, wedi atgyfnerthu hyn ac wedi tynnu sylw at bwysigrwydd technoleg ddigidol wrth helpu i fynd i'r afael â materion llesiant megis unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.
- 4.27 Mae adolygiad o werthusiadau rhaglenni a ragflaenodd CDC yn dangos bod eu hargymhellion yn aml wedi cael eu mabwysiadu gan fentrau cynhwysiant digidol a ariannwyd wedi hynny. Mae'n amlwg bod argymhellion y rhaglen CDC a ddarparwyd rhwng 2015 a 2019 wedi llywio dyluniad ac amcanion y rhaglen gyfredol. Bu symudiad amlwg tuag at ddefnyddio cyllid cynhwysiant digidol fel cyfrwng i weithio drwy sefydliadau partner er mwyn cyrraedd defnyddwyr ac mae lefel yr adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni hyn yn is.

4.28 Mae'r achosion diweddar o COVID-19 a chatau gweithredu'r llywodraeth wrth ymateb i'r pandemig iechyd byd-eang hwn wedi cael cryn effaith ar y cyd-destun y mae CDC wedi bod yn gweithredu ynddo ers mis Mawrth 2020. Mae'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol digidol wedi cynyddu ac mae lleoliadau eraill, fel ysgolion a sefydliadau'r trydydd sector, wedi atal eu gweithrediadau arferol ac wedi troi at ddarpariaeth rithiol, neu wedi bod ar y rheng flaen o ran ymateb i'r argyfwng. Mae cyfyngiadau'r llywodraeth ar bobl yn symud a rhyngweithio a orfodwyd o ganlyniad i'r haint hefyd wedi arwain at fwy o angen a galw am ddulliau digidol o gyfathrebu a defnyddio gwasanaethau ymhlith grwpiau targed y rhaglen.

5. Trosolwg o Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant

5.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg manwl o'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru (CDC): Rhaglen Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant gan ystyried dogfennau a data monitro ar lefel y rhaglen.

Cyflwyniad

5.2 Rhaglen tair blynedd gan Lywodraeth Cymru yw CDC: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant a ddarperir rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mehefin 2022 a'i nod yw lleihau allgáu digidol a helpu i wella sgiliau digidol sylfaenol ledled Cymru. Ei hamcanion allweddol yw:

- annog a chefnogi pobl sydd â sgiliau digidol cyfyngedig i elwa o fanteision technolegau digidol
- hwyluso'r gwaith o gydlynu gweithgaredd cynhwysiant digidol ar draws y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gynyddu effaith y cymorth sydd ar gael i'r eithaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella iechyd a llesiant
- ymgorffori gweithgareddau cynhwysiant digidol mewn sefydliadau arweiniol/ymbarél, gan alluogi dull rhad a'r ddarparu hyfforddiant a chymorth ar draws sefydliadau a grwpiau cymunedol fel ffordd o gyrraedd y rhai â sgiliau digidol cyfyngedig.
- annog a chefnogi'r rhai sy'n newydd i'r rhyngrwyd neu'r rhai sy'n gwneud defnydd cyfyngedig ohoni i wella eu sgiliau digidol sylfaenol, gan gynnwys staff y sefydliadau a gefnogir⁵¹.

5.3 Nod y rhaglen yw galluogi unigolion i gyflawni'r sgiliau sylfaenol, a nodir yn fframwaith sgiliau digidol hanfodol y DU, sef:

- trin gwybodaeth a chynnwys: dod o hyd i wybodaeth, ei rheoli a'i storio'n ddiogel

⁵¹ Manyleb. tud.3-4

- datrys problemau: dod o hyd i atebion i broblemau gan ddefnyddio offer digidol a gwasanaethau ar-lein
- cyfathrebu: cyfathrebu, rhyngweithio, cydweithio, rhannu a chysylltu ag eraill
- gwneud trafodiadau: cofrestru a gwneud cais am wasanaethau, prynu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau, a gweinyddu a rheoli trafodiadau ar-lein
- bod yn ddiogel ac yn gyfreithlon ar-lein: cadw'n ddiogel a bod yn gyfreithlon ac yn hyderus ar-lein.

5.4 Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gefnogi pedwar grŵp blaenoriaeth. Yn ei chynnig i Lywodraeth Cymru, mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn nodi nifer flynyddol o unigolion sy'n dod o fewn y grwpiau blaenoriaeth hyn y mae'n bwriadu eu cefnogi er mwyn cyrraedd ei tharged blynyddol cyffredinol o 60,000 o gyfranogwyr:

- pobl hŷn 50+ (27,000)
- pobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith (10,000)
- pobl anabl (13,000)
- tenantiaid tai cymdeithasol (10,000).

Dyluniad y rhaglen

5.5 Canolfan Cydweithredol Cymru sy'n darparu'r rhaglen CDC, gydag elfennau o'r rhaglen wedi'u his-gontractio i'r Good Things Foundation, elusen yn y DU sy'n darparu cyrsiau digidol ar-lein ac yn hwyluso rhwydwaith o ganolfannau ar-lein, a Phrifysgol Abertawe.

5.6 Mae'r rôl y disgwylir i'r Good Things Foundation ei chyflawni yn cynnwys:

- hyrwyddo a chyflwyno ei darpariaeth ar-lein, sef cyrsiau Learn my Way⁵²

⁵² [Learn my way](#)

- cynyddu maint a chapasiti'r Rhwydwaith Canolfannau Ar-lein⁵³ yng Nghymru
 - datblygu tri chwrs dwyieithog penodol i Gymru er mwyn cynorthwyo pobl i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau iechyd sylfaenol ar-lein
 - meithrin gallu Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaethau lleol i ddatblygu strategaethau ac ymyriadau cynhwysiant digidol.
- 5.7 Disgwylwyd y byddai'r Good Things Foundation yn penodi Uwch Swyddog Cyfrifol a rheolwr prosiect ymroddedig ar gyfer y rhaglen.
- 5.8 Bwriadwyd i Brifysgol Abertawe chwarae rôl eirioli ar gyfer y rhaglen ar draws y sector iechyd, gyda dau gynrychiolydd academiaidd yn ymgymryd â rolau Eiriolwyr Cynhwysiant Digidol. Mae'r ddau gynrychiolydd academiaidd hefyd yn aelodau o'r Grŵp Arweinyddiaeth sy'n cymryd cyfrifoldeb am Gyngrhair Cynhwysiant Digidol Cymru. Disgwylir i Academi Morgan, sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Abertawe, ledaenu'r hyn a ddysgir ac ysgogi trafodaeth ynghylch polisi yn y maes gwaith hwn.
- 5.9 Roedd cynnig CDC i Lywodraeth Cymru yn nodi naw ffrwd waith allweddol a fyddai'n sail i'r rhaglen:

1. Gweithio'n helaeth gyda sefydliadau penodol i **gyd-gynhyrchu** dulliau sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl sydd angen cymorth sgiliau digidol sylfaenol.
2. Meithrin a chryfhau **perthnasau strategol** fel ffordd o wreiddio gweithgareddau cynhwysiant digidol ledled Cymru.
3. Cefnogi **Byrddau Iechyd** Cymru i ennyn diddordeb staff a gwirfoddolwyr mewn technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd cleifion.
4. Helpu sefydliadau **cyhoeddus a'r trydydd sector** i gofleidio a sefydlu cynhwysiant digidol yn eu strategaethau a'u harferion.
5. Hyrwyddo a chynyddu **gwaith gwirfoddol mewn sgiliau digidol sylfaenol** ledled Cymru.

⁵³ [Onlce Centres Network](#)

6. Gweithio gyda phob **Awdurdod Lleol** yng Nghymru i sefydlu cynhwysiant digidol yn rhan o'u darpariaeth gyda phwyslais ar **ofal cymdeithasol**.
7. Ymgysylltu â'r **sector preifat** i sefydlu cynhwysiant digidol yn eu gwasanaethau a hyfforddi staff i fod yn wirfoddolwyr.
8. Creu, datblygu a rhannu **adnoddau a phecynnau hyfforddi** er mwyn cefnogi cynhwysiant digidol gyda phwyslais ar iechyd a gofal cymdeithasol.
9. Cynyddu nifer y **Canolfannau Ar-lein** a'r niferoedd sy'n dilyn cyrsiau **Learn my Way** yng Nghymru.

5.10 Roedd CDC yn bwriadu cyflwyno'r tair rhaglen wirfoddoli ganlynol a fyddai'n cynnwys recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr:

- **Arwyr Digidol** (gan gynnwys Bagloriaeth Cymru) a fyddai'n cael eu hyfforddi i ddarparu cymorth cynhwysiant digidol yn eu hadeiladau eu hunain neu gyda phartner lleol
- **Cyfeillion Digidol** a fyddai'n cael eu hyfforddi i ddarparu cymorth cynhwysiant digidol i gymheiriaid o fewn sefydliad
- **Hyrwyddwyr Digidol** (gan gynnwys Hyrwyddwyr Iechyd Digidol) a fyddai'n cael eu hyfforddi i ddarparu sesiynau cynhwysiant digidol mewn sefydliadau e.e. Dydd Gwener Digidol.

5.11 Disgwylwyd hefyd y byddai elfen fach o'r rhaglen CDC yn darparu gwasanaeth **benthyg cyfarpar** i sefydliadau, i ddangos gwerth mabwysiadu dyfeisiau a dulliau gweithredu newydd.

5.12 Fel rhan o'r rhaglen, cynlluniwyd yr elfen **Prosiectau Braenaru Cynhwysiant Digidol** i ddarparu cyfraniad ariannol at brosiectau a gweithgareddau a fyddai'n hyrwyddo cynhwysiant digidol o fewn sefydliad, sir neu bartneriaeth. Roedd hwn yn dull newydd wedi'i anelu at wneud i bethau ddigwydd, cyflwyno arfer da neu brosiectau peilot a syniadau arloesol. Disgwylwyd y byddai sefydliadau'n cyflwyno Cynnig Prosiect Braenaru i wneud cais am gyllid yn ogystal â gwneud ei gyfraniad ariannol ei hun at y prosiect.

- 5.13 Rhagwelwyd mai agwedd sylfaenol ar y cymorth i sefydliadau fyddai datblygu a chytuno ar **Gynlluniau Ymgynghori Digidol** rhwng Canolfan Cydweithredol Cymru a'r holl sefydliadau a gefnogir. Nod y Cynlluniau Ymgynghori Digidol yw nodi'r lefel briodol o gymorth sydd fwyaf addas er mwyn cyrraedd buddiolwyr y grŵp blaenoriaeth.
- 5.14 Elfen newydd allweddol y rhaglen arfaethedig oedd **Cynghrair Cynhwysiant Digidol**. Bwriad y rhwydwaith hwn sy'n seiliedig ar aelodaeth oedd dwyn ynghyd yr holl randdeiliaid ledled Cymru o dan faner genedlaethol. Byddai Grŵp Arweinyddiaeth craidd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o amrywiol grwpiau rhanddeiliaid yn cael ei ffurfio i fwrw ymlaen â gwaith y Gynghrair. Pwrpas y Gynghrair Cynhwysiant Digidol fyddai lledaenu newyddion, rhannu adnoddau, cyflwyno digwyddiadau ar y cyd, dylanwadu ar bolisi a hyrwyddo cynhwysiant digidol fel cyfrifoldeb i bawb. Roedd disgwyl i'r Gynghrair weithio ochr yn ochr â'r Rhwydwaith Arweinwyr Digidol a Chanolfannau Ar-lein y DU. Byddai'r Gynghrair yn cael ei chefnogi gan Swyddog Partneriaethau ac Ymgyrchoedd o fewn tîm CDC.

Cyllid a gwariant

- 5.15 Ariennir y rhaglen £6 miliwn gan is-adran Dyfodol Ffyniannus ac is-adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae cyllideb o £6m (gan gynnwys TAW) wedi'i dyrannu i'r rhaglen am gyfnod o dair blynedd rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 31 Mehefin 2022. Efallai y bydd cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi estyniad posibl i'r rhaglen rhwng 2022-2025, yn amodol ar ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn a chytuno ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Targedau a pherfformiad

- 5.16 Disgwylir i'r rhaglen gyflawni naw dangosydd perfformiad allweddol (DPA), a nodir yn Nhabl 5.1. Cyflwynwyd y 9^{fed} DPA yn ystod trydydd chwarter y rhaglen ar gais y contractiwr er mwyn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y rhaglen i gefnogi staff rheng flaen y tu allan i leoliadau iechyd a gofal:

Tabl 5.1: Dangosyddion Perfformiad Allweddol CDC

	DPA	Targed Blynnyddol
1	Nifer y bobl a gafodd gymorth uniongyrchol drwy ymyriadau dwys	5,000
2	Pobl a gafodd gymorth yn anuniongyrchol drwy ymgysylltu â sefydliadau	40,000
3	Sefydliadau'r sector preifat yr ymgysylltwyd â nhw	10
4	Cyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat (gan gynnwys BBaChau) yr ymgysylltwyd â nhw	80
5	Sefydliadau'r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â nhw (gan gynnwys pob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol)	35
6	Gwirfoddolwyr Cynhwysiant Digidol a gafodd eu recriwtio a'u lleoli gan sefydliadau a gefnogir gan y rhaglen	500
7	Staff iechyd a gofal cymdeithasol a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd	5,000
8	Cleifion a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd	15,000
9	Staff rheng flaen (heblaw am iechyd a gofal) a hyfforddwyd i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio technoleg	500

5.17 Mae'r dangosyddion hyn wedi'u diffinio a'u cytuno gan Lywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Maent wedi ystyried targedau a chyflawniadau rhaglenni blaenorol yn ogystal â chael eu llywio gan gyfrifiadau poblogaeth cyffredinol. Felly er enghraifft, gosodwyd DPA 7 ar y sail y byddai'r rhaglen yn anelu at gefnogi 6.25 y cant o'r 80,000 o staff cofrestredig y GIG ledled Cymru (h.y. 5,000 o gyfranogwyr) o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Gallai'r allbwn hwn hefyd gynnwys y staff hynny nad ydynt yn staff cofrestredig y GIG, a thrwy hynny ehangu'r gynulleidfa bosibl ar gyfer y DPA hwn.

5.18 Mae'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer pob dangosydd wedi'i nodi mewn dogfen fewnol⁵⁴. Er enghraifft, mae'r diffiniad ar gyfer DPA 1 yn cynnwys

⁵⁴ Diffiniadau a Gofynion Tystiolaeth CDC Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant Mawrth 2020, heb ei gyhoeddi

cymorth uniongyrchol drwy ymyriadau dwys i unigolion a disgwylir iddo gynnwys mwy nag un sesiwn ar gyfer pob unigolyn. Mae'r diffiniad ar gyfer DPA 2 yn seiliedig ar amcangyfrif o nifer yr unigolion unigryw sydd wedi ymgysylltu â thechnoleg ac sy'n cael cymorth gan sefydliadau.

- 5.19 Mae'r adroddiad chwarterol diweddaraf (chwarter 4, darpariaeth blwyddyn ar gyfer y cyfnod hyd ddiwedd mis Mehefin 2020) yn amlinellu perfformiad rhaglenni yn erbyn targedau hyd yma. Cyflwynir y rhain yn Nhabl 5.2. Ar y cyfan, mae'r perfformiad yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dda er bod COVID-19 wedi effeithio ar y pedwerydd chwarter. Rhagorodd y rhaglen ar ei thargedau blynyddol ar gyfer DPA 1, 4, 6 a 9 tra bod y DPA eraill yn ymddangos yn fwy heriol, yn enwedig DPA 2 a 7 o ystyried mai dim ond un rhan o bump o'r targed blynyddol a gyflawnwyd.

Tabl 5.2: Perfformiad y rhaglen (Gorffennaf 2019 - Mehefin 2020)

	DPA	Targed Blynyddol	Allbwn Blynyddol
1	Nifer y bobl a gafodd gymorth uniongyrchol drwy ymyriadau dwys	5,000	6,576
2	Pobl a gafodd gymorth yn anuniongyrchol drwy ymgysylltu â sefydliadau	40,000	7,655
3	Sefydliadau'r sector preifat yr ymgysylltwyd â nhw	10	0
4	Cyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat (gan gynnwys BBaChau) yr ymgysylltwyd â nhw	80	123
5	Sefydliadau'r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â nhw (gan gynnwys pob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol)	35	0
6	Gwirfoddolwyr Cynhwysiant Digidol a gafodd eu recriwtio a'u lleoli gan sefydliadau a gefnogir gan y rhaglen	500	643
7	Staff iechyd a gofal cymdeithasol a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd	5,000	661
8	Cleifion a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd	15,000	12,415

9	Staff rheng flaen (heblaw am iechyd a gofal) a hyfforddwyd i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio technoleg	500	545
---	---	-----	-----

Ffynhonnell: Adroddiad chwarterol Rhaglen CDC, Mehefin 2020

- 5.20 Mae'r adroddiadau chwarterol diweddaraf yn cydnabod bod rhai DPA yn parhau i fod yn heriol. Mae'r adroddiadau hefyd yn nodi bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar waith y rhaglen ers mis Mawrth 2020. Penderfynwyd rhoi'r gorau i'r rhaglen ar unwaith mewn lleoliadau sy'n agored i niwed ac ysgolion, ac yna newid i ddefnyddio opsiynau rhithiol yng ngoleuni cyfarwydddeb Llywodraeth Cymru. Newidiodd y rhaglen ei ffocws i ddarparu gweminarau a chymorthfeydd digidol drwy amrywiol blatfformau fideoalwadau.
- 5.21 Mae adroddiadau chwarterol diweddar hefyd yn cydnabod bod sefydliadau wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar ymateb i'r pandemig, a gohiriwyd yr ymgysylltiad â'r rhaglen. Roedd hyn yn broblem benodol i'r rhai yn y sector iechyd.


Trefniadau llywodraethu ac adnoddau staffio'r rhaglen

- 5.22 Mae Bwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol yn cyfarfod bob chwarter i oruchwylio sut y mae'r rhaglen CDC yn cael ei chyflawni ac i helpu i lywio datblygiad polisi. Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd yn disgwyl i aelodau weithredu fel cyfeillion beirniadol i'r rhaglen. Mae adolygiad o gofnodion cyfarfodydd diweddar yn dangos bod y 30 o unigolion sy'n aelodau ohono yn dod o 18 o sefydliadau (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CDC, cynrychiolwyr y trydydd sector a'r sector preifat).
- 5.23 O ran tîm cyflawni CDC, disgwyliwyd y byddai cyfanswm o 24 aelod o staff yn cael eu penodi i dîm craidd CDC yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru. Byddai'r rhain yn cael eu cefnogi gan dri aelod arall o staff o wasanaethau corfforaethol y sefydliad. Disgwyliwyd i'r swyddi hyn gynnwys:
- Cyfarwyddwr Rhaglen
 - Rheolwyr Rhanbarthol (3)
 - Cynghorwyr Cynhwysiant Digidol Rhanbarthol (9)

- Hyfforddwyr Cynhwysiant Digidol Rhanbarthol (7.5 CALI)
- Swyddog Monitro ac Adrodd
- Swyddog Partneriaethau ac Ymgyrchoedd
- Swyddog Hyfforddi a Datblygu
- Gweinyddwr
- Swyddog Cyllid (0.5 CALI)
- Swyddog Cyfathrebu (Y we) (0.21 CALI)
- Swyddog Cyfathrebu (Cyfryngau Cymdeithasol) (0.34 CALI).

5.24 Nodir strwythur disgwyliedig tîm y rhaglen CDC yn Ffigur 5.1.

Ffigur 5.1: Strwythur disgwyliedig tîm y rhaglen



Ffynhonnell: Cynnig Canolfan Cydweithredol Cymru i Lywodraeth Cymru

Monitro ac adrodd

- 5.25 Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn paratoi adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru, gan amlinellu'r cynnydd yn erbyn y DPA.
- 5.26 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu archwiliad chwarterol o ganlyniadau er mwyn gwirio sampl o'r canlyniadau sy'n cael eu hadrodd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn dewis 10

unigolyn a gofnodwyd yn erbyn DPA 1 (pobl a gafodd gymorth uniongyrchol drwy ymyriadau dwys) i wirio bod y feddalwedd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn eu rhestru fel rhai sydd wedi cael cymorth uniongyrchol drwy ymyriadau dwys. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am gael gweld copi o Gynlluniau Ymgynghori Digidol sampl o rhwng dau a phedwar sefydliad i ddilysu ansawdd y canlyniadau sy'n cael eu cofnodi yn erbyn DPA (pobl a gafodd gymorth anuniongyrchol drwy ymgysylltu â sefydliadau).

Hyrwyddo a marchnata

- 5.27 Mae cynnig Canolfan Cydweithredol Cymru i Lywodraeth Cymru yn nodi cynlluniau ar gyfer marchnata a hyrwyddo'r rhaglen. Elfen allweddol o'r cynllun cyfathrebu yw ymgysylltu ag uwch gynrychiolwyr o sefydliadau targed o'r meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, y trydydd sector a sefydliadau eraill. Y nod yw creu ymwybyddiaeth brand, ysgogi ymholiadau a chyfleu effaith y rhaglen.
- 5.28 Mae'r cynllun cyfathrebu yn nodi nifer o sianeli a fyddai'n bwysig i'r rhaglen. Maent yn cynnwys:
- brand ar gyfer y rhaglen
 - gwefan, gan adeiladu ar wefan bresennol CDC
 - cyfryngau cymdeithasol, i ddatblygu rhwydweithiau a chynhyrchu ymholiadau
 - marchnata uniongyrchol, i efelychu ymholiadau a chodi ymwybyddiaeth
 - cyhoeddiadau, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau
 - datganiadau i'r wasg, gan gynnwys astudiaethau achos ac ymgyrchoedd
 - cynadleddau, gan gynnwys cynnal cynhadledd reolaidd ac un gynhadledd genedlaethol
 - ymgyrchoedd, gan gynnwys cymryd rhan weithredol yn ymgyrchoedd y DU a chynnal ei hymgyrchoedd ei hun.

6. Canfyddiadau'r gwaith maes: Dylunio a datblygu

- 6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd gan ddau fath o gyfrannwr: Swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni'r rhaglenni (yn gweithio yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru, Prifysgol Abertawe a'r Good Things Foundation) a oedd wedi bod yn rhan o ddylunio a datblygu CDC, ynghylch sut y bwriadwyd i'r rhaglen weithredu a'r canlyniadau a ddisgwyliwyd. Yna mae'n ystyried sut y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar yr angen am y rhaglen a'i dyluniad.

Ysgogwyr polisi

- 6.2 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni'r rhaglen o'r farn bod y rhaglen CDC wedi cael ei llywio gan bolisiâu Llywodraeth Cymru a oedd ar waith ar y pryd. Yn benodol, credwyd bod gan CDC gylch gwaith clir i helpu i gyfrannu at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen (2016-2021) i helpu 95 y cant o bobl i feithrin o leiaf y sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen arnynt erbyn 2021.
- 6.3 Tynnodd y cyfranwyr sylw hefyd at ddatblygiadau polisi eraill Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i CDC. Roedd rhai o'r rhain ar waith adeg dylunio'r rhaglen ac eraill wedi'u cyflwyno yn ystod cyfnod cyflawni'r rhaglen. Ystyrir pob un yn ei dro:

Iechyd a gofal cymdeithasol

- 6.4 Awgrymwyd yn gyson bod y rhaglen yn cyd-fynd yn dda ag amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'i hymgyrch i ddarparu ffyrdd digidol i bobl gael gafael ar wasanaethau a gwybodaeth iechyd. Adlewyrchwyd hyn yn y dyraniad gwreiddiol o gyllid ychwanegol drwy gyllideb iechyd Llywodraeth Cymru er mwyn caniatáu ymyrraeth benodol ar draws y sector iechyd. Roedd consensws ymhlith y cyfranwyr bod darpariaeth iechyd ddigidol wedi dod yn fwyfwy pwysig yn ystod camau olaf y rhaglen flaenorol, wedi'i ysgogi gan bolisiâu Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd i ehangu gwasanaethau iechyd digidol. Dadleuodd y cyfranwyr fod yr ymchwil sylfaenol a wnaed gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac Ymddiriedolaeth Carnegie wedi chwarae rhan allweddol yn broses o nodi'r gyfatebiaeth rhwng polisi iechyd a gofal

cymdeithasol a'r dull o gyflawni'r rhaglen, yn enwedig yr angen i wella sgiliau digidol ar draws gweithlu'r sector iechyd yn ogystal ag ymhlith defnyddwyr gwasanaethau. Disgwylwyd hefyd y byddai'r newid sy'n digwydd ar draws iechyd digidol yn gwaethygu'r gyfraith gofal gwrthdro, yn yr ystyr mai pobl sydd fwyaf angen gofal fyddai'r lleiaf tebygol o fanteisio arno.

Cyflogadwyedd

- 6.5 Ystyriwyd bod gan CDC rôl bwysig o ran gwella cyflogadwyedd unigolion di-waith drwy eu cefnogi i gael eu cynnwys yn fwy yn y byd digidol. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ymrwymiad newydd gwerth £40m yn ymwneud â COVID-19 i gefnogi unigolion dros 16 oed sy'n chwilio am waith, sy'n awyddus i fod yn hunangyflogedig neu sy'n awyddus i ddod o hyd i le mewn addysg neu hyfforddiant.⁵⁵ Mae rhan o'r cyllid hwn yn ymwneud â CDC (£380,000 dros gyfnod o ddwy flynedd tan ddiwedd y rhaglen gyfredol) a disgwylir iddo gael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn dyfeisiau electronig i'w benthyca i gyfranogwyr Cymunedau am Waith a Mwy i'w cefnogi ar eu llwybr tuag at gyflogaeth. Bydd CDC yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gaffael, dosbarthu a rheoli asedau ar gyfer 600 o ddyfeisiau i gyfranogwyr nad oes ganddynt fynediad at gyfarpar o'r fath yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth priodol i unigolion.

Y system gyfiawnder

- 6.6 Mae'r system gyfiawnder yn y DU yn cael ei thrawsnewid yn ddigidol gyda'r nod o ddiwygio'r system llysoedd a thribiwnlysoedd ledled y wlad. Nod Llywodraeth y DU yw cyflwyno gweithdrefnau digidol ar draws llysoedd a thribiwnlysoedd er mwyn sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, mae nifer o heriau y dylid mynd i'r afael â hwy os am sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg mynediad digonol i gyfleusterau fideo mewn carchardai, materion yn ymwneud â mynediad at gyfarpar ac ansawdd y ddarpariaeth

⁵⁵ [Datganiad Ysgrifenedig: Ymrwymiad Covid i Gyflogadwyedd a Sgiliau \(28 Gorffennaf 2020\) | LLYW.CYMRU](#)

sydd ar gael i'r rhai sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder, i ba raddau y gall fod gan y rhai yn y system gyfiawnder gyflyrau iechyd meddwl (na wnaed diagnosis ohonynt) a phroblemau'n ymwneud â dehongli o bell.

- 6.7 Gallai'r datblygiadau hyn fod â goblygiadau pwysig i raglen CDC gan eu bod yn debygol o greu carfan newydd o ddefnyddwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol y bydd ymgysylltu â system gyfiawnder ar-lein yn her iddynt. Mae'n annhebygol bod rhai o'r defnyddwyr hyn wedi cael eu cofnodi'n hanesyddol fel pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol gan y byddai ganddynt yn y gorffennol lefel briodol o gysylltedd, sgiliau digidol a chyfarpar i ddiwallu eu hanghenion beunyddiol. Fodd bynnag, er mwyn ymgysylltu'n effeithiol ag unrhyw newidiadau i system gyfiawnder ar-lein yn y dyfodol, roedd y cyfranwyr yn cydnabod y bydd angen ystyried mynediad at ddyfeisiau, cysylltedd a chymorth gyda sgiliau sylfaenol.

Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor

- 6.8 Mae cyfran fawr o ddefnyddwyr sy'n defnyddio gwasanaethau gwybodaeth a chyngor wedi'u hallgáu yn ddigidol. Mae'r newid tuag at ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor dros y ffôn a thrwy ddulliau rhithiol ers dyfodiad COVID-19 wedi creu heriau i'r garfan hon. Nododd y cyfranwyr leihad yn yr aelwydydd nad oeddent yn trosglwyddo o gymorth wyneb yn wyneb i gymorth rhithiol, ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y cleientiaid hyn yn fwy tebygol o fod yn unigolion â namau corfforol. Rhwystr mawr i gael gafael ar gymorth ar-lein oedd fforddiadwyedd cael mynediad at wasanaethau digidol e.e. defnyddwyr a chanddynt swm cyfyngedig o ddata fel rhan o'u contract ffôn; yn ogystal ag anawsterau gyda rhannu dogfennau papur e.e. rhannu dogfennau i brofi cymhwysra neu gopïau o ohebiaeth a dderbyniwyd.
- 6.9 Roedd y cyfranwyr yn credu bod gan CDC ran i'w chwarae o ran cefnogi staff rheng flaen a gwirfoddolwyr i gyrraedd y defnyddwyr hynny sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Dadleuwyd y bydd darpariaeth wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn bwysig ar ôl COVID-19 oherwydd ei allu i ennyn ymddiriedaeth a threiddio'n ddyfnach i'r problemau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu, ond bod y gwasanaeth yn debygol o fabwysiadu dull hybrid, gyda

rhai o'r tasgau rhagarweiniol yn cael eu cyflawni o bell er mwyn cyflymu'r broses. Mae rhai grwpiau wedi nodi eu bod yn ffafrio gwasanaeth rhithiol, oherwydd ei fod yn ddienw. Awgrymwyd bod gan y sector cyngor a gwybodaeth rôl i adnabod defnyddwyr na allant gael mynediad at wasanaethau ar-lein a gweithio gyda CDC i ddatrys eu problemau. Awgrymodd y cyfranwyr y gallai hyn gynnwys cyfeirio defnyddwyr at y rhaglen CDC, cael cymorth gan CDC i hyfforddi staff a gwirfoddolwyr neu gael gafael ar gyfarpar drwy'r rhaglen CDC i'w ddefnyddio ar gyfer arddangos ac i hyfforddi defnyddwyr gwasanaethau.

Angen sylfaenol

6.10 Roedd y cyfranwyr o'r farn bod yr angen am y rhaglen CDC yn amlwg o ystyried bod lleiafrif bach o'r boblogaeth ledled Cymru yn parhau i fod wedi'u hallgáu'n ddigidol, ond cydnabuwyd bod y gyfran hon wedi lleihau dros amser. Cyfeiriodd sawl cyfrannwr ar ganfyddiadau data Arolwg Cenedlaethol Cymru, sef:

- mae cyfran y bobl sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd yn bersonol wedi cynyddu dros amser, gyda 90 y cant o oedolion 16 oed a throsodd bellach yn defnyddio'r rhyngwrwyd gartref, yn y gwaith neu yn rhywle arall erbyn 2019/20; gan adael 10 y cant o bobl wedi'u hallgáu'n ddigidol⁵⁶
- mae cyfran yr aelwydydd sydd â mynediad at y rhyngwrwyd wedi cynyddu o 73 y cant i 88 y cant rhwng 2012/13 a 2019/20, er bod mynediad i'r rhyngwrwyd yn parhau i fod yn is mewn ardaloedd o amddifadedd^{57, 58}.

6.11 Dadleuodd cyfranwyr eraill fod angen y rhaglen CDC oherwydd bod cyfran is o'r boblogaeth yn defnyddio'r rhyngwrwyd mewn ffordd ystyrllon. Er enghraifft, mae data diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos

⁵⁶ [Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2019 i Mawrth 2020](#)

⁵⁷ [Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2019 i Mawrth 2020](#)

⁵⁸ Mae mynediad i'r rhyngwrwyd i deuluoedd yn amrywio yn ôl y lefelau amddifadedd ardal ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Er enghraifft, yn 2018/19, roedd gan 92 y cant o aelwydydd yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf fynediad i'r rhyngwrwyd o gymharu ag 83 y cant o aelwydydd yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.

bod 73 y cant o ddefnyddwyr y rhyngwrwyd yn ymgymryd â gweithgareddau ar-lein sy'n gysylltiedig â phob un o'r pum sgil ddigidol sylfaenol (fel yn 2019/20)⁵⁹. Roedd cyfranwyr o'r farn bod y CDC yn gwneud mwy na dim ond cefnogi pobl i ymgysylltu â thechnoleg am y tro cyntaf, a bod y rhaglen hefyd wedi'i chynllunio i ddarparu cymorth a phrofiadau ystyrlon i bobl fel y gallent gyflawni'r pum gofyniad digidol sylfaenol a nodir yn y fframwaith sgiliau digidol.

Nodau ac amcanion y rhaglen

- 6.12 Roedd y cyfranwyr a oedd wedi bod yn gysylltiedig â dylunio'r rhaglen CDC o'r farn mai un o nodau gwreiddiol y rhaglen gyfredol oedd **mynd i'r afael ag allgáu digidol ledled Cymru**, ac yn benodol targedu a chefnogi'r garfan fach o bobl nad ydynt ar-lein yng Nghymru. Ystyriwyd bod y nod hwn wedi parhau o ymyriadau blaenorol, a oedd yn canolbwyntio ar hyn fel blaenoriaeth. Roedd y cyfranwyr yn ymwybodol bod y newid tuag at ddarpariaeth ar-lein ers COVID-19 yn golygu y byddai'n fwy o her i'r rhaglen gyrraedd y garfan hon sydd wedi'i hallgáu yn ddigidol, gan na allent ymgysylltu â hi drwy ddulliau rhithiol. Cydnabuwyd yn eang hefyd y byddai cyflawni'r nod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhaglen ganolbwyntio ar y rhai 'anoddaf eu cyrraedd ac anoddaf eu hargyhoeddi' ac a oedd yn wynebu rhwystrau i gynhwysiant digidol na allai CDC fynd i'r afael â hwy o reidrwydd. Byddai'r rhain yn cynnwys rhwystrau ffisegol (megis cysylltedd), rhwystrau ariannol yn ogystal â rhwystrau o ran agwedd (h.y. pobl ddim eisiau ymgysylltu).
- 6.13 Roedd y cyfranwyr hefyd o'r farn bod CDC yn anelu at ddatblygu **sgiliau digidol a hyder** pobl. Dadleuwyd bod y nod hwn wedi dod yn bwysicach wrth i'r rhaglen fynd rhagddi oherwydd effaith COVID-19 ar ddigideiddio gwasanaethau a chynnydd yn y sgiliau digidol sy'n ofynnol i ddefnyddwyr eu cael er mwyn ymgymryd â mwy o dasgau a swyddogaethau ar-lein yn ogystal ag ymgymryd â thasgau sylfaenol o ddydd i ddydd fel cyfathrebu â ffrindiau a theulu.

⁵⁹ [Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2019 i Mawrth 2020](#)

6.14 Roedd awgrym hefyd bod CDC yn anelu at **ennyn diddordeb pobl mewn technoleg arloesol a chodi eu hymwybyddiaeth ohoni**, o ystyried y ffocws ar gyflwyno cymwysiadau arloesol i gleifion a defnyddwyr mewn lleoliadau penodol fel cartrefi gofal a wardiau ysbytai. Er enghraifft, nododd aelod o'r tîm cyflawni:

'mae ein rôl yn golygu gwneud rhywfaint o waith ysbrydoli hefyd - mae hynny hefyd yn rhan o'r jig-so - mae rhai ohonyn nhw'n nerfus ynglŷn â thechnoleg ddigidol ac yn gallu defnyddio eu hobiau neu eu diddordebau fel ffordd i mewn.'

6.15 Credwyd mai nod sylfaenol arall y rhaglen gyfredol yw **cefnogi sefydliadau iechyd i ymwreiddio cynhwysiant digidol ar lefel strategol** ac i drawsnewid eu dull o gynnig darpariaeth ddigidol. Ystyriwyd bod hwn yn nod hirdymor, o gofio y byddai cyflawni newid o'r fath mewn sefydliadau mawr yn y sector cyhoeddus yn cymryd amser. Nodwyd bod disgwyl i'r rhaglen weithio gyda Byrddau Iechyd, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol, ar lefel strategol i ymgorffori dull cynaliadwy o ymdrin â'r agenda cynhwysiant digidol. Disgrifiodd un cyfrannwr y nod fel ceisio 'newid cyfeiriad jygarnot'. Credwyd bod y disgwyliad hwn yn wahanol i fersiynau blaenorol o'r rhaglen, gan fod gofyn bellach i CDC weithio ar lefel lawer mwy strategol gyda llai o sefydliadau⁶⁰ gyda'r nod o sicrhau ymrwymiad i gynhwysiant digidol ar lefel Bwrdd. Cydnabu'r cyfranwyr ei bod yr her i brosiect cyflawni ddylanwadu ar y math hwn o newid strategol gan ei fod yn gofyn am ymgysylltu â nifer fawr o wahanol adrannau ar draws un corff cyhoeddus er mwyn sicrhau newid.

6.16 Pwysleisiodd y cyfranwyr hefyd fod CDC yn anelu at **gefnogi gweithlu darparwyr gwasanaethau yn ogystal â defnyddwyr** i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol, gan ddadlau ei bod yn bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng darpariaeth a oedd yn rhoi sgiliau a hyder newydd i'r ddwy gynulleidfa hon. Nodwyd bod y rhaglen gyfredol yn bwriadu canolbwyntio ar gefnogi staff rheng flaen i sicrhau dull mwy cyfannol o gynhwysiant digidol ar draws

⁶⁰ Disgwylir i raglen gyfredol CDC weithio gyda 375 o sefydliadau dros gyfnod o dair blynedd o gymharu â 650 o sefydliadau dros gyfnod dwy flynedd y rhaglen a'i rhagflaenodd.

sefydliadau a gefnogir. Awgrymwyd bod profiadau cyflawni cychwynnol y rhaglen wedi dangos bod sgiliau gweithlu'r sector iechyd mewn gwirionedd yn is na'r disgwyl.

Canlyniadau'r rhaglen

6.17 Cyn COVID-19, roedd y cyfranwyr yn disgwyl i CDC gyflawni ystod eang o ganlyniadau, gan gynnwys:

- gostyngiad mewn cyfraddau gwahardd digidol ledled Cymru, yn enwedig ymhlith grwpiau targed y rhaglen
- cynnydd mewn sgiliau digidol a lefelau hyder, eto yn enwedig ymysg grwpiau targed y rhaglen a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol
- Mwy o bobl yn defnyddio technoleg yn gymwys ac yn ddiogel yn eu bywydau bob dydd
- cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu rheoli eu cyflyrau iechyd yn well gan ddefnyddio dulliau digidol
- gwell canlyniadau iechyd a llesiant i gyfranogwyr y rhaglen
- gostyngiad mewn lefelau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith cyfranogwyr y rhaglen
- darparwyr iechyd yn dangos ymrwymiad i gynhwysiant digidol ar lefel y Bwrdd gyda hyrwyddwr digidol pwrpasol wedi'i benodi
- darparwyr iechyd yn ymgorffori ac yn gweithredu polisïau ac arferion cynhwysiant digidol ar draws eu sefydliad (yn amlwg drwy strategaeth ddigidol, cyllideb, mentrau cynhwysiant digidol a mabwysiadu'r Siarter Cynhwysiant Digidol)
- darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn adrodd bod sgiliau a chymhwysedd eu gweithlu mewn llythrennedd digidol wedi gwella.

Grwpiau targed

- 6.18 Roedd y cyfranwyr o'r farn bod cyfiawnhad dros ddylunio CDC i ganolbwyntio ar grwpiau targed penodol gan fod y dystiolaeth yn dangos mai'r grwpiau hyn sy'n dioddef fwyaf o allgáu digidol. Er enghraifft:
- o ran pobl hŷn, dim ond 52 y cant o bobl 75 oed a hŷn oedd yn ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn 2019/20, er bod y gyfran wedi cynyddu'n sylweddol ers 2012/13 pan mai dim ond 22 y cant oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd
 - mae pobl sydd â salwch, anabledd neu wendid hirsefydlog yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd (82 y cant) o gymharu â 94 y cant o'r rhai heb gyflwr o'r fath
 - mae pobl ddi-waith yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd na'r rhai mewn cyflogaeth (mae 98 y cant o'r rhai mewn cyflogaeth yn defnyddio'r rhyngrwyd o'i gymharu â 93 y cant o bobl ddi-waith a 94 y cant⁶¹ o bobl economaidd anweithgar, pob un o oedran gweithio rhwng 16 a 64 oed yn 2018/19)
 - mae pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd (83 y cant) o'i gymharu â'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o lety (e.e. 95 y cant o breswylwyr tai rhent preifat a 90 y cant o berchen-feddianwyr)⁶².
- 6.19 Fodd bynnag, awgrymodd rhai cyfranwyr y dylid adolygu'r grwpiau blaenoriaeth hyn i ystyried effaith COVID-19. Roedd sawl unigolyn o'r farn bod COVID-19 wedi ei gwneud yn fwy clir i ddarparwyr pa rai o'u defnyddwyr nad oeddent yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth ddigidol a'r ffactorau sydd i'w gyfrif am hyn. Fel y dywedodd un cyfrannwr:
- 'Mae COVID-19 wedi dangos bod gennych garfan hollol newydd o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol... mae hyn wedi arwain at newid mawr o ran yr offer sydd ei angen ar bobl'.

⁶¹ Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gyfeirio at ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru

⁶² [Defnydd o'r rhyngrwyd a sgiliau digidol \(Arolwg Cenedlaethol Cymru\): Ebrill 2018 i Mawrth 2019](#)

- 6.20 Awgrymwyd y gallai fod budd o segmentu marchnad darged CDC mewn ffordd wahanol sy'n newid y pwyslais neu'n canolbwyntio ar is-grwpiau penodol yn y pedwar maes blaenoriaeth cyfredol (yn enwedig pobl hŷn o ystyried maint y garfan hon). Ymhlith yr opsiynau eraill a awgrymwyd roedd canolbwyntio ar grwpiau blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus penodol (e.e. y rhai sy'n defnyddio'r system gyfiawnder) neu ar lefelau amddifadedd cymdeithasol yn hytrach na demograffeg.

Effaith y pandemig COVID-19

- 6.21 Nododd y cyfranwyr fod y pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r angen sylfaenol am CDC ac wedi cryfhau'r achos dros ymyrraeth, o ystyried y newid sydyn, sylweddol ar draws gwasanaethau cyhoeddus o ran symud ar-lein. Ymhlith y sylwadau a gynigiwyd roedd y canlynol:

'mae ar frig yr agenda ... mae'n flaenoriaeth'

'mae COVID-19 wedi rhoi dannedd i'r rhaglen [CDC] ac wedi dangos angen clir amdani'

'nid oes angen i mi fynd allan i wneud cyflwyniadau ar beth yw ystyr allgáu digidol mwyach'.

- 6.22 Adroddodd y staff cyflawni bod y pandemig wedi arwain at gynnydd yn y galw ar y rhaglen, gyda CDC yn cael ei hystyried yn gynyddol gan sefydliadau, eu defnyddwyr a'u staff fel dull o'u helpu i fynd i'r afael ag ystod ehangach o faterion digidol mwy uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19. Credwyd bod hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar y tîm cyflawni o ystyried bod y gofynion ar y rhaglen:

'mor uchel nes ei bod yn anodd rheoli disgwyliadau... roedd yn wallgof ar ddechrau'r cyfnod clo'.

- 6.23 Roedd y galw ychwanegol hwn yn cyd-daro â chais llwyddiannus Canolfan Cydweithredol Cymru i ddarparu menter Llywodraeth Cymru i ddyrannu dyfeisiau lleol i gartrefi gofal a lleoliadau eraill fel hosbisau. Bwriad y fenter gwerth £803,000 hon oedd mynd i'r afael â'r diffyg cysylltedd digidol a chyfarpar sydd ar gael yn y lleoliadau hyn. Gwelwyd y byddai'r newid hwn

yn golygu y byddai'r rhaglen yn cyflawni canlyniadau ychwanegol, yn benodol canlyniadau fel gwella cysylltedd a mynediad at ddyfeisiau.

- 6.24 Ystyriwyd bod y pandemig COVID-19 hefyd wedi tynnu sylw at ddiffyg cysylltedd a dyfeisiau ymysg dinasyddion pan na allant adael eu cartrefi er mwyn byw eu bywydau ac ymgysylltu'n effeithiol â gwasanaethau cyhoeddus. Nododd y cyfranwyr fod COVID-19 wedi 'codi'r bar' o ran yr hyn a oedd yn ofynnol er mwyn i rywun gael ei gynnwys yn ddigidol a'i fod wedi ehangu'r gwasanaethau a'r gweithgareddau y mae disgwyl i bobl ymgysylltu â nhw ar-lein. Credwyd bod COVID-19 wedi cynyddu'r garfan o bobl y gellid eu hystyried bellach yn bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, ac i ryw raddau, credwyd bod y garfan hon wedi dod yn fwy adnabyddadwy i ddarparwyr gwasanaethau a llunwyr polisïau.
- 6.25 Cyfeiriwyd at sawl enghraifft o grwpiau targed yr arferwyd eu hystyried yn grwpiau sydd wedi'u cynnwys yn ddigidol ond sydd bellach yn dod o fewn categori o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol e.e. pobl a oedd yn arfer defnyddio ffôn clyfar i gael mynediad at y rhyngrwyd bellach angen llechen neu liniadur ar gyfer tasgau newydd fel gwneud cais am swydd ar-lein; disgyblion ysgol sy'n methu â chael mynediad at addysg ar-lein gan fod yn rhaid i bob aelod o'r cartref rannu mynediad at un gliniadur neu weithwyr y mae'n ofynnol iddynt weithio gartref ond sydd â chysylltedd gwael neu ddim cysylltedd⁶³. Yn wir, dadleuwyd yn aml bod grwpiau newydd o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol wedi dod i'r amlwg, gan godi cwestiynau o bosibl ynghylch priodoldeb cynulleidfaoedd targed gwreiddiol y rhaglen ar gyfer y dyfodol.
- 6.26 Cydnabu'r cyfranwyr fod gan effeithiau COVID-19 oblygiadau i flaenoriaethau'r rhaglen yn y dyfodol, yn anad dim o ran gweithio o fewn meini prawf wedi'u hailddiffinio ar gyfer cynhwysiant digidol. Roedd awydd cryf i weld CDC yn canolbwyntio ar gynyddu hyder, sgiliau a chymhwysedd digidol y rhai a oedd ag o leiaf ryw fath o ymgysylltu digidol. Hynny yw, awgrymwyd y dylai'r rhaglen ganolbwyntio llai ar gefnogi'r rhai sydd wedi'u

⁶³ Mae'n werth nodi bod y grŵp hwn wedi cael cymorth ers hynny drwy gronfa addysg Cadw'n Ddiogelu Dal Ati i Ddysgu £3m Llywodraeth Cymru.

hallgáu fwyaf yn ddigidol a chanolbwyntio mwy ar y rhai sydd eisoes wedi'u cynnwys yn ddigidol mewn rhyw ffordd ond nad oes ganddynt ddigon o sgiliau, mynediad na hyder i gymryd rhan lawn mewn gweithgareddau digidol. Mae'n werth nodi fodd bynnag bod ymyriadau eraill hefyd ar gael i ddatblygu sgiliau'r rhai sydd eisoes yn ymgysylltu'n ddigidol, gan gynnwys darpariaeth ddwyieithog Learn My Way.

- 6.27 Adeg y gwaith maes a drafftio'r adroddiad hwn, erys ansicrwydd mawr ynghylch y blaenoriaethau a'r anghenion tymor byr a thymor canolig a allai godi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Roedd y cyfranwyr o'r farn y byddai angen adolygu rôl a blaenoriaethau CDC yn barhaus, ac y gallai sicrhau'r cydbwysedd cywir wrth ateb y gofynion newydd hyn o fewn adnoddau'r rhaglen fod yn her.

7. Canfyddiadau'r gwaith maes: Gweithredu

- 7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried barn y cyfranwyr ynghylch model cyflawni'r rhaglen CDC, ei ddulliau hyrwyddo a marchnata, y cymorth a'r hyfforddiant a ddarperir i sefydliadau, ffrydiau gwaith eraill y rhaglen a'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol newydd.

Manyleb y rhaglen a'r model cyflawni

- 7.2 Canfu'r gwaith maes gefnogaeth eang i fanyleb y rhaglen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni CDC o ystyried bod y rhain yn seiliedig ar dargedau a chyflawniadau blaenorol y rhaglen. Roedd y tîm cyflawni, fodd bynnag, o'r farn bod y DPA yn uchelgeisiol ac er gwaethaf y ffaith iddo ymrwymo i'w cyflawni yn ystod y cam tendro, roedd yn awyddus i'w hail-drafod yng ngoleuni perfformiad y flwyddyn gyntaf. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym Mhennod 9.
- 7.3 Yn gyffredinol croesawyd y ffaith bod dau is-gontractiwr, y Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe, yn rhan o'r tîm cyflawni wedi'i arwain gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Er bod rhai cyfranwyr yn aneglur ynghylch y rôl y disgwyliwyd i Brifysgol Abertawe ei chwarae, roedd eraill o'r farn y byddai'n ymgymryd â rôl eirioli a chynghori bwysig ar gyfer y prosiect. Disgwylwyd hefyd y byddai Prifysgol Abertawe yn ymgymryd â rôl weithredol yn y Gynghrair Cynhwysiant Digidol arfaethedig.
- 7.4 Ystyriwyd bod y Good Things Foundation yn dod â phrofiad a thystiolaeth ehangach o Loegr i'r tîm cyflawni. Roedd disgwyliad hefyd y byddai cael mynediad i'w hyfforddiant ar-lein yn caniatáu i'r rhaglen gyrraedd rhai o'r targedau'n ymwneud â nifer yr unigolion a hyfforddwyd.
- 7.5 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a'r staff cyflawni o'r farn bod gan y rhaglen lefel briodol o adnoddau a capasiti i gyflawni ei hamcanion. Nodwyd bod y model cyflawni, a oedd yn cynnwys timau o gynghorwyr a hyfforddwyr, yn briodol ac yn gweithio'n effeithiol. Credwyd mai un o brif gryfderau'r tîm oedd ei gwmpas daearyddol eang. Croesawyd newid diweddar, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, i CDC greu swydd cydlynedd gwirfoddolwyr gan y credid y byddai'r rôl bwrpasol hon yn ychwanegu capasiti ac yn sicrhau cysondeb ar draws dull recriwtio

gwirfoddolwyr y rhaglen. Awgrymodd rhai cyfranwyr y gallai'r tîm cyflawni elwa o fwy o gymorth gweinyddol er mwyn rhyddhau cynghorwyr a hyfforddwyr. Yn ystod COVID-19, nododd y staff cyflawni eu bod dan bwysau sylweddol i fodloni gofynion y gwaith ychwanegol i ddosbarthu cyfarpar i gartrefi gofal ar ben eu dyletswyddau arferol, er bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi derbyn cyllid drwy'r cynllun benthycia dyfeisiau i gartrefi gofal i staffio'r ymyrraeth hon.

- 7.6 Cafwyd adborth cadarnhaol am allu'r rhaglen i gadw staff profiadol o raglenni blaenorol, a chydabuwyd y lefel uchel o arbenigedd yn y tîm yn eang gan gyfranwyr a sefydliadau a gefnogwyd. Dywedodd un cyfrannwr o'r fath fod:

'rhai aelodau arbennig iawn yn y tîm... maen nhw'n ymroi eu hunain yn llwyr i'r hyn maen nhw'n ei wneud.'

- 7.7 Gwnaeth nifer o gyfranwyr sylwadau cadarnhaol hefyd ar ystwythder a hyblygrwydd y tîm cyflawni o ran ymateb i alwadau ychwanegol yn ystod cyfnod o argyfwng, gan ychwanegu bod y tîm wedi bod yn barod i ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol yn ystod COVID-19 er gwaethaf y ffaith bod hyn yn ei roi dan bwysau sylweddol.

Hyrwyddo a marchnata

- 7.8 Roedd y cyfranwyr at yr astudiaeth hon o'r farn y bu galw mawr am ddarpariaeth CDC yn ystod y cyfnod cyflawni cychwynnol, hyd at y cynnydd mewn achosion o COVID-19. Ystyriwyd bod y galw wedi newid ar ôl hynny: roedd yn rhaid i'r ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb draddodiadol ddod i ben ac roedd yn rhaid i lawer o'r sefydliadau a oedd yn cydweithio â CDC ymdrin â blaenoriaethau eraill. Fodd bynnag, cynyddodd y galw gan y sefydliadau hyn am fathau eraill o gymorth, gan gynnwys cymorth ar gyfer gweithio gartref, helpu i drefnu cyfarfodydd staff digidol, rhoi cyngor ar ddyfeisiau a materion yn ymwneud â chysylltedd yn ogystal â hyfforddiant ar-lein. Dywedodd un aelod o'r tîm cyflawni:

'byddai unrhyw beth digidol yn dod atom ni - yr angen am offer, data - pethau nad oedden nhw o reidrwydd o fewn ein cylch gwaith - roedd y cyfan yn dod atom ni. Mae wedi bod yn anodd rheoli'r galw hwnnw'

- 7.9 Roedd y cyfranwyr o'r farn bod gan y rhaglen frand a phresenoldeb cryf a oedd yn adeiladu ar frand rhaglenni blaenorol a'i bod wedi gwneud defnydd cyson o ganllawiau brandio a delweddau. Mynegwyd barn gymysg am effeithiolrwydd gwefan y rhaglen: roedd llawer o'r farn ei bod yn gynhwysfawr ac eraill yn awgrymu y dylid ei diweddarau.
- 7.10 Cafwyd adborth cadarnhaol am bresenoldeb y rhaglen ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Twitter, fel ffordd o ymgysylltu a hysbysu sefydliadau targed. Cydnabuwyd, fodd bynnag, bod y cyfrwng hwn yn tueddu i 'bregethu i'r cadwedig' yn hytrach na chyrraedd unigolion a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Awgrymodd rhai cyfranwyr y dylai CDC fabwysiadu dull marchnata mwy cytbwys yn y dyfodol, drwy ddefnyddio dulliau hyrwyddo mwy traddodiadol fel radio ochr yn ochr â'i ymdrechion ar y cyfryngau cymdeithasol i geisio cyrraedd unigolion nad ydynt ar-lein eto.
- 7.11 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a staff y tîm cyflawni o'r farn bod y rhaglen gyfredol wedi canolbwyntio ar gynnal ei pherthynas bresennol â'r sefydliadau hynny yr oedd wedi eu cefnogi o'r blaen yn ogystal â meithrin perthnasoedd newydd ar draws sectorau penodol, yn enwedig y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd sawl cyfrannwr o'r farn bod lle i CDC ymgysylltu ymhellach â sefydliadau'r sector preifat, fel cwmnïau ynni a chyfleustodau, yn ystod gweddill cyfnod y rhaglen.
- 7.12 O ran heriau, nodwyd bod y rhaglen wedi ei chael hi'n anodd recriwtio gwirfoddolwyr yn ystod y pandemig COVID-19, gan yr ystyrir bod recriwtio gwirfoddolwyr yn fwy effeithiol ar sail wyneb yn wyneb yn hytrach na thrwy hyrwyddo digidol. Roedd problem arall a godwyd gan rai aelodau o'r tîm cyflawni yn ymwneud â diffyg swyddog marchnata pwrpasol a gyfer CDC o fewn Canolfan Gydweithredol Cymru, gan y credid y byddai deiliad swydd pwrpasol (yn hytrach na rhannu'r gwaith rhwng gwahanol bobl) yn sicrhau ymgyrch farchnata fwy effeithiol.
- 7.13 Roedd mater pwysig arall a godwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni mewn perthynas â hyrwyddo a chyfathrebu'r rhaglen yn ymwneud â'r cyfraniad pwysig y gallai arweinwyr strategol eraill ei wneud i hyrwyddo'r agenda cynhwysiant digidol. Dadleuwyd bod y rôl eirioli a

chwaraeir gan Brif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, Prif Swyddog Digidol arfaethedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)⁶⁴ yn hanfodol o ran cefnogi'r rhaglen CDC i gyflawni ei hamcanion.

Profiadau sefydliadau o ymwneud â CDC

- 7.14 Er bod rhai sefydliadau wedi cael cysylltiad â'r rhaglen flaenorol, roedd eraill wedi ymuno â'r rhaglen gyfredol. Nododd sawl sefydliad fod cynrychiolydd o CDC wedi ymweld â nhw, i egluro pa gymorth a oedd ar gael ac i drafod sut y gallai'r rhaglen gefnogi eu sefydliad. Nododd ambell un hefyd fod ganddo gysylltiad hirsefydlog â Chanolfan Cydweithredol Cymru, yn enwedig sefydliadau'r trydydd sector. Dywedodd eraill eu bod wedi dod ar draws rhaglen CDC wrth fynd i ddigwyddiadau neu wedi cysylltu â'r rhaglen yn uniongyrchol eu hunain. Mewn rhai achosion, nododd sefydliadau eu bod wedi ymwneud ag elfen benodol o'r rhaglen fel Cyfeillion Digidol a nododd eraill fod eu gwasanaeth cyfan neu'u hadran gyfan wedi ymgysylltu â CDC.
- 7.15 Roedd pob sefydliad a gyfwelwyd wedi delio'n uniongyrchol â chynrychiolydd o Ganolfan Cydweithredol Cymru ac ychydig iawn a oedd yn ymwybodol bod y Good Things Foundation neu Brifysgol Abertawe yn gysylltiedig â'r rhaglen. Wedi dweud hyn, roedd llond llaw yn gyfarwydd â'r cyrsiau Learn My Way sydd ar gael drwy'r Good Things Foundation ac adroddwyd eu bod wedi hyrwyddo'r ddarpariaeth i ddefnyddwyr eu gwasanaethau neu wirfoddolwyr. Nododd un sefydliad fod ei wirfoddolwyr wedi manteisio ar yr hyfforddiant Hyrwyddwyr Digidol sydd ar gael ar Learn My Way gan roi adborth cadarnhaol ar y ddarpariaeth.
- 7.16 Nododd y sefydliadau a gyfwelwyd amrywiaeth o resymau dros fod eisiau cymryd rhan yn y rhaglen CDC, gan gynnwys:
- helpu cleifion a defnyddwyr gwasanaethau i gael mynediad at wasanaethau fel tai a budd-daliadau ar-lein. Yn yr achosion hyn, nid

⁶⁴ Mae NWIS yn trawsnewid i Awdurdod Iechyd Arbennig ar hyn o bryd.

oedd gan sefydliadau gyfarpar priodol, ac nid oedd gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau'r sgiliau angenrheidiol

- hyfforddi gwirfoddolwyr, yn enwedig gwirfoddolwyr mewn ysbytai
- cyflwyno technoleg newydd i ddefnyddwyr gwasanaethau a gallu cynnig sesiynau 'rhoi cynnig arni' gyda grwpiau penodol
- mynd i'r afael â'r galw gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'u hanghenion e.e. mewn un achos roedd aelodau wedi gofyn am hyfforddiant digidol gan nad oeddent yn credu eu bod yn gwneud defnydd da o'u dyfeisiau yn ystod sesiynau grŵp
- hyfforddi staff fel hyrwyddwyr digidol i rannu sgiliau a gwybodaeth â defnyddwyr gwasanaethau. Dadleuodd un:

'roedd pob aelod o'n tîm yn berffaith abl i ddefnyddio'r dechnoleg newydd, ond roedd angen rhywfaint o hyfforddiant ac arweiniad arnyn nhw ar sut i drosglwyddo'r wybodaeth hon i eraill mewn ffordd nad oedd yn eu gorlethu'

- ehangu'r cyrsiau a'r mentrau y gallai sefydliadau eu darparu i'w defnyddwyr e.e. ehangu'r ystod o ddarpariaeth Addysg Oedolion
- helpu sefydliadau i esblygu a thyfu. Mewn un achos, roedd sefydliad yn awyddus i weithio gyda CDC i ymestyn ei gyrhaeddiad drwy ddulliau digidol. Cydnabu'r sefydliad hwn:

'roeddem fwy na thebyg wedi bod yn colli'r bobl hyn oherwydd ein bod yn hyrwyddo ein hunain ar Facebook ... fe wnaethom gydnabod bod angen i ni wneud mwy i weithio gyda phobl hŷn, ac yna rhoi'r sgiliau a'r hyder iddyn nhw allu ymgysylltu â ni (a gwasanaethau eraill) ar-lein'

- cymryd rhan mewn gweithgareddau peilot e.e. roedd un adran mewn ysbyty eisiau treialu technoleg wisgadwy fel offeryn i gefnogi gofal diabetig cleifion. Y bwriad oedd defnyddio'r dechnoleg (Fitbits) i gefnogi cleifion a oedd â hanes o fethu â dilyn cyngor gofal traddodiadol. Yn yr achos hwn, ystyriwyd bod CDC yn wasanaeth a allai roi cyngor ar osod cyfarpar a darparu hyfforddiant i gleifion ar sut i'w ddefnyddio

- helpu i oresgyn bylchau yn y cymorth sydd ar gael gan eu gwasanaeth TG eu hunain. Nododd rhai lleoliadau ei bod yn her cael cyfarpar a chymorth gan eu hadran TG i ddarparu ymyriadau nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith h.y. dyfeisiau a chymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau neu wirfoddolwyr. Yn yr achosion hyn, ystyriwyd bod CDC yn wasanaeth cyfeirio gwerthfawr, gan gyflwyno sefydliadau i gysylltiadau a chyllidwyr a allai roi cyfarpar yn rhodd iddynt
- cefnogi sefydliadau i gyflawni eu hamcanion craidd. Roedd rhai sefydliadau (e.e. gwasanaethau llyfrgell, gwasanaethau cynghori ariannol) o'r farn bod helpu pobl i fynd ar-lein yn rhan o'u rôl ac roeddent yn credu bod cyfatebiaeth glir rhwng eu gwaith ac amcanion y rhaglen CDC.

Dechreuodd un cartref gofal ymwneud â'r rhaglen CDC gan ei fod yn cydnabod yr angen i gofleidio technoleg fel ffordd o helpu preswylwyr i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu ac i gael mynediad at wasanaethau. Cyn ymgysylltu â CDC, nid oedd gan breswylwyr lawer o fynediad at gyfarpar na'r rhynggrwyd yn y cartref gofal. Roedd hyn oherwydd diffyg cyfarpar yn ogystal â diffyg gwerthfawrogiad o fanteision posibl defnyddio technoleg wrth ddarparu gofal i breswylwyr. Roedd preswylwyr nad oedd ganddynt eu cyfarpar eu hunain (e.e. ffôn symudol) yn dibynnu ar staff yn gallu cael mynediad at gyfrifiadur neu ffôn symudol dynodedig i anfon negeseuon neu luniau at deulu neu ffrindiau, ac ystyriwyd bod hynny'n aneffeithiol. Roedd dyfodiad y pandemig COVID-19 yn golygu nad oedd preswylwyr yn gallu gweld eu hanwyliaid na chael ymwelwyr mwyach. Fe wnaeth y cyfyngiadau symud hefyd olygu bod gan breswylwyr ddiwrnodau hir i'w llenwi, felly roedd y cartref yn cydnabod bod angen dod o hyd i ffyrdd o gadw pobl mewn cysylltiad â'i gilydd, eu cadw'n brysur a'u difyrru.

Dechreuodd un gymdeithas dai ymwneud â CDC gan ei bod eisiau gweld ei thenantiaid yn gwella eu sgiliau digidol er mwyn defnyddio ei gwasanaethau ar-lein e.e. talu rhent neu hysbysu am atgyweiriadau ar-lein. Yn yr achos hwn, roedd y gymdeithas dai yn chwilio am syniadau digidol creadigol a newydd i ymgysylltu â thenantiaid y bu'n anodd tanio eu brwdfrydedd ynghylch datblygiadau digidol yn y gorffennol. Roedd cyfarpar creadigol ac arloesol CDC fel gogls realiti rhithwir a beiciau digidol yn cael eu hystyried yn offer hwyliog a chyffrous i geisio ymgysylltu â thenantiaid anodd eu cyrraedd a'u hargyhoeddi o werth dyfeisiau digidol.

- 7.17 Awgrymodd sefydliadau a gyfwelwyd fod eu staff yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau, cleifion a gwirfoddolwyr am gyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â CDC megis cyrsiau hyfforddi. Awgrymodd sefydliadau fod lledaenu gwybodaeth ar dafod leferydd yn offeryn effeithiol er mwyn ennyn diddordeb, yn enwedig ymhlith y rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd digidol. Mae dulliau eraill fel negeseuon uniongyrchol (e.e. cylchlythyrau, posterï) a chyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael eu mabwysiadu'n eang. Nododd llawer o sefydliadau eu bod yn aildrydar negeseuon CDC am gyrsiau neu gyfleoedd.
- 7.18 Ar y cyfan, dadleuodd y sefydliadau eu bod mewn sefyllfa dda i alluogi'r rhaglen CDC i gyrraedd ei phedwar grŵp targed allweddol. Mae rhai sefydliadau'n gweithio'n benodol gyda'r grwpiau hyn e.e. mae cymdeithasau tai yn gweithio gyda'r rhai ym maes tai cymdeithasol, mae rhai mentrau cymdeithasol ac elusennau'n gweithio'n benodol gyda phobl anabl neu bobl oedrannus. Mae sefydliadau eraill yn gweithio gydag ystod ehangach o ddefnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n cynnwys pobl o bob un o'r pedwar grŵp targed. Mae sawl sefydliad yn cefnogi defnyddwyr sy'n rhan o fwy nag un o'r grwpiau targed hyn.

Ymgysylltu â sefydliadau iechyd

- 7.19 Yn wahanol i'r cynlluniau a'i rhagflaenodd, roedd y saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru o bwysigrwydd strategol i'r rhaglen CDC ac ystyriwyd mai'r flaenoriaeth oedd sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth ar lefel uchel gan y sefydliadau hyn. Er bod CDC wedi ceisio ymgysylltu â'r holl Fyrddau Iechyd ar lefel uwch, cymysg fu'r llwyddiant. Credwyd bod nifer o ffactorau i'w cyfrif am hyn. Mae'r sector iechyd yn faes anodd ei ddeall, gyda staff cyflawni'n gorfod mynd i'r afael â'r her o ddeall y strwythurau a phwy sy'n gwneud penderfyniadau: 'rydyn ni'n gweithio'n ddall... mae angen cymorth arnom i dorri drwy'r gragen'. Mewn achosion eraill, mae creu perthnasoedd yn cymryd amser e.e. 'cymerodd flwyddyn i greu perthynas â'r tîm Profiad Cleifion [mewn un Bwrdd Iechyd]'. Dadleuwyd hefyd bod y rhaglen yn ei chael hi'n anodd diwallu gofynion y sector iechyd i ddangos tystiolaeth o fanteision mabwysiadu technoleg benodol.
- 7.20 Ategwyd y farn hon gan sefydliad iechyd a ddadleuodd:
- 'mae yna lawer o bethau maen nhw'n delio â nhw hwn ac yma yn y Bwrdd Iechyd ond does dim dealltwriaeth ehangach o'r rhaglen CDC yma'.
- 7.21 Dadleuwyd yn aml y byddai'r rhaglen yn elwa o gymorth allanol gan eiriolwyr blaenllaw er mwyn sicrhau ymrwymiad ar lefel uwch gan Fyrddau Iechyd. Dywedodd y staff cyflawni ei bod yn anodd iawn dylanwadu ar newid heb y lefel hon o ymrwymiad o'r brig. Nododd un cyfrannwr o'r fath:
- 'Mae'n anodd iawn creu cysylltiadau â Byrddau Iechyd. Mae angen rôl reoli strategol arnom i fwydo gwybodaeth i'r rhai ar y brig er mwyn ei rhaedru i lawr i'n galluogi i wneud yr hyn a wnawn.'
- 7.22 Roedd y staff cyflawni o'r farn y gallai arweinwyr polisi iechyd Llywodraeth Cymru ymgymryd â'r rôl hon drwy annog Byrddau Iechyd i ymgysylltu â'r rhaglen. Ystyriwyd bod y mewnbwn hwn wedi bod yn gyfyngedig hyd yma er bod peth awgrym bod tîm iechyd Llywodraeth Cymru wedi gallu chwarae mwy o ran yn ddiweddarach oherwydd bod gan y tîm fwy o gapasiti a sefydlogrwydd.

Darpariaeth i sefydliadau

Cynlluniau Ymgynghori Digidol

- 7.23 Croesawyd y defnydd o Gynlluniau Ymgynghori Digidol gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r staff cyflawni gan eu bod yn cael eu hystyried yn briodol ac yn ddefnyddiol i gynnal asesiad cychwynnol o anghenion sefydliad ac i nodi cynllun gweithredu y cytunwyd arno. Fodd bynnag, nododd y staff cyflawni heriau o ran cael sefydliadau i ymrwymo'n ffurfiol i rai elfennau o'r Cynlluniau Ymgynghori, megis DPA.
- 7.24 Roedd deg o'r sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn cofio datblygu Cynllun Ymgynghori Digidol neu wedi cyfeirio at 'ymarfer cynllunio ymgynghori' neu rywbeth tebyg a gynhaliwyd i nodi eu hanghenion. Roedd y sefydliadau o'r farn ei bod yn bwysig eu bod yn gallu trafod eu gofynion, adnabod a theilwra'r cymorth a gynnigir ac ystyried sut i hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg yn eu sefydliadau neu gyda'u haelodau. Roedd rhai sefydliadau ar gamau cynnar iawn y broses o ddatblygu Cynllun Ymgynghori Digidol pan gyflwynwyd cyfyngiadau symud COVID-19. Er gwaethaf hyn, llwyddodd rhai i roi syniadau a drafodwyd ar waith:
- 'Roedd y broses gynllunio yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr hyfforddiant a ddarparwyd ac fe wnaeth [fy] helpu i feddwl am wahanol ffyrdd y gallai technoleg gefnogi gwaith yr hyb cymunedol yn y dyfodol. Mae dyfodiad COVID-19 wedi golygu bod yn rhaid rhoi llawer o'r syniadau hyn ar waith, felly roedd amseriad y rhyngweithio â CDC yn fuddiol iawn.'
- 7.25 Tynnodd un sefydliad sylw hefyd at sut roedd swyddogion CDC wedi ymweld â'r ysbyty yn ystod un o'u cyfarfodydd cychwynnol, gan ddod â chyfarpar gyda nhw fel y gallai staff roi cynnig arno a gweld y manteision posibl a gynnigir drostynt eu hunain. Barnwyd bod hwn yn ddull pwerus:
- 'Fe ddaethon nhw i mewn ac fe wnaethon ni i gyd chwarae o gwmpas ar yr iPads. Fe wnaethon nhw ddangos i ni sut i gysylltu'r cyfrifiaduron llechen ag Alexa, ac fe wnaethon ni edrych ar sut i ddefnyddio penset realiti rhithwir. Roedd y ffaith eu bod nhw wrth law i ateb cwestiynau a rhoi syniadau i ni, wedi ein helpu i feddwl yn fwy creadigol am sut i ddefnyddio'r cyfarpar ar y ward.'

Benthyca cyfarpar

- 7.26 Roedd tua hanner y sefydliadau a gyfwelwyd wedi benthyca cyfarpar gan CDC gan gynnwys gliniaduron, cyfrifiaduron llechen, pensetiau realiti rhithwir, clustffonau, dyfeisiau Fitbit ac Alexa. Defnyddiwyd y rhain at wahanol ddibenion gan gynnwys:
- mynychu apwyntiadau meddygol neu arbenigol yn rhithiol
 - gwneud galwadau fideo i ffrindiau a theuluoedd
 - tynnu, anfon neu dderbyn lluniau
 - cyfathrebu drwy e-bost
 - hel atgofion drwy chwilio am ddiddordebau neu hen luniau/ffilmiau/cerddoriaeth ar-lein
 - chwarae bingo, posau a gemau ar-lein a gweithgareddau hwyliog eraill
 - gweithgareddau grŵp mewn cartrefi gofal fel bingo
 - ymgymryd â 'theithiau cerdded' rhithiol
 - siopa ar-lein.
- 7.27 Roedd y cartrefi gofal a gynhwyswyd yn ein sampl i gyd wedi cael iPads neu gyfrifiaduron llechen drwy'r cynllun offer ar gyfer cartrefi gofal, ac roedd y rhain ar gael i breswylwyr eu defnyddio. Roedd y staff wedi dangos i breswylwyr sut i ddefnyddio'r cyfrifiaduron llechen neu wedi eu helpu i'w defnyddio os nad oeddent yn gallu gwneud hynny eu hunain. Hyd yn hyn, nododd y cartrefi gofal mai ychydig o gyswllt uniongyrchol yr oeddent wedi'i gael â CDC a phrin oedd eu gwybodaeth am y prosiect, felly yn ddealladwy nid oedd y cydweithio wedi symud y tu hwnt i benthyca cyfarpar ar y cam cynnar hwn.
- 7.28 Dywedodd y sefydliadau fod y cyfnod benthyca yn hael ac yn hyblyg ac roedd y mwyafrif yn teimlo bod y broses wedi bod yn syml iawn. Dim ond un sefydliad a nododd fod y broses braidd yn anhyblyg ac araf.
- 7.29 Canfu'r gwaith maes dystiolaeth fod rhai sefydliadau wedi mynd ymlaen i brynu eu cyfarpar eu hunain ar ôl benthyca amrywiol eitemau drwy CDC. Er

enghraifft, roedd un sefydliad tai cymdeithasol yn anelu at gael cyfarpar ar gyfer 10 y cant o ddefnyddwyr ei wasanaethau. Roedd sefydliad cymunedol arall bellach yn buddsoddi yn ei iPads ei hun i fenthycu i bobl leol na fyddent fel arall yn gallu mynd ar-lein:

'mae yna bobl nad oeddent yn gallu trefnu apwyntiad meddyg ar-lein, neu siopa dros y rhyngwrdd, o'r blaen felly roeddem am sicrhau bod y cyfrifiaduron llechen hyn ar gael fel ffordd o'u helpu. Mae wedi bod yn llwyddiant mawr, a gellir ei olrhain yn ôl i'n gwaith gyda CDC.'

- 7.30 Dywedodd sawl sefydliad, yn enwedig y rhai mewn lleoliadau iechyd a gofal, er eu bod yn awyddus i fenthycu dyfeisiau Alexa gan CDC, roedd polisi eu bwrdd iechyd yn golygu na ellid eu defnyddio oherwydd pryderon am ddiogelwch. Credwyd bod hyn yn drueni gan y gallai dyfeisiau a weithredir gan y llais weithio'n dda gyda'u grŵp cleifion.
- 7.31 Dywedodd y sefydliadau fod adborth gan ddefnyddwyr am y cyfarpar a fenthycwyd yn gadarnhaol ar y cyfan - gyda defnyddwyr gwasanaethau'n mwynhau'r cyfle i ddefnyddio dyfeisiau ac yn hyderus i roi cynnig arnynt mewn amgylchedd diogel lle roedd cyngor ar gael os oeddent yn cael unrhyw anawsterau. Dywedodd y sefydliadau fod defnyddwyr gwasanaethau yn dod yn fwy hyddysg mewn TG ac yn datblygu'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio dyfeisiau ac yn ymgymryd â mwy o weithgaredd ar-lein. Nododd staff a gwirfoddolwyr hefyd eu bod yn dod yn fwy hyderus i gynnwys y defnydd o gyfarpar digidol mewn gofal cleifion, oherwydd yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarparwyd gan CDC.

Cymorth a chyngor

- 7.32 Roedd sefydliadau'n ganmoliaethus iawn ynghylch y cymorth a'r cyngor a gafwyd gan dîm o gynghorwyr a hyfforddwyr CDC. Roedd yn amlwg bod gwasanaeth o safon cyson uchel yn cael ei ddarparu ar draws rhanbarthau CDC. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn hapus iawn gydag argaeledd a gwybodaeth tîm CDC a'u bod bob amser yn barod i helpu a mynd yr ail filltir:
- 'mae gennym berthynas ragorol. Mae'r staff yn mynd uwchlaw a thu hwnt i'w dyletswydd'

- 'mae'r tîm bob amser ar gael ac yn barod i helpu - ceir ymdeimlad eu bod yn ymrwymedig i helpu sefydliadau i gyflawni newid go iawn yn eu cymunedau'
- 'Mae CDC a Chanolfan Cydweithredol Cymru ymhlith y bobl orau i ni ddelio â nhw erioed'.

7.33 Dywedodd dau sefydliad eu bod yn teimlo bod staff CDC dan bwysau. Awgrymodd un bod angen staff ychwanegol yng Ngogledd Cymru, ac roedd un arall yn teimlo bod ardal Caerdydd a'r Fro yn ardal eang iawn i un cynghorydd ac y gallai elwa o gapasiti ychwanegol.

Hyfforddiant y manteisiwyd arno

7.34 Dywedodd y staff cyflawni y gwelwyd newid amlwg i ddarparu hyfforddiant ar-lein ers y pandemig COVID-19. Ar y naill law, mae hyn wedi galluogi'r rhaglen i gyrraedd nifer fwy o gyfranogwyr ond ar y llaw arall, nid yw'n cael ei ystyried yn ddull priodol i gefnogi dysgwyr arafach a'r rhai nad ydynt ar-lein mewn unrhyw ffordd. Rhybuddiodd y staff cyflawni na ellid cynnal y cynnydd yn nifer y cyfranogwyr hyfforddedig yn ystod COVID-19 yn y tymor hir a bod symudiad eisoes wedi bod tuag at ddarparu hyfforddiant i grwpiau llai er mwyn ei wneud yn fwy hylaw ac yn brofiad gwell i gyfranogwyr. Bu'n rhaid i'r rhaglen hefyd oresgyn problemau'n gysylltiedig â nodi platfformau addas i ddarparu hyfforddiant i staff ar draws ystod eang o sefydliadau, o gofio'r cyfyngiadau sydd wedi bod ar waith mewn sefydliadau.

7.35 Adroddwyd hefyd y bu newid yn natur yr hyfforddiant a ddarperir gan y rhaglen ers dyfodiad COVID-19. Cyn COVID-19, ystyriwyd bod yr hyfforddiant a ddarparwyd yn fwy pwrpasol, yn fwy rhyngweithiol ac yn canolbwyntio ar ysbrydoli pobl am dechnoleg. Ar ôl COVID-19, ystyrir bod yr hyfforddiant yn llai pwrpasol, yn llai rhyngweithiol ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau digidol. Dros amser, adroddwyd bod y rhaglen wedi dychwelyd i gyflwyno rhai gweithgareddau 'hwyliog' ac ysbrydoledig fel Hel Straeon Digidol.

7.36 Mae'r rhaglen wedi datblygu modiwl hyfforddi penodol ar gyfer y sector iechyd, o'r enw 'Ysbrydoliaeth Ddigidol i staff y GIG'. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cyflwyno staff i gyfleoedd digidol newydd fel technoleg a

weithredir gan y llais, rhith-brofiadau a hel straeon digidol. Ar hyn o bryd mae'r modiwl hyfforddi hwn yn cael ei addasu i'w gyflwyno fel cwrs ar-lein.

7.37 Roedd natur yr hyfforddiant y manteisiodd y sefydliadau a gyfwelwyd arno yn amrywio ac yn cynnwys:

- sgiliau digidol sylfaenol
- cyflogadwyedd neu chwilio am swydd
- arbed arian
- cynhwysiant anabled
- dysgu am oes (gweithgareddau 'hwyliog' y gellir ymgymryd â hwy ar-lein)
- defnyddio offer cyfathrebu ar-lein
- sgiliau digidol yn y gymuned.

7.38 Canmolwyd ehangder a hyblygrwydd yr hyfforddiant a gynigir yn eang:

'roedd yn wych bod CDC wedi dod i mewn a dechrau siarad â ni am sut y gallem ddefnyddio ein systemau presennol i wneud pethau'n wahanol...roedd y syniadau...wedi tanio brwdfrydedd pawb...ac wedi rhoi hwb i hyder y staff i roi cynnig ar bethau newydd.'

7.39 Roedd un sefydliad a oedd wedi cymryd rhan mewn nifer o sesiynau hyfforddi yn croesawu eu hamrywiaeth a'r ffaith bod y wybodaeth wedi'i theilwra i gyd-fynd â sylfaen wybodaeth y cyfranogwyr. Disgrifiodd yr ymatebydd hwn sut yr oedd wedi eistedd mewn sawl sesiwn hyfforddi a:

'mwynhau pob un ohonynt heblaw un... roedd un sesiwn hyfforddi a oedd yn rhy ryngweithiol, yn rhy fuan' ond ar y cyfan 'nid oes yr un ohonynt wedi bod yn wastraff amser. Rwy'n eistedd i mewn ar ddwsinau o'r sesiynau hyn ac yn dysgu rhywbeth newydd bob tro'.

7.40 Roedd sawl sefydliad wedi cymryd rhan mewn 'sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr' a oedd yn cynnwys dangos i staff sut i ddefnyddio dyfeisiau ac yna ganllawiau ar sut i gynnal sesiynau gyda'u defnyddwyr gwasanaethau. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar ganfod 'bachyn' addas a fyddai'n

ennyn diddordeb defnyddwyr gwasanaethau. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd gwaith 'ymarferol'.

- 7.41 Wrth gael eu holi, nid oedd y sefydliadau bob amser yn glir pa fath o hyfforddiant yr oeddent wedi'i gael gan CDC. Roedd rhai enghreifftiau lle roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r hyfforddiant a gafwyd yn cael ei ystyried yn sesiwn 'hyfforddi'r hyfforddwr' ond nad oedd yn cael ei 'werthu' felly. Soniodd llawer o sefydliadau hefyd eu bod wedi cael hyfforddiant mwy generig ond wedi mynd ymlaen i wneud llawer o 'drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd' yn anffurfiol o fewn yn y sefydliad.

Ansawdd yr hyfforddiant

- 7.42 Roedd yr adborth gan sefydliadau ar ansawdd yr hyfforddiant yn gyson gadarnhaol. Yn aml, disgrifiwyd yr hyfforddiant cyn COVID-19 o ran arddull a chynnwys fel 'rhagorol', 'gwyd' ac o'r safon uchaf, gyda chefnogaeth a chyfathrebu gwyd drwyddo draw. Disgrifiwyd bod cynnwys yr hyfforddiant yn diwallu anghenion y sefydliad: 'maen nhw bob amser yn gofyn beth rydyn ni ei eisiau yn hytrach na thybio eu bod yn gwybod beth sydd ei angen arnom.' Roedd yr ymatebwyr yn hoff iawn o natur 'ymarferol' yr hyfforddiant. Disgrifiodd eraill sut yr oedd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn 'drylwyr', bod y 'cywair' yn briodol a bod y lefel yn gywir gan ddefnyddio terminoleg syml yr oedd yr holl gyfranogwyr yn ei deall: 'nid *geeks* TG ydyn nhw, maen nhw'n siarad eich iaith chi'. Disgrifiwyd yr hyfforddwyr eu hunain bob amser fel rhai 'hawdd siarad â nhw', 'cymwynasgar' a 'chyllgar'.
- 7.43 Dywedodd sawl sefydliad a ymatebodd fod yr hyfforddwyr yn delio â phobl hŷn neu'r rhai ag anawsterau dysgu yn dda iawn a bod hyn wedi gwneud cryn argraff arnynt: 'maen nhw wedi llwyddo i ddelio'n dda iawn â phobl hŷn anodd!' Disgrifiwyd yr hyfforddwyr fel pobl amyneddgar iawn a oedd yn addasu'r gweithgareddau'n sensitif i gyd-fynd ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau.
- 7.44 Awgrymodd un sefydliad fod yr hyfforddiant ychydig yn fformiwlai efallai, yn yr ystyr ei fod yn dilyn cwricwlwm penodol ar gyfrifiadur llechen ac y gallai fod wedi bod yn fwy effeithiol pe bai'r hyfforddwr wedi treulio mwy o amser yn dod i adnabod y sefydliad a theilwra'r dull yn unol â hynny.

- 7.45 Awgrymodd un neu ddau o sefydliadau fod yr hyfforddiant ar-lein wedi bod hyd yn oed yn well na darpariaeth wyneb yn wyneb, gan fod mynediad at sesiynau wedi'u recordio yn golygu y gallai unigolion fynd yn ôl at yr hyfforddiant, neu y gallai gael ei rannu'n ehangach gyda gwirfoddolwyr ac aelodau ychwanegol o staff yn ôl yr angen:

'Fe wnaeth eu hadnoddau gryn argraff arnaf ac roedd y sleidiau o safon. Mae'n golygu bod gan y gwirfoddolwyr hyder ynom ni ac mae wedi rhoi hyder i ni ein bod yn darparu'r hyfforddiant iawn iddyn nhw.'

Ffrydiau Gwaith Eraill CDC

- 7.46 Mae ystod eang o ffrydiau gwaith wedi'u defnyddio fel rhan o raglen CDC. Mae'r adran hon yn ystyried y prif fentrau yr oedd y cyfranwyr yn ymwybodol ohonynt yn ystod y gwaith maes.

Arwyr Digidol

- 7.47 Adroddwyd bod tua 6,000 o Arwyr Digidol wedi'u recriwtio gan y rhaglen CDC er mai dim ond cyfran fach o'r rhain y credwyd eu bod yn weithredol mewn cartrefi preswyl.
- 7.48 Roedd y fenter hon yn gyfarwydd i sawl un o swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn ei hystyried yn gadarnhaol. Roeddent yn dadlau ei bod yn ymyrraeth werthfawr a allai wneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant ysgol ifanc yn ogystal â phobl hŷn mewn cartrefi gofal. Er enghraifft, nododd un cyfrannwr:
- 'cafwyd cyflwyniad gan ysgol am ei chysylltiad ag Arwyr Digidol - roedd yn emosiynol - dw i ddim yn crio'n hawdd. Roedd yn wych. Cafodd effaith wirioneddol. Yn ogystal â'r effeithiau a fwriadwyd - pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn fwy yn y byd digidol a phlant yn magu hyder - roedd gwerth gwirioneddol i'r rhyngweithio. Cafodd effaith gref.'
- 7.49 Adroddodd y cyfranwyr hefyd y gall hyn fod yn werthfawr i helpu plant i sylweddoli pa sgiliau sydd ganddynt a sut y gall y rhain fod o ddefnydd i aelodau'r teulu. O ran y gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol, awgrymwyd y byddai'n werth sicrhau bod ysgolion yn ymrwmo i ymgysylltu â chartrefi

preswyl a grwpiau/lleoliadau cymunedol cyn i'r fenter gael ei chyflwyno yn y dyfodol, ar ôl cyfyngiadau COVID-19.

- 7.50 Roedd pedwar o'r sefydliadau a gyfwelwyd wedi bod yn gysylltiedig ag Arwyr Digidol ac yn ei hystyried yn fenter gadarnhaol⁶⁵. Ystyriwyd bod yr hyfforddiant a ddarparwyd yn rhagorol ac roedd wedi rhoi 'y wybodaeth, y syniadau a'r hyder' yr oedd eu hangen ar gyfranogwyr ifanc i gyflawni eu rôl.
- 7.51 O ganlyniad i'w cyfranogiad, rhoddodd sefydliadau enghreifftiau o sut roedd y cynllun wedi darparu cymorth yn lleol gan gynnwys:
- grŵp o blant yn helpu pobl hŷn mewn canolfan tai gwarchod i ddysgu sut y gallent ddefnyddio technoleg newydd i gael mynediad at wasanaethau, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau ac anwyliaid, a dilyn hobïau a diddordebau ar-lein
 - sawl ysgol leol yn gweithio ochr yn ochr â'r gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd
 - grŵp o Gadetiaid ifanc yr Heddlu yn gweithio gyda chleifion hŷn mewn ysbyty: 'gallai'r bobl ifanc ddangos i'r cleifion sut i ddefnyddio'r cyfarpar, ond yn bwysicach fyth gallent eistedd a siarad â nhw a bod yn gwmni mawr ei angen iddynt tra roeddent ar y ward'
- 7.52 Ers y cynnydd mewn achosion o COVID-19, mae'r fenter Arwyr Digidol wedi cael ei hatal ond roedd pawb a gymerodd ran yn awyddus iddi barhau yn y dyfodol.
- Arwyr Hwb*
- 7.53 Menter lle mae pobl ifanc yn rhannu neges ddigidol â phobl hŷn yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud yn sgil COVID-19, boed hynny'n gerdd, yn llun neu'n gerddoriaeth, yw Arwyr Hwb. Fe'i sefydlwyd gan CDC ar y cyd â'r tîm addysg yn Llywodraeth Cymru o fewn amserlen fer iawn, a hyrwyddwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol a derbyniwyd tua 1,000 o negeseuon digidol. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni o'r farn bod

⁶⁵ Mae'r nifer hwn o bosibl yn is na'r disgwyl oherwydd nad yw ysgolion wedi'u cynnwys yn y sampl, a byddent wedi ymwneud yn helaeth ag Arwyr Digidol.

hyn wedi cael ei groesawu'n frwd ac wedi bod yn ymdrech bwysig i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith pobl hŷn yn ystod y cyfyngiadau symud. Awgrymwyd y gallai ei heffaith gael ei hymestyn a'i chynnal ymhellach pe bai rhywfaint o weithgaredd a chyfleoedd dilynol, yn hytrach na'i gyfyngu i ddigwyddiad untro.

Cyfeillion Digidol

- 7.54 Roedd tri sefydliad ieuchyd a gofal o'r sampl wedi manteisio ar hyfforddiant gan CDC i gefnogi eu prosiectau Cyfeillion Digidol eu hunain. Disgrifiwyd yr hyfforddiant fel un a oedd yn darparu cyngor ac arweiniad amhrisiadwy ar sut y gall gwirfoddolwyr wneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol wrth ddarparu cymorth i gleifion.
- 7.55 Mewn un sefydliad roedd eu cynllun Cyfeillion Digidol wedi mynd ar chwâl yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd pwysau eraill, ac nid oedd dau sefydliad arall wedi bod yn rhan o'r hyfforddiant Cyfeillion Digidol hyd yma ond roeddent yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol.

Hyrwyddwyr Digidol

- 7.56 Crybwyllodd pum sefydliad eu bod wedi ymgymryd â'r broses hyfforddi Hyrwyddwyr Digidol i helpu i uwchsgilio staff i ddarparu cymorth a gwasanaethau'n fwy effeithiol. Roedd chweched sefydliad yn bwriadu ymgymryd â'r hyfforddiant yn y dyfodol ac roedd un arall yn aros am drwydded a manylion mewngofnodi er mwyn galluogi gwirfoddolwyr i ddilyn y cwrs yn eu hamser eu hunain.
- 7.57 Soniodd un sefydliad sut yr oedd y gwasanaeth wedi bod yn 'wych i ni gan nad ydych chi byth yn hollol siŵr o'r wybodaeth a'r sgiliau digidol a allai fod gan eich tîm. Mae'r cwrs Hyrwyddwyr Digidol yn cynnig hyfforddiant sylfaenol, llinell sylfaen o wybodaeth ac ymarfer ac mae hyn yn sicrhau cysondeb o ran yr hyn rydyn ni'n ei gynnig.'
- 7.58 Dywedodd sefydliad arall, er gwaethaf y ffaith iddo hyfforddi 75 o staff fel Hyrwyddwyr Digidol ei fod bellach 'yn dechrau o'r dechrau' gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gadael eu rolau presennol, i ymgymryd â rolau eraill yn y sefydliad neu'n allanol. Awgrymodd yr ymatebydd hwn fod elfen o ddatgysylltiad o fewn y fenter Hyrwyddwyr Digidol o'i gymharu â

hyfforddiant Arwyr Digidol a Chyfeillion Digidol: 'gyda'r cynllun Hyrwyddwyr Digidol does dim cymhelliant. Dywedir wrth y staff bod yn rhaid iddyn nhw ddilyn y cwrs ac yn aml maen nhw'n ymateb drwy ddweud 'dyw e ddim yn fy nisgrifiad swydd'. Awgrymwyd y gallai tystysgrif syml ar ôl ei gwblhau a bathodyn 'Hyrwyddwr' helpu i sicrhau gwell cyfranogiad.

Cyrsiau Learn My Way

- 7.59 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni yn credu bod cyrsiau Learn My Way yn adnodd da ond yn cydnabod mai dim ond mewn canolfannau ar-lein y gellir eu defnyddio. Mae cau canolfannau ar-lein yn ystod COVID-19 wedi golygu bod mynediad atynt wedi ei gyfyngu. Dadleuwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cael mynediad at y cyrsiau drwy ddulliau eraill (e.e. drwy ffonau clyfar lle roedd gan ddefnyddwyr gysylltedd wifi cyhoeddus) neu drwy lawrlwytho cynnwys i ganiatáu i bobl astudio gartref heb orfod cael mynediad i'r rhyngwyd.
- 7.60 Roedd saith o'r sefydliadau a gafodd eu cyfweld wedi clywed am, neu wedi defnyddio, y cyrsiau Learn my Way ond nid oedd y mwyafrif wedi gwneud llawer o ddefnydd uniongyrchol o'r adnoddau. O'r rhai a oedd wedi gwneud hynny, roedd un sefydliad wedi hyrwyddo'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael ar y platfform Learn My Way (drwy twitter a facebook) ac roedd hyn wedi ennyn llawer o ddiddordeb. Dywedodd sefydliad arall fod y cyrsiau wedi cael eu darparu i staff i ddechrau cyn eu cyflwyno i ddefnyddwyr gwasanaethau drwy glwb cymdeithasol, cymorthfeydd digidol a chwrs Into Work:
- 'Rydym yn cyfeirio pobl at [Learn my Way] i barhau â'r dysgu. Rydyn ni'n ei ddefnyddio ym mhobman. Mae'n hawdd iawn ei ddefnyddio ac mae pobl yn ymateb yn dda iawn i dystysgrifau. Cawsom lawer o help gan CDC gyda chyflwyno pethau.'
- 7.61 Disgrifiodd ymatebydd arall y cyrsiau Learn my Way fel rhai 'da iawn a pherthnasol yr olwg' tra bod un arall yn teimlo bod y cynnwys 'braidd yn amleiriog' efallai ac y gellid ei wella drwy ddefnyddio gwell ffeithluniau a chynnwys mwy deniadol i'r llygaid.

Y Gynghrair Cynhwysiant Digidol

- 7.62 Cyflwynwyd y Gynghrair Cynhwysiant Digidol fel cysyniad newydd yng nghynnig Canolfan Cydweithredol Cymru i Lywodraeth Cymru. Adeg ei ddrafftio, roedd y Gynghrair wedi cyfarfod ar ddau achlysur (unwaith wyneb yn wyneb ac unwaith ar sail rithiol) ond nododd y cyfranwyr fod y cyfyngiadau yn sgil COVID-19 wedi llesteirio ei datblygiad.
- 7.63 Codwyd llawer o gwestiynau gan y cyfranwyr ynghylch pwrpas a chylch gwaith y Gynghrair, gyda sawl unigolyn yn ansicr sut yr oedd yn ychwanegu gwerth at y fforymau presennol megis Bwrdd Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru. Roedd rhai cyfranwyr yn disgwyl i'r Gynghrair gefnogi strategaeth gyfathrebu'r rhaglen a/neu hwyluso cysylltiadau â sefydliadau mawr a sefydliadau'r sector cyhoeddus. Cafwyd galwad gref i'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol fabwysiadu cylch gorchwyl clir i nodi ei phwrpas a'i chylch gwaith yn ogystal â mabwysiadu blaenraglen waith. Dadleuodd rhai hefyd dros adolygu ei haelodaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn briodol ac yn cynnwys sefydliadau ieuchyd.
- 7.64 Adeg y gwaith maes cytunodd y cyfranwyr ei bod yn rhy gynnar i ffurfio barn am effeithiolrwydd y Gynghrair gan fod angen rhwng chwe mis a blwyddyn arall arni i ymsefydlu a chael ei thraed dani. Fodd bynnag, dadleuwyd, gan fod gweddill cyfnod cyflawni'r rhaglen yn gyfyngedig, bod angen i'r Gynghrair adeiladu momentwm yn gyflym neu 'bydd dim pwrpas' bwrw ymlaen â hi.

Monitro a rheoli

- 7.65 Amlygodd swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni fel ei gilydd y berthynas waith gadarnhaol rhwng staff Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Ystyriwyd bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan weithredol yn y broses o reoli'r rhaglen ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn fantais, yn enwedig yn ystod COVID-19, gan fod y berthynas agos yn galluogi datblygiadau newydd i gychwyn yn gyflym. Fel y dywedodd un cyfrannwr:

'mae gennym berthynas hirsefydlog gyda swyddogion Llywodraeth Cymru - maen nhw wedi bod yno'n gyson - ac yn gyfarwydd â'r rhaglen. Mae

hynny'n beth iach ac mae'n helpu i gysylltu'r gwaith â phortffolios gweinidogion'.

- 7.66 Cydnabuwyd, oherwydd proffil uwch cynhwysiant digidol a CDC dros y deuddeg mis diwethaf, y bu cynnydd sylweddol yn y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdani fel cyllidwyr. Mae hyn wedi effeithio ar amser staff y rhaglen i ymateb, yn aml ar frys, ac felly mae wedi amharu ar eu gwaith o gyflawni'r rhaglen o ddydd i ddydd.
- 7.67 Crëwyd rôl rheolwr rhaglen ranbarthol ychwanegol ar gyfer y rhaglen CDC hon, a oedd yn gyfrifol am ogledd Cymru. Mynegwyd barn gymysg ynghylch a oedd y newid hwn wedi bod yn briodol. Ar y naill law credwyd bod creu trydedd rôl reoli wedi creu mwy o broblemau'n ymwneud â chysondeb ar draws y rhaglen, ac ar y llaw arall, credwyd bod gan y rôl newydd y potensial i ychwanegu gwerth fel rheolwr cyfrif ar gyfer sefydliadau strategol megis byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.
- 7.68 O ran trefniadau monitro, roedd croeso unfrydol i'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd a fabwysiadwyd gan y rhaglen ac roedd y cyfranwyr o'r farn bod hyn yn gweithio'n fwy effeithiol na dulliau monitro blaenorol. O ran casglu tystiolaeth fonitro gan sefydliadau, nodwyd y gallai casglu tystiolaeth o effaith fod yn heriol gan fod sefydliadau'n tueddu i ddarparu adborth eithaf cyfyngedig e.e. 'mae ein preswylwyr wedi mwynhau' yn hytrach na thystiolaeth ar y gwahaniaeth a wnaed.
- 7.69 Cafodd y sefydliadau a gyfwelwyd eu siomi ar yr ochr orau gan y gofynion monitro ac adrodd rhesymol yr oedd y rhaglen yn gofyn amdanynt, gan ychwanegu mai ychydig iawn o waith papur y bu'n rhaid ei gwblhau. Adroddodd llond llaw eu bod wedi darparu data monitro fel nifer y defnyddwyr neu wirfoddolwyr a hyfforddwyd neu'r defnydd o ddyfeisiau. Dywedodd sefydliadau a fenthycodd gyfrifiaduron llechen gan y rhaglen eu bod wedi cael ffurflenni er mwyn cofnodi eu defnydd. Adroddodd un sefydliad hefyd y gofynnwyd iddynt gyflenwi deunydd ar gyfer astudiaethau achos at ddibenion hyrwyddo a lledaenu'r rhaglen. Yn gyffredinol, nid oedd y gofynion monitro ar sefydliadau yn cael eu hystyried yn feichus. Yn wir,

roedd un cyfrannwr o'r farn eu bod yn 'ysgafn o gymharu â chynlluniau eraill.'

Effaith COVID-19 ar gyflawni CDC

- 7.70 Roedd dyfodiad y pandemig COVID-19, a arweiniodd at gyflwyno cyfyngiadau symud a chanllawiau ar gadw pellter cymdeithasol gan y llywodraeth, yn golygu bod yn rhaid i'r rhaglen CDC atal ei gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb ar unwaith yng nghanol mis Mawrth 2020. Caewyd y lleoliadau traddodiadol a ddefnyddiwyd i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu a hyfforddi (e.e. llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol). O ganlyniad, adroddwyd ei bod yn heriol iawn, os nad yn amhosibl, cefnogi'r cleientiaid sydd fwyaf agored i niwed a fyddai wedi cael eu cefnogi drwy'r lleoliadau hyn o'r blaen. Adeg y gwaith maes, rhagwelwyd y byddai parhau â'r cyfyngiadau symud dros y gaeaf yn cael cryn effaith ar allu'r rhaglen i gyflawni ei hamcanion a'i thargedau.
- 7.71 Mae COVID-19 hefyd wedi arwain at gyfyngiadau eraill ar y rhaglen. Ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn benodol, mae nifer y staff sydd ar gael i gymryd rhan yn y rhaglen CDC wedi lleihau oherwydd eu bod yn gorfod ymateb i flaenoriaethau eraill. Nid yw staff cyflawni CDC yn gallu cwrdd a rhwydweithio â sefydliadau newydd posibl a allai elwa o gymorth.
- 7.72 Er bod darpariaeth CDC yn cael ei hailgyflwyno drwy ddulliau rhithiol, ar-lein dadleuwyd mai dim ond unigolion sydd â rhywfaint o gysylltedd a chymhwysedd digidol y gall y rhaglen ei chyrraedd, gan fod hyn yn angenrheidiol er mwyn cymryd rhan. Nodwyd hefyd y gall defnyddwyr bellach ymgysylltu â CDC yn uniongyrchol e.e. gallant ymuno â gweminarau heb iddynt fod yn gysylltiedig ag unrhyw sefydliad penodol. Credwyd nad oedd y dull gweithredu hwn yn adlewyrchu'r model cyflawni a fwriadwyd.
- 7.73 Nododd staff dosbarthu hefyd fod cynnwys yr hyfforddiant wedi esblygu i ddiwallu anghenion penodol pobl yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, e.e. roedd y galw am hyfforddiant fel dysgu sut i gynnal gweminar neu gyfarfodydd rhithiol wedi tyfu fel caseg eira. Awgrymodd y staff cyflawni y

gall fod yn fwy heriol darparu rhai rhannau o'r hyfforddiant o bell, h.y. gall dysgu defnyddwyr sut i ddefnyddio dyfais ddigidol fod yn heriol iawn.

Offer ar gyfer cartrefi gofal

- 7.74 Dyrannwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i CDC er mwyn darparu 1,000 o ddyfeisiau i 600 o gartrefi gofal yng Nghymru yn ogystal â lleoliadau eraill fel hosbisau, mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Cymeradwyodd y cyfranwyr y rhaglen am ei hymdrechion, ei hyblygrwydd a'i hystwythder i ddosbarthu'r cyfarpar mewn modd mor effeithlon. Er gwaethaf y ffaith bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi ystyried adnoddau staffio i gyflawni'r fenter hon fel rhan o'i chynnig i Lywodraeth Cymru ac wedi cyllidebu ar gyfer hynny, dadleuodd y staff cyflawni fod maint y gwaith sy'n gysylltiedig â dosbarthu'r cyfarpar ynghyd â chymhlethdod sefydlu cynllun rheoli asedau effeithiol wedi'u tanamcangyfrif.
- 7.75 Awgrymodd rhai staff cyflawni fod y llwyth gwaith ychwanegol yn golygu bod CDC yn gwyro oddi wrth ei raglen waith wreiddiol a dadleuodd un cyfrannwr o'r fath fod y gwaith ychwanegol o bosibl wedi dod yn ffocws ar draul gofynion eraill. Fodd bynnag, rydym arddeall bod adnoddau ychwanegol wedi cael eu rhoi i'r rhaglen ers hynny i ariannu rôl rheoli asedau amser llawn a ddylai leihau'r pwysau ar CDC.
- 7.76 Nododd y cyfranwyr fod llawer o wersi wedi'u dysgu o brofiad y rhaglen o ddosbarthu cyfarpar ar draws cartrefi gofal, yn anad dim gan fod yr ymarfer wedi taflu goleuni ar faterion digidol eraill sy'n wynebu'r lleoliadau hyn, gan gynnwys diffyg mynediad at wifi mewn cartrefi gofal, cysylltedd gwael a diffyg sgiliau digidol sylfaenol ymhlith staff cartrefi gofal. Er bod rhai o'r materion hyn y tu hwnt i gwmpas CDC, credwyd bod angen i'r rhaglen ystyried pa rai y gallai fynd i'r afael o hwy o fewn ei chwmpas a sut y gallai wneud hynny.
- 7.77 Awgrymodd cyfranwyr eraill fod y gofynion monitro a osodwyd ar leoliadau gofal a oedd wedi derbyn cyfarpar wedi bod yn rhy feichus, yn enwedig yng ngoleuni'r amgylchiadau sy'n wynebu cartrefi gofal yn sgil COVID-19. Credwyd bod hyn wedi arwain at ddiffyg data monitro ynghylch y defnydd o

gyfarpar a'r gwahaniaeth a wnaed. Galwodd sawl cyfrannwr am werthuso'r fenter offer i gartrefi gofal er mwyn deall yr effaith y mae gosod dyfeisiau mewn cartrefi gofal wedi'i chael ar eu preswylwyr, er y byddai hyn yn rhoi baich ychwanegol ar y cartrefi gofal.

Ymestyn y dull gweithredu i sectorau eraill

- 7.78 Adeg y gwaith maes, roedd dull tebyg i'r fenter cyfarpar i gartrefi gofal yn cael ei ddatblygu i gefnogi unigolion sy'n chwilio am waith. Er yr ystyriwyd bod y rhaglen CDC yn gyfrwng priodol ar gyfer dosbarthu cyfarpar ac ymateb i'r anghenion a'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â phandemig iechyd, roedd staff cyflawni yn poeni y gallai'r cyfrifoldeb o ddarparu cynlluniau rheoli asedau ar draws gwahanol feysydd polisi amharu ar eu capasiti a'u gallu i gyflawni prif amcanion y rhaglen. Galwyd am ddefnyddio dull mwy cytbwys wrth i'r pandemig COVID-19 barhau, a chytuno ar y blaenoriaethau polisi allweddol y gallai CDC helpu i fynd i'r afael â hwy gan gydnabod y byddai angen dargyfeirio adnoddau oddi wrth y rhaglen waith wreiddiol er mwyn cyflawni'r rhain.

Effaith COVID-19 ar ymwneud sefydliadau â CDC

- 7.79 Dywedodd y rhan fwyaf o'r sefydliadau fod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i ddarparu gweithgareddau cynhwysiant digidol. Roedd y rhain yn amrywio o un sefydliad i'r llall ond yn cynnwys:
- gohirio clybiau cymdeithasol a phrosiectau a oedd yn ymwneud â dyfeisiau digidol
 - dyfeisiau ddim yn cael eu defnyddio o gwbl hyd yn oed pan oeddent ar gael
 - dyfeisiau ddim yn cael eu darparu yn unol â'r cynllun gwreiddiol
 - gohirio cyrsiau hyfforddi a drefnwyd, fel y rhai ar gyfer Cyfeillion ac Arwyr Digidol
 - cymorth wyneb yn wyneb i ddefnyddwyr gwasanaethau ddim yn cael ei ddarparu.

7.80 Rhoddwyd sawl enghraifft o sut roedd y rhaglen CDC wedi addasu a cheisio parhau i gefnogi sefydliadau yn ystod y cyfyngiadau symud drwy addasu ei dull gweithredu a'r cymorth a gynigiwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- darparu dolenni i weminarau e.e. ar sut i ddefnyddio Zoom a Microsoft Teams
- cyfeirio pobl at adnoddau, gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol
- cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd
- defnyddio dyfeisiau CDC i gael mynediad at wybodaeth neu ddatblygu modiwlau hyfforddi e.e. hylendid ar gyfer COVID-19
- cyflwyno pobl i ap sy'n caniatáu i berson arall gymryd rheolaeth o'r cyfrifiadur llechen er mwyn ei gwneud yn haws darparu cymorth a chyfarwyddyd
- mynediad at sesiynau hyfforddi ar-lein.

7.81 Dywedodd sawl sefydliad sut y bu i'r argyfwng helpu i amlygu pwysigrwydd y rhaglen CDC a'r angen i sicrhau bod gan gymunedau fynediad da at sgiliau, gwasanaethau ac offer digidol:

'mae COVID-19 wedi cyflymu a chynyddu gwaith CDC mewn sawl ffordd '

'mae'r argyfwng wedi cynyddu manteision technoleg ddigidol ac mae wedi dod yn rhan bwysicach fyth o ddarparu a chefnogi gwasanaethau'.

7.82 Fodd bynnag, roedd sefydliadau'n cydnabod yn eang nad oedd llawer o'r defnyddwyr gwasanaethau sydd fwyaf agored i niwed, a oedd heb y sgiliau, yr hyder, y cysylltedd na mynediad at ddyfeisiau, yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn ystod yr argyfwng hwn gan nad oedd yn bosibl eu cyrraedd a'u cefnogi. Roedd y sefydliadau'n llwyr werthfawrogi bod COVID-19 wedi golygu bod yn rhaid i'r rhaglen CDC symud i ddarpariaeth ar-lein ac roeddent o'r farn bod hyn wedi gweithio'n dda yn y tymor byr. Nid oedd gan sefydliadau unrhyw ateb syml ond ailadroddwyd yr angen parhaus am gymorth a buddsoddiad wrth ddarparu mynediad at ddyfeisiau:

'yn anffodus y rhai sydd â'r mwyaf i elwa o lythrennedd digidol yn aml yw'r rhai nad oes ganddynt yr arian i allu cael gafael ar ddyfeisiau llechen neu fand eang da yn eu cartrefi. Mae angen dull cyfunol yn y dyfodol i helpu'r cymunedau hyn i symud i'r cyfeiriad cywir.'

8. Canfyddiadau'r gwaith maes: Cyflawniadau a chanlyniadau

Mae'r bennod hon yn ystyried perfformiad CDC hyd yn hyn, rhai sylwadau cychwynnol am y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni a'r gwersi a ddysgwyd hyd yma. Mae'n tynnu ar farn swyddogion Llywodraeth Cymru, staff cyflawni a sefydliadau sydd wedi ymgysylltu â'r rhaglen.

Y perfformiad hyd yma

- 8.1 Cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru a staff cyflawni fod y rhaglen yn tanberfformio yn erbyn nifer o'i DPA ac awgrymwyd ei bod yn annhebygol iawn y byddent yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod y rhaglen, yn bennaf oherwydd yr amgylchiadau a oedd yn eu rhwystro rhag gweithio wyneb yn wyneb â chyfranogwyr a sefydliadau.
- 8.2 Mynegodd y staff cyflawni bryder ynghylch nifer y DPA a osodwyd ar gyfer y rhaglen er eu bod yn is na thargedau blaenorol y rhaglen, er mwyn caniatáu i'r rhaglen gyfredol ganolbwyntio ar newid ar lefel strategol ar draws sefydliadau, a chael gwell adnoddau o ran cyllid cyffredinol. Roedd awydd cryf i ailtrafod y DPA a osodwyd ar gyfer y rhaglen.
- 8.3 Awgrymodd y staff cyflawni nad oedd y DPA yn adlewyrchu natur strategol y gwaith sy'n ofynnol yn ystod y cam cyflawni hwn o'r rhaglen. Dadleuodd sawl cyfrannwr mai ffocws y rhaglen gyfredol yw ymgorffori cynhwysiant digidol mewn sefydliadau ond nad oedd y DPA yn adlewyrchu hyn, ac o ganlyniad roeddent yn teimlo fel 'ychwanegiadau' at y rhaglen. Aeth un cyfrannwr mor bell â dweud:

'mae'r ffocws ar niferoedd yn niweidiol i bwrpas y rhaglen'.
- 8.4 Roedd sawl cyfrannwr o'r farn y byddai'n werth rhoi'r gorau i gofnodi ac adrodd ar DPA ar gyfer allbwn a mabwysiadu canlyniadau mwy ansoddol, a fyddai'n adlewyrchu nodau ac amcanion y rhaglen gyfredol yn well:

'ar hyn o bryd maent yn feintiol iawn ond nid yw hynny o reidrwydd yn cyd-fynd â'r hyn y mae'r rhaglen yn ceisio ei wneud. Mae angen canolbwyntio'n fwy ar ansawdd.'

Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd y byddai mabwysiadu canlyniadau ansoddol yn unig ar gyfer ymyrraeth sy'n cael arian cyhoeddus ar y raddfa hon yn creu anawsterau o ran dangos gwerth am arian.

- 8.5 Roedd y staff cyflawni o'r farn bod set glir o ddiffiniadau a chanllawiau ar waith ar gyfer pob un o'r naw DPA ar gyfer y prosiect, a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu dehongli mewn modd cyson. Fodd bynnag, roedd y staff yn cydnabod bod darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i ddangos eu bod yn cael eu cyflawni yn heriol ac yn llafurus. Roedd hefyd yn wir bod y rhaglen yn wynebu anawsterau o ran casglu tystiolaeth gan sefydliadau sydd wedi ymgysylltu â CDC.
- 8.6 Codwyd rhai pwyntiau penodol mewn perthynas â'r set bresennol o DPA sydd ar waith. Ystyrir y rhain isod:
- DPA 1 (cymorth uniongyrchol i unigolion drwy ymyriadau dwys): adeg y gwaith maes, roedd y cyfranwyr o'r farn y byddai cyflawni'r targed hwn yn heriol o ystyried y cyfyngiadau yn sgil COVID-19, gan fod y rhaglen wedi'i chyfyngu rhag cyflwyno darpariaeth wyneb yn wyneb. Er gwaethaf hyn, yn ystod y pedwerydd chwarter yn unig, nododd CDC 3,990 o allbynnau yn erbyn y DPA gan ragori ar y targed blyneddol a osodwyd. Roedd cyfran fawr o allbynnau'r pedwerydd chwarter yn gysylltiedig â darparu dyfeisiau ar fenthyg i gartrefi gofal. Er bod y rhaglen wedi darparu cymorth uniongyrchol i nifer fwy o gyfranogwyr drwy ei darpariaeth ar-lein, nid yw hyn o reidrwydd yn gymorth 'dwys'⁶⁶ ac felly ni ellir eu cofnodi yn erbyn y DPA hwn er eu bod yn cael eu cyfrif tuag at DPA 2 (pobl a gafodd gymorth yn anuniongyrchol drwy ymgysylltu â sefydliadau). Roedd y cyfranwyr yn ymwybodol bod y targed hwn wedi'i gapio yn ddiweddar (pum defnyddiwr fesul aelod o staff a hyfforddwyd) ac, yn eu barn hwy, cododd hynny ragor o gwestiynau am ei werth fel offeryn adrodd
 - DPA 2 (pobl a gaiff gymorth yn anuniongyrchol drwy ymgysylltu â sefydliadau): cwestiynodd sawl cyfrannwr briodoldeb a gwerth y targed

⁶⁶ Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio ymyrraeth ddwys fel unigolyn sy'n cael cymorth parhaus a thymor hwy, yn aml ar sail un i un.

hwn, gan ei fod yn seiliedig ar amcangyfrif o ddata sefydliadol yn hytrach na ffigurau gwirioneddol. Yn lle hynny, awgrymodd staff cyflawni mai DPA mwy priodol fyddai un a fyddai'n adlewyrchu gwaith strategol y rhaglen gyda sefydliadau

- DPA 5 (sefydliadau'r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â hwy): roedd y cyfranwyr o'r farn bod y DPA hwn yn hollbwysig a'i fod o ran ei ethos yn adlewyrchu ffocws y rhaglen. Ystyriwyd bod y diffiniad⁶⁷ a fabwysiadwyd yn rhy gaeth o ystyried mai dim ond unwaith y gellir cyfrif bod sefydliad wedi ymgysylltu â CDC, boed hynny yn ystod y rhaglen flaenorol neu'r rhaglen gyfredol - ond gall y rhaglen ddarparu adroddiad naratif ar y gweithgareddau a gyflawnir ar lefel adrannol i Lywodraeth Cymru. Yng ngoleuni'r ffaith nad adroddwyd am unrhyw allbynnau ar gyfer y DPA hwn yn ystod blwyddyn gyntaf ei gyflwyno (gan fod y sefydliadau wedi'u cyfrif fel allbynnau yn erbyn rhaglen flaenorol), roedd galw am ailddiffinio'r DPA hwn i sicrhau bod yr ymgysylltiad ag adrannau unigol yn cael ei gydnabod yn well
- DPA 6 (gwirfoddolwyr Cynhwysiant Digidol a gafodd eu recriwtio a'u lleoli gan sefydliadau a gefnogir gan y rhaglen): yng ngoleuni cyfyngiadau COVID-19, mae gallu'r rhaglen i recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr cynhwysiant digidol mewn gwahanol leoliadau wedi lleihau. Er nad yw hyd a lled y pandemig COVID-19 yn gwbl hysbys adeg drafftio'r adroddiad hwn, mae'r rhaglen wedi colli o leiaf chwe mis o ran recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr.

8.7 Roedd barn gref y dylai DPA y rhaglen adlewyrchu'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y rhaglen ers COVID-19. Awgrymwyd y dylid adlewyrchu gwaith ychwanegol y rhaglen ar draws lleoliadau cartrefi gofal yn ogystal â'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar draws mentrau cyflogadwyedd, er enghraifft. Awgrymwyd y gallai fod yn bosibl mabwysiadu DPA syml fel nifer y dyfeisiau a ddosberthir neu nifer y lleoliadau/cyfranogwyr sy'n derbyn dyfeisiau, er bod hwn efallai'n

⁶⁷ Dim ond unwaith y gellir cyfrif bod sefydliad yn ymgysylltu â CDC, boed hynny yn ystod cyfnod blaenorol y rhaglen, 2015-2019, neu'r rhaglen gyfredol (Gorffennaf 2019 ymlaen)

ddatrysiad rhy syml na fyddai'n cofnodi effaith dyfeisiau a ddosbarthwyd ac a fyddai â goblygiadau sylweddol o ran adnoddau.

- 8.8 Credwyd bod bwlch arall yn y set gyfredol o DPA yn ymwneud ag effaith ymyriadau ar les a llesiant cyfranogwyr. Galwyd hyn yn adrodd ar ganlyniadau 'Technoleg er Lles'. Awgrymwyd y gellid cyflwyno DPA tebyg i'r un sydd eisoes ar waith ar gyfer DPA 8 (cleifion a gefnogir i ymgysylltu â thechnoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd) ar gyfer llesiant. Gallai hyn gynnwys nodi manteision ymgysylltu â thechnoleg i lefelau ynysigrwydd cymdeithasol, unigrwydd, pryder, hunan-barch, ansawdd bywyd, hwyliau ac ysbryd yn ogystal â byw yn annibynnol.

Y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni

- 8.9 Er nad yw cofnodi effaith y rhaglen yn un o amcanion yr adroddiad damcaniaeth newid a gwerthusiad proses hwn, mae'n werth edrych ar y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ar y cyfraniad y mae CDC yn ei wneud i ganlyniadau disgwylidig y rhaglen. Mae hyn yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid, staff cyflawni yn ogystal â sefydliadau a gefnogir.

Dylanwadu ar newid o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus

- 8.10 O ran ymgysylltu a dylanwadu ar newid o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus, adroddwyd bod y rhaglen wedi gwneud peth cynnydd o ran datblygu perthnasoedd cadarnhaol â chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd. Ystyriwyd bod rôl Rheolwr Cyfrif pwrpasol, a gyflawnwyd gan Reolwyr Rhanbarthol, yn ddefnyddiol.
- 8.11 Bydd yn cymryd amser i ddylanwadu ac i weld unrhyw newid ystyrion ar draws sefydliadau iechyd ac awdurdodau lleol a dadleuwyd ei bod yn rhy gynnar i adrodd ar unrhyw newid strategol ar draws y sefydliadau hyn o ganlyniad i CDC. Nodwyd hefyd y byddai'r canlyniad hwn yn dibynnu ar lwyddiant y rhaglen o ran sicrhau cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â Byrddau Iechyd ar lefel strategol, ac i'r ymrwymiad hwn gael ei atgyfnerthu o ran y ffordd y mae Byrddau Iechyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru.
- 8.12 Cyfeiriwyd at rai enghreifftiau cadarnhaol cychwynnol lle roedd ymgysylltu â CDC yn arwain at ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg ar draws Byrddau

lechyd. Er enghraifft, roedd un Bwrdd lechyd yn datblygu Strategaeth Cynhwysiant Digidol ac un arall yn cydweithio â CDC i ddatblygu strategaeth gwybodeg a fyddai'n adlewyrchu trawsnewidiad digidol a chynhwysiant digidol.

Y gwahaniaeth a wnaed i sefydliadau

8.13 Llwyddodd deg sefydliad i ddisgrifio enghreifftiau penodol o'r gwahaniaeth yr oedd ymwneud â CDC wedi'i wneud i'w gwaith. Roedd ymwneud â'r rhaglen CDC wedi:

- rhoi hygredd ac uniondeb i'w dulliau gweithredu digidol
- hyrwyddo sgiliau digidol ar draws y gymuned
- uwchsgilio staff i fod yn fwy effeithiol wrth eu gwaith: 'mae cael rhywun allanol yn dod i mewn i'r sefydliad wedi rhoi hwb mawr i'r broses gyfan'
- eu galluogi i gael mynediad at gyfleoedd a chyfarpar na ellid eu caffael yn fewnol: 'mae angen iddyn nhw wedyn lunio achos busnes a'i gyflwyno i'r adran gaffael gyda thystiolaeth ei fod yn gweithio. Yna gallwn integreiddio'r dechnoleg i fywydau pobl. Maen nhw'n helpu pob cam o'r ffordd.'
- helpu'r sefydliad i ystyried sut i wneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol yn ystod cyfnod o dwf a her sylweddol
- rhoi'r dulliau a'r sgiliau i'r sefydliad sy'n ofynnol i'w galluogi i ymestyn ei gyrhaeddiad a dechrau ymgysylltu'n ehangach â defnyddwyr gwasanaethau hŷn
- ei gwneud yn haws dangos effeithiau cynhwysiant digidol ac felly cael gaffael ar gyllid ychwanegol ar gyfer eu gweithgareddau
- newid agwedd y staff yn sylweddol: 'yn gyffredinol nid yw staff yn hoffi newid, ond mae'r prosiect wedi dangos iddyn nhw pa mor ddefnyddiol yw'r iPads.'

8.14 Nododd tri sefydliad sut roedd ymwneud â CDC wedi eu helpu i ymdopi yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd un sefydliad wedi defnyddio'r cyfrifiaduron llechen a fenthycodd i gyfathrebu â gwirfoddolwyr ac aelodau

ac roedd bellach wrthi'n datblygu strategaeth ddigidol. Roedd sefydliad arall, gyda chynghor gan CDC, wedi gallu rhoi dulliau amgen ar waith i gefnogi cleientiaid yn ystod y cyfyngiadau symud ac wedi symud llawer o gymorth wyneb yn wyneb i gyfarfodydd Zoom neu Skype ar-lein: 'mae cael mynediad at arbenigedd a gwybodaeth CDC wedi bod yn amhrisiadwy.'

- 8.15 Roedd pedwar o'r sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn rhan o'r sector iechyd a gofal a nododd pob un sut yr oedd y cymorth a gawsant gan CDC wedi caniatáu iddynt roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio a 'threialu' technoleg newydd a allai gefnogi gofal cleifion:

'mae cymorth CDC wedi helpu tîm y BIP i fanteisio ar botensial technoleg i wella'r ffordd y mae'n cefnogi cleifion, ac mae wedi caniatáu i wirfoddolwyr drosglwyddo gwybodaeth ac uwchsgilio cleifion ynghylch sut y gall technoleg gefnogi eu hiechyd a'u llesiant yn eu bywydau o ddydd i ddydd.'

- 8.16 Priodolodd sefydliad arall yn y sector iechyd a gofal waith y CDC i'w helpu i ddatblygu adnoddau ar gyfer ymgysylltu â chleifion a gwaith addysg, ac roedd un arall wedi gallu datblygu cyfleuster rhith-ymweld a chyfleuster ar-lein rhithiol ar gyfer cyfeillio yn ystod y pandemig gyda chymorth CDC:

'rydym wedi bwrw ymlaen oherwydd ein perthynas â CDC a'r cymorth a gawsom. Heb hynny ni fyddem wedi gallu gwneud yr hyn a wnawn.'

- 8.17 Roedd pedwar sefydliad yn teimlo bod eu hymwneud â CDC wedi cael effaith gyfyngedig arnynt hyd yma ond fe wnaethant ddarparu rhai enghreifftiau megis codi ymwybyddiaeth y staff o gynhwysiant digidol, a thechnoleg yn cael ei hymgorffori'n fwy yng ngweithgareddau'r ganolfan ddydd. Fodd bynnag, roedd y sefydliadau hyn i gyd ar gamau cynnar o ran eu hymwneud â'r prosiect ac er nad oeddent wedi symud ymlaen cymaint ag y byddent wedi'i ddymuno, roeddent yn cydnabod bod 'cynhwysiant digidol bellach ar ein agenda'.

- 8.18 Teimlai un sefydliad mai COVID-19, yn hytrach na CDC oedd wedi gyrru'r agenda yn ei blaen, gyda newid amlwg ar draws y sefydliad iechyd a gofal tuag at ddulliau digidol o asesu cleifion a chael adborth gan gleifion.

Roedd y cymorth a ddarparwyd gan CDC i gartref gofal wedi ei helpu i addasu ei wasanaethau yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd yn gallu helpu preswylwyr i gadw mewn cysylltiad â pherthnasau, ac roedd yn gallu defnyddio'r dechnoleg i gyflawni ei raglen weithgareddau ddiwygiedig: 'Mae'r profiad wedi agor llygaid y Rheolwyr i'r hyn y gellir ei wneud drwy ddefnyddio'r dechnoleg. Mae'r preswylwyr wedi ymateb yn gadarnhaol, ac mae pawb wedi cael llawer o hwyl ar yr iPads.'

Gall y tîm weld potensial y cyfarpar fel ffordd o helpu preswylwyr i gysylltu â phobl ac â'u diddordebau: 'Dyma'r ffordd ymlaen, yn bendant.' Ar ôl gweld y manteision, mae'r Rheolwr bellach wedi dyrannu'r cyfarpar i wahanol rannau o'r cartref, er mwyn sicrhau bod gan bob preswlydd fynediad hawdd ato bob amser. Yn flaenorol, nid oedd hyn yn digwydd ac roedd y preswylwyr i bob pwrpas wedi eu hynysu o'r byd ar-lein. Mae'r cyfarpar hefyd yn arbed amser i staff, a fyddai fel arall wedi gorfod rhedeg popeth drwy swyddfa ganolog, a oedd yn llafurus ac yn rhwystredig i staff, preswylwyr a theuluoedd.

Mae'r dyfeisiau a ddarperir ar gyfer y cartref gofal wedi meithrin perthnasoedd mwy cadarnhaol rhwng y cartref a theuluoedd y preswylwyr. Oherwydd bod teuluoedd yn gallu gweld bod y staff yn defnyddio'r cyfarpar yn greadigol i helpu preswylwyr i gadw mewn cysylltiad, mae wedi creu dymameg llawer mwy cadarnhaol: 'Mae teuluoedd yn teimlo'n agosach at eu perthnasau gan nad oes rhaid iddyn nhw ddibynnu ar yr ymweliadau yn cnawd mwyach. Dyma un o'r manteision annisgwyl sydd wedi deillio o ddefnyddio'r cyfarpar hwn dros gyfnod y cyfyngiadau symud'

Y gwahaniaeth a wnaed i staff/gwirfoddolwyr

- 8.19 Cafwyd tair neges glir yn ystod cyfweiliadau ag ymatebwyr o sefydliadau ynghylch effaith ymwneud â'r rhaglen CDC ar staff a gwirfoddolwyr.

- 8.20 Yn gyntaf, mae staff a gwirfoddolwyr, oherwydd hyfforddiant gan CDC, wedi datblygu eu sgiliau digidol eu hunain ac mae eu hyder wedi cynyddu:
- 'mae aelodau'r tîm yn llawer mwy galluog a hyderus yn defnyddio'r cyfarpar o ganlyniad i'r hyfforddiant a gafwyd gan CDC. Maent wedi dod yn well am gynnwys y cyfarpar yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ac mae ganddynt well gafael ar sut y gall cynnwys digidol gefnogi'r gwaith a wnânt gyda chleifion hŷn ar y ward.'
 - 'mae staff bellach yn ystyried technoleg fel rhan naturiol ac annatod o'r ffordd y maent yn darparu cymorth, ac mae hwn yn newid sylweddol o'r sefyllfa ddwy neu dair blynedd yn ôl. Mae gan dechnoleg ran bwysig i'w chwarae ac rydym yn ei defnyddio mewn ffordd llawer mwy uchelgeisiol. Mae'n cael ei ymgorffori yn ein gwaith.'
- 8.21 Yn ail, roedd cymryd rhan yn yr hyfforddiant a ddarparwyd gan CDC wedi rhoi staff a gwirfoddolwyr mewn gwell sefyllfa i drosglwyddo'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu neu i ddysgu eraill yn eu cymuned:
- 'mae gan y staff o bosibl well dealltwriaeth o sut i esbonio pethau i eraill. Mae aelodau'r tîm yn sylweddoli nawr bod yn rhaid iddyn nhw egluro pethau'n araf a bod angen amynedd arnyn nhw.'
 - 'mae'r staff iau wedi bod yn dangos i'r staff hŷn beth i'w wneud, felly mae cyfnewid gwybodaeth a sgiliau yn digwydd o fewn y tîm. Hefyd, mae staff yn teimlo eu bod wedi gallu cryfhau eu perthynas â phreswylwyr gan eu bod wedi bod yn dangos iddyn nhw sut i ddefnyddio'r offer. Mae'r staff yn hoffi helpu'r bobl hŷn i ddefnyddio'r cyfarpar, ac mae'r preswylwyr yn gwerthfawrogi'r help yn fawr, felly mae'n helpu i greu perthynas gadarnhaol iawn'.
- 8.22 Yn drydydd, mae ymwneud â'r rhaglen CDC wedi sbarduno creadigrwydd staff a gwirfoddolwyr ac wedi eu helpu i feddwl yn wahanol ac ystyried sut y gellid defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi pobl yn y gymuned:
- 'rhoddodd yr hyfforddiant lawer o syniadau newydd i'r tîm a chaniatáu i'r Cyfeillion Digidol fod yn fwy creadigol ynglŷn â sut roedden nhw'n defnyddio technoleg wrth ryngweithio â chleifion.'

- 'mae CDC wedi helpu rhai staff a gwirfoddolwyr i oresgyn eu hamheuaeth o dechnoleg newydd, ac mae hyn wedi agor eu meddyliau i ffyrdd newydd o weithio.'
 - 'oherwydd cefnogaeth a brwdfrydedd tîm CDC, mae ein staff a'n gwirfoddolwyr bellach yn defnyddio'r dechnoleg mewn ffordd sy'n cyfoethogi'r cymorth. Mae bron fel ein bod bellach yn defnyddio'r dechnoleg mewn ffordd nad yw'r claf hyd yn oed yn sylwi arni, ac mae hyn yn gwella lefel y rhyngweithio a'r dysgu. Mae cyflawni hyn yn gofyn am hyder a sgil, ac yn sicr mae CDC wedi helpu ein staff yn hynny o beth.'
- 8.23 Nododd sawl ymatebydd o'r sector iechyd a gofal yn arbennig sut yr oedd yr offer a ddarparwyd gan CDC wedi newid y ffordd roeddent yn gweithio:
- 'mae wedi rhoi'r gic yr oedd ei hangen arnom i ddechrau defnyddio'r dechnoleg, a fyddwn ni ddim yn mynd yn ôl nawr. Mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn'.
- 8.24 Darparwyd enghreifftiau o ddyfeisiau Fitbit, pensetiau realiti rhithwir a chyfrifiaduron llechen yn cael eu defnyddio fel rhan o'r dull o ymdrin â gofal cleifion a thrin cleifion. Disgrifiodd un ward sut roedd y therapyddion galwedigaethol bellach yn defnyddio pensetiau realiti rhithwir pan oedd pobl mewn trallod fel rhan o'u therapi. Roedd wedi dod yn rhan o therapi a thriniaeth cleifion, gyda'r pensetiau yn aml yn cael eu defnyddio yn lle rhoi meddyginiaeth: 'rydym yn gweld eu bod yn offeryn effeithiol, er nad oes gennym unrhyw ddata na thystiolaeth bendant i brofi hyn eto'.
- Y gwahaniaeth a wnaed i ddefnyddwyr*
- 8.25 Cyfeiriodd y sefydliadau at sawl ffordd yr oeddent yn teimlo bod ymwneud â'r rhaglen CDC wedi bod yn fuddiol i ddefnyddwyr. Roedd mwy o hyder wrth ddefnyddio gwahanol fathau o gyfarpar a thechnoleg TG at wahanol ddibenion yn ganfyddiad allweddol. Dangosodd adborth o gartrefi gofal a wardiau ysbytai, er bod pobl hyn yn tueddu i fod yn amheus i ddechrau, buan iawn y tyfodd eu hyder gydag ychydig o arweiniad a chymorth:

- 'mae'r bywyd a'r llawenydd a ddaeth i'r ward yn ei sgil wedi bod yn amlwg i bawb. Mae hefyd wedi helpu'r bobl hŷn i deimlo'n rhan o'r hyn sy'n digwydd yn y byd mawr y tu allan. Mae llawer yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl oherwydd bod popeth ar-lein, felly mae rhoi cyfle iddyn nhw roi cynnig ar bethau mewn ffordd sy'n teimlo'n ddiogel yn hwb gwirioneddol iddyn nhw'
- 'gofynnodd un fenyw i mi ddangos iddi sut mae siopa ar-lein yn gweithio, ac yna'r tro nesaf y daeth ei merch i'w gweld fe eistedd y ddwy i lawr a rhoi archeb ar-lein. Roedd hi'n falch iawn, ac roedd hynny'n amlwg yn rhywbeth yr oedd hi wedi bod eisiau ei wneud ers cryn amser ond efallai heb yr hyder i roi cynnig arni. Mae'n gwneud i chi feddwl beth yw'r profiadau eraill y gallai pobl fod yn eu colli oherwydd diffyg mynediad i'r byd digidol'
- 'mae'r iPads wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac maen nhw'n cael eu defnyddio'n gyson. Mae cleifion wedi eu defnyddio i ymchwilio i amrywiaeth o ddiddordebau a gwneud llawer o wahanol weithgareddau. Mae staff wedi eistedd gyda chleifion ac wedi eu helpu i chwilio am yr hyn y mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddo, boed yn hen glip fideo neu gân sy'n dod ag atgofion melys yn ôl iddyn nhw'
- 'mae llawer o gleifion hefyd wedi dechrau defnyddio'r iPads yn annibynnol wrth i'w hyder a'u sgiliau digidol gynyddu. Mae perthnasau ac ymwelwyr hefyd wedi gallu defnyddio'r iPads gyda'u perthnasau yn ystod eu hymweliad, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn'
- 'i rai cleifion mae'n mynd â nhw y tu allan i'w cylch cysurus ac yn agor eu meddyliau i ddysgu pethau newydd. Mae cleifion yn dechrau defnyddio technoleg ar gyfer Fy Iechyd Ar-lein, i siopa, i gadw mewn cysylltiad â pherthnasau. Mae'r holl brofiadau hyn yn helpu i chwalu'r dirgelwch o amgylch technoleg ac agor llygaid pobl ynghylch sut y gall fod yn fanteisiol.'

8.26 Trafododd sawl sefydliad hefyd sut yr oedd defnyddio'r dechnoleg neu'r sgiliau a ddatblygwyd drwy gyfranogiad CDC wedi gwella iechyd a llesiant eu defnyddwyr. Er enghraifft:

- rhoddodd un sefydliad enghraifft o ddefnyddiwr ag anawsterau dysgu nad oedd wedi gorfod mynychu apwyntiadau meddygol yn ystod y cyfyngiadau symud gan fod ganddo fynediad at offer a oedd wedi'i fenthycu gan CDC. Roedd hyn wedi lleihau'r pryder yn sylweddol i'r unigolyn ac wedi gwneud y broses yn llai trawmatig
- disgrifiodd sefydliad arall sut yr oedd defnyddwyr a gymerodd ran mewn cynllun treialu benthyca Fitbit wedi colli pwysau neu wedi parhau â'r arferion da ar ôl bod yn rhan o gynllun peilot: 'pan wnaethon ni brofi'r offer am y tro cyntaf cyn y treial, dim ond 80 o gamau y dydd yr oedd un o'r cleifion yn ei wneud, felly mae'r prosiect wedi newid ymddygiad pobl mewn gwirionedd, a phe bai'n cael ei gynnal, gallai arwain at fanteision iechyd cadarnhaol iawn yn y tymor hwy'
- disgrifiodd sefydliad iechyd sut yr adroddodd cleifion ar sut yr oedd defnyddio'r pensetiau realiti rhithwir wedi cael effaith gadarnhaol arnynt ac wedi eu tawelu: 'mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn ystod y coronafeirws oherwydd nid oedd cleifion yn gallu gadael y ward felly cawsant gyfle i brofi gweithgareddau fel rhith-gerdded ar draeth lleol'
- 'dechreuodd un therapydd galwedigaethol grio pan gyrhaeddais i gyda'r dyfeisiau ac yna roedd hi'n rhedeg o amgylch yr ardd gyda'r dyfeisiau oherwydd ei bod hi'n gwybod sut y bydden nhw'n helpu'r cleifion. O weld hynny - rydych chi'n sylweddoli ei fod yn werth chweil.'

8.27 Disgrifiodd sawl sefydliad hefyd sut yr oedd defnyddio technoleg ddigidol yn gwneud i ddefnyddwyr deimlo'n llai unig ac ynysig:

- 'mae wedi bod yn achubiaeth a bydden nhw'n dweud hynny wrthyh chi. Rhoddodd un gwirfoddolwr fenyw 90 oed mewn cysylltiad â'i theulu. Allwch chi ddim rhoi pris ar hynny'
- 'mae'r preswylwyr wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r iPads ac wedi mwynhau gallu defnyddio'r offer i siarad â'u teuluoedd, ymchwilio i'w hobiau a'u diddordebau, a chael y newyddion diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal. Mae hyn wedi helpu morâl a llesiant pobl yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud'

- 'roedd gennym fenyw 96 oed a ddywedodd wrthym ei bod yn gweld eisiau ei iPad. Dywedodd wrthym ei bod hi'n defnyddio'r iPad gartref i wyllo'r gwasanaeth wythnosol yn ei heglwys. Roedd yn hyfryd oherwydd wedyn roedd yn bosibl i ni drefnu iddi gael dyfais llechen er mwyn iddi allu cymryd rhan yn ei haddoliad wythnosol. Dylech fod wedi gweld y newid ynddi. Yr eiliadau hynny sy'n anodd eu rhoi ar gof a chadw - rhoddodd ryw fath o fywyd a phwrrpas iddi, ond cyn hynny roedd hi'n eistedd yn y gwely'n gwneud dim'
- 'mae'n gyfle i bobl ddod at ei gilydd i ddysgu rhywbeth newydd mewn lleoliad cymdeithasol'
- 'rydym wedi cael sefyllfaoedd lle mae aelodau o staff wedi bod yn sefyll wrth ffenestr ein swyddfeydd, yn helpu person oedrannus i ddefnyddio ei iPad er mwyn gallu siarad â'i deulu - mae hynny'n dangos y gwahaniaeth y gall y math hwn o gymorth ei wneud'
- 'mae wedi helpu pobl i gadw mewn cysylltiad gan ddefnyddio eu cyfarpar digidol - roedd hyn yn bwysig iawn o ystyried ynysigrwydd pobl dros gyfnod y cyfyngiadau'
- 'mae'r gallu i gadw cysylltiad â pherthnasau dros alwad fideo wedi gwneud gwahaniaeth mawr ac mae'n rhywbeth sydd wedi bod o fudd mawr i forâl ac iechyd meddwl pobl. Mae'r iPads wedi bod yn amhrisiadwy i hwyluso hyn ac mae'n sicr yn rhywbeth y mae'r tîm eisiau parhau i'w wneud ar y ward yn y dyfodol.'

8.28 Gwelwyd bod y rhaglen Arwyr Digidol yn datblygu hyder a sgiliau ymhlith pobl ifanc ac yn hyrwyddo deialog sy'n pontio'r cenedlaethau:

- 'roedd yn agoriad llygad i'r gwirfoddolwyr ifanc o ran deall yr hyn na allai'r bobl hŷn ei wneud na'i ddeall. Cawsant lawer o hwyl ac fe wnaethant ddysgu llawer o'r profiad'

8.29 I rai o'r sefydliadau, roedd eu hymwneud â CDC yn dal yn y camau cynnar ac roeddent yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i allu priodoli unrhyw wahaniaeth neu unrhyw fanteision pendant i'r rhaglen hyd yn hyn. Fodd

bynag, roedd sawl un o'r sefydliadau hyn yn teimlo y gallai'r manteision posibl fod yn 'sylweddol', yn 'eang' ac yn 'eithaf dramatig' yn y dyfodol.

Gwersi a ddysgwyd hyd yma

- 8.30 Roedd y prif wersi a ddysgwyd hyd yma a allai fod yn sail i'r broses o gyflawni gweddill y rhaglen yn cynnwys:

Ymgysylltu ar lefel strategol

- 8.31 Awgrymodd sawl cyfrannwr y gellid cryfhau ymgysylltiad tîm polisi iechyd Llywodraeth Cymru â'r rhaglen dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill, er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd y negeseuon y mae CDC yn eu cyfleu i'r sector iechyd. Gwelwyd bod y berthynas rhwng tîm polisi iechyd Llywodraeth Cymru a'r rhaglen wedi cryfhau ar ôl sianelu'r cyllid ar gyfer offer i gartrefi gofal drwy'r rhaglen, a bod lle i adeiladu ymhellach ar hyn. Ymhlith y sylwadau a wnaed roedd:

'byddai mewnbwn mwy strategol yn ddefnyddiol iawn - weithiau rydym yn gweithio gydag adrannau ac wardiau ond rydym yn gweithio o'r gwaelod i fyny. Fel rhaglen mae angen i ni eistedd i lawr o amgylch y bwrdd gyda Phrif Weithredwr neu uwch reolwr Bwrdd Iechyd '

'ble mae Llywodraeth Cymru? Pam nad ydyn nhw'n dweud wrth Fyrddau Iechyd am fuddsoddi yn hyn?'

- 8.32 Awgrymwyd y gallai sefydliadau'r sector cyhoeddus gael eu hannog drwy benodi Uwch Hyrwyddwr Digidol, fel bod gan raglen CDC gyswllt strategol o fewn Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Yn yr un modd, awgrymwyd y gallai uwch arweinwyr o fewn Canolfan Gydweithredol Cymru chwarae rôl eirioli fwy ar gyfer y rhaglen ar draws sefydliadau targed allweddol.

Defnydd effeithiol o hyrwyddwyr digidol

- 8.33 Roedd y cyfranwyr yn ymwybodol y dylai'r rhaglen CDC geisio cynyddu ei hymgysylltiad â hyrwyddwyr digidol strategol dros weddill cyfnod y rhaglen a'u defnyddio fel eiriolwyr effeithiol dros gynhwysiant digidol. Mae penodi Prif Swyddog Digidol newydd wedi'i leoli yn CLILC, ynghyd â sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol newydd, yn ychwanegu at yr arweinwyr

strategol allweddol (Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn ei swydd) y mae angen i CDC ymgysylltu â nhw:

'Mae sicrhau bod y rolau hyrwyddwr hyn ar lefel strategol yn y sector cyhoeddus yn bwysig - ac mae angen i ni feddwl sut mae rhaglen CDC yn rhyngweithio â nhw - beth mae safonau'n ei olygu - a oes rôl i raglen fel hon sicrhau bod cynhwysiant cymunedol wrth wraidd yr hyn maen nhw'n ei wneud? '

Ymateb i effaith COVID-19

- 8.34 Dadleuodd y cyfranwyr fod y galw am ymyrraeth CDC ar y naill law wedi tyfu ers COVID-19 ac mai dyma'r amser i'r rhaglen wneud gwahaniaeth go iawn. Fodd bynnag, ar y llaw arall, mae angen cymryd gofal i sicrhau bod y rhaglen yn blaenoriaethu'r gweithgareddau sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Fel yr esboniodd un cyfrannwr:

'ni all [y rhaglen] fod yn bopeth i bawb... mae perygl ein bod yn cael ein tynnu i gyfeiriadau gwahanol'.

- 8.35 Roedd y cyfranwyr hefyd o'r farn ei bod yn bwysig cynnal a gwneud y mwyaf o gryfderau'r rhaglen yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Dadleuwyd y dylid cynnal ystwythder a hyblygrwydd CDC i ymateb i gyfleoedd ac anghenion yn ystod COVID-19 o ystyried ansicrwydd y sefyllfa dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf:

'bydd y gallu hwnnw i ymateb i heriau a chyfleoedd yn bwysig iawn'.

Roedd rhywfaint o awgrym y gallai fod yn amserol ailystyried priodoldeb strwythur presennol CDC yng ngoleuni effaith COVID-19. Er enghraifft, rhagwelwyd y byddai llai o ffocws ar gwrdd â phobl wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol a mwy o ffocws ar gefnogi darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i weithredu strategaethau cynhwysiant digidol. Gall hyn fod arwain at oblygiadau i ddyrannu adnoddau a'r strwythur sy'n ofynnol er mwyn i'r rhaglen weithredu o fewn amgylchiadau 'normal newydd'.

Anghenion sefydliadau yn y dyfodol

- 8.36 O ran cymorth gan y rhaglen CDC yn y dyfodol, byddai sefydliadau'n croesawu'r canlynol:

- mwy o gapasiti o fewn tîm CDC i adlewyrchu'r galw cynyddol a'r angen am wasanaethau'r rhaglen ers COVID-19
- hyfforddiant ar-lein parhaus (hyd yn oed ar ôl COVID-19), gan fod llawer o staff wedi ei chael hi'n haws ymgysylltu â darpariaeth rithiol
- hyfforddiant diweddar neu hyfforddiant ar gyfer carfannau newydd o staff a gwirfoddolwyr, pan fydd yn bosibl cyflwyno darpariaeth wyneb yn wyneb
- mynediad at linell gymorth, i gynnig cymorth dilynol os bydd ei angen i staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr sy'n ymgysylltu â hyfforddiant CDC
- mynediad at dystiolaeth am y canlyniadau iechyd a llesiant sy'n cael eu cyflawni drwy fabwysiadu datrysiadau digidol ar draws y sector iechyd
- adolygu cynulleidfaoedd targed allweddol y rhaglen gan fod y diffiniad ar gyfer allgáu digidol wedi newid ers COVID-19. Er enghraifft, dadleuodd un cyfrannwr fod unigolyn ag iPhone 4 a 2 GB o ddata yn cael ei ystyried gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd fel rhywun sydd wedi'i gynnwys yn ddigidol pan fydd yn cynnal ei arolwg cynhwysiant digidol, ond nid yw hynny'n ddigonol ar gyfer yr oes sydd ohoni.

Dywedodd cyfrannwr arall:

'mae'r canfyddiad yr oedd gennym o allgáu digidol wedi newid yn gyfan gwbl... rydyn ni'n helpu plant a rhieni i ddeall Google Classroom.'

9. Casgliadau ac argymhellion

- 9.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau, gan gynnwys model rhesymeg Damcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen CDC a materion i'w hystyried dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill. Mae hefyd yn dychwelyd i ystyried yr amcanion allweddol a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad proses hwn.

Damcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen

- 9.2 Mae barn cyfranwyr a oedd yn ymwneud â dylunio rhaglen CDC, ynghyd â dadansoddiad o ddogfennau'r rhaglen, wedi llywio model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer CDC i adlewyrchu sut y bwriadwyd i'r rhaglen weithredu. Mae Ffigur 9.1 yn nodi'r hyn y disgwyliwyd i CDC ei gyflawni gan gynnwys y canlyniadau disgwylidig a'r gweithgareddau a fyddai'n arwain at y canlyniadau hynny. Mae hefyd yn disgrifio'r mewnbynnau y bwriadwyd eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau newid.

Ffigur 9.1: Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid cychwynnol CDC

<i>Mewnbynnau</i>	<i>Gweithgareddau</i>	<i>Allbynnau</i>	<i>Canlyniadau Tymor Byr</i>	<i>Canlyniad cyffredinol</i>
Tîm penodedig a chanddo adnoddau priodol o Ganolfan Cydweithredol Cymru, Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe Strwythurau llywodraethu priodol e.e. Bwrdd y Rhaglen Cydweithredu a chydweithio â sefydliadau partner £6m o gyllid gan Lywodraeth Cymru Canolbwyntio ar bedwar grŵp targed (y rhai dros 50, pobl anweithgar/di-waith, yr anabl a thenantiaid tai cymdeithasol)	• Recriwtio sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ac ymgysylltu â hwy • Asesu anghenion sefydliadau gan ddefnyddio Cynlluniau Ymgynghori Digidol • Darparu cyngor a chymorth digidol i sefydliadau • Rheoli cyfrifon Byrddau Iechyd a darparu cymorth dwys iddynt • Darparu dyfeisiau ar fenthyg a chymorth ariannol i sefydliadau • Hyrwyddo a recriwtio cyfranogwyr • Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant digidol wyneb yn wyneb i ddefnyddwyr • Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant digidol wyneb yn wyneb i'r gweithlu • Hyrwyddo a darparu cyrsiau ar-lein e.e. Learn My Way • Recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr (drwy Arwyr Digidol, Cyfeillion Digidol a Hyrwyddwyr Digidol) • Sefydlu a hwyluso'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol	Nifer y sefydliadau yr ymgysylltwyd â hwy ac a gefnogwyd Byrddau Iechyd a ymgysylltodd yn ysturlon â CDC Nifer y dyfeisiau a fenthycwyd Nifer y defnyddwyr a hyfforddwyd Nifer staff y gweithlu a hyfforddwyd Cyfran y cyfranogwyr o'r pedwar grŵp targed Nifer y gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio a'u defnyddio Nifer y cyfarfodydd o'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol a'i haelodaeth	Sefydliadau iechyd yn ymgorffori arferion a pholisïau cynhwysiant digidol ac yn eu rhoi ar waith Darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn nodi gwell sgiliau a chymhwysedd mewn llythrennedd digidol ar draws eu gweithlu Cynnydd yn y diddordeb mewn technoleg arloesol a'r ymwybyddiaeth ohoni ymhlith cyfranogwyr a'r gweithlu a dargedir Gwell sgiliau digidol sylfaenol ymhlith cyfranogwyr Cyfranogwyr yn nodi gwell canlyniadau iechyd a llesiant Cyfranogwyr yn nodi llai o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol Grwpiau targed y rhaglen yn nodi canlyniadau cadarnhaol	Llai o bobl wedi'u hallgáu yn ddigidol ledled Cymru, yn enwedig ar draws y pedwar grŵp targed Cynnydd mewn sgiliau digidol (fel y'u mesurir gan y pum sgil sylfaenol) a hyder ledled Cymru Mwy o bobl yn defnyddio technoleg yn gymwys ac yn ddiogel yn eu bywydau bob dydd Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu cyflyrau iechyd

9.3 Mae sawl rhagdybiaeth yn sail i'r model hwn, gan gynnwys:

- bydd sefydliadau eisiau ymgysylltu â'r rhaglen mewn modd ystyrlon a strategol a byddant yn gallu goresgyn unrhyw heriau neu rwysrau mewnol er mwyn rhoi arferion a pholisïau cynhwysiant digidol newydd ar waith
- bydd sefydliadau'n gallu rhyddhau staff i gymryd rhan mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb a'r hyfforddiant a ddarperir gan y rhaglen
- bydd staff sydd wedi'u hyfforddi gan CDC yn dymuno rhannu eu sgiliau a'u gwybodaeth â defnyddwyr gwasanaethau a chleifion a byddant yn ddigon hyderus i wneud hynny
- bydd y math o sefydliadau a dargedir gan y rhaglen yn caniatáu ar gyfer recriwtio a chyfranogiad y pedwar grŵp targed allweddol (dros 50, y rhai sy'n anweithgar/di-waith, yr anabl a thenantiaid tai cymdeithasol) yn y rhaglen
- bydd y cyfranogwyr targed wedi eu hysgogi i gymryd rhan mewn hyfforddiant digidol a bydd galw mawr am y ddarpariaeth
- bydd yr hyfforddiant a ddarperir gan CDC yn caniatáu i gyfranogwyr ddatblygu'r pum sgil a chymhwysedd digidol sylfaenol
- bydd y cyfranogwyr yn defnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth ddigidol newydd i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill a thrwy wneud hynny, byddant yn gallu rheoli eu hiechyd a'u llesiant yn well
- rhoddir sylw i rwysrau eraill y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu o ran cael eu cynnwys yn ddigidol, megis cysylltedd gael â'r rhyngrwyd neu gyfyngiadau ariannol, drwy fentrau neu ddatrysiadau eraill.

9.4 Mae Ffigur 9.2 yn nodi model rhesymeg Damcaniaeth Newid diwygiedig ar gyfer y rhaglen sy'n ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad proses hwn. Mae'r model rhesymeg yn nodi'r mewnbynnau, y gweithgareddau a'r allbynnau gwirioneddol sy'n cael eu cyflawni gan CDC ar yr adeg hon, ynghyd â'r canlyniadau y gellir disgwyl iddynt gael eu cyflawni o ganlyniad i hynny.

Mae'r model hwn yn adlewyrchu'r adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i'r rhaglen yn ystod COVID-19, cyflwyno cynllun rheoli asedau mwy cynhwysfawr a'r newid i gyflwyno darpariaeth ar-lein i sefydliadau a chyfranogwyr. O ran canlyniadau, mae'r newidiadau allweddol o gymharu â'r model gwreiddiol yn cynnwys

- newid ffocws o ran natur yr hyfforddiant a ddarperir (h.y. diwallu anghenion sgiliau penodol cyfranogwyr yn ystod COVID-19 i ymgymryd â thasgau bob dydd, addysg, gwaith a chael mynediad i wasanaethau);
- y math o gyfranogwr a all ymgysylltu â darpariaeth rithiol (h.y. i adlewyrchu'r ffaith bod y grwpiau targed gwreiddiol ac unigolion mwy agored i niwed yn llai tebygol neu'n llai abl i ymgysylltu â darpariaeth rithiol) a
- ffocws cynyddol ar ymyrraeth cysylltedd digidol.

Ffigur 9.2: Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid Diwygiedig CDC

<i>Mewnbynnau</i>	<i>Gweithgareddau</i>	<i>Allbynnau</i>	<i>Canlyniadau Tymor Byr</i>	<i>Canlyniad cyffredinol</i>
Tîm ystwyth a hyblyg o Ganolfan Cydweithredol Cymru, Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe Strwythurau llywodraethu priodol e.e. Bwrdd y Rhaglen Cydweithredu a chydweithio â sefydliadau partner £6m o gyllid gan Lywodraeth Cymru Cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru i ddosbarthu dyfeisiau Canolbwyntio ar y rhai sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol oherwydd Covid	• Ymgysylltu'n rhithiol â sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector • Asesu anghenion sefydliadau gan ddefnyddio Cynlluniau Ymgynghori Digidol • Darparu cyngor a chymorth digidol o bell i sefydliadau • Rheoli cyfrifon Byrddau Iechyd a darparu cymorth dwys iddynt • Sefydlu cynllun rheoli asedau a darparu dyfeisiau ar fenthg i sefydliadau, gan gynnwys cartrefi gofal • Recriwtio cyfranogwyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol • Hyfforddiant digidol ar-lein pwrpasol i ddefnyddwyr • Hyfforddiant digidol ar-lein pwrpasol i'r gweithlu • Hyrwyddo a darparu cyrsiau ar-lein e.e. Learn My Way • Recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr yn rhithiol (e.e. drwy Arwyr Hwb) • Sefydlu'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol	Nifer y sefydliadau yr ymgysylltwyd â hwy ac a gefnogwyd Byrddau Iechyd a ymgysylltodd yn ysturlon â CDC Nifer y dyfeisiau a fenthgwyd (gan gynnwys i gartrefi gofal) Nifer y defnyddwyr a hyfforddwyd Nifer staff y gweithlu a hyfforddwyd Nifer y gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio a'u hyfforddi Nifer y cyfarfodydd o'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol a'i haelodaeth	Sefydliadau iechyd yn ymgorffori arferion a pholisïau cynhwysiant digidol ac yn eu rhoi ar waith Darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn nodi gwell sgiliau a chymhwysedd mewn llythrennedd digidol ar draws eu gweithlu Gwell cysylltedd digidol mewn cartrefi gofal Cyfranogwyr yn meithrin sgiliau digidol penodol, newydd sy'n berthnasol i'w gwaith a'u bywydau Cyfranogwyr yn nodi gwell canlyniadau iechyd a llesiant Cyfranogwyr yn nodi llai o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol	Pobl ledled Cymru yn meddu ar ddigon o sgiliau a hyder i allu defnyddio gwasanaethau digidol Mwy o bobl yn defnyddio technoleg yn gymwys ac yn ddiogel yn eu bywydau bob dydd a'u bywydau gwaith Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd a'u llesiant

Ffynonellau data i lywio gwerthusiad o'r canlyniadau

- 9.5 O ran y data sy'n ofynnol i lywio gwerthusiad effeithiol o'r canlyniadau rydym o'r farn y gallai'r trefniadau cyfredol, sydd ar waith drwy system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid y rhaglen ac adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru, gofnodi'r rhan fwyaf o'r allbynnau a nodir yn y Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid diwygiedig e.e. y rhai sy'n ymwneud â'r niferoedd sy'n cael eu cyflogi, eu cefnogi a'u hyfforddi. Fodd bynnag, bydd angen i'r rhaglen sicrhau ei bod yn gallu darparu data yn erbyn pob un o'r saith allbwn a nodir yn y model.
- 9.6 Mae'r Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid yn nodi chwe chanlyniad tymor byr y disgwylir iddynt gael eu cyflawni o ganlyniad i ymyrraeth y rhaglen. Mae'r rhan fwyaf o'r canlyniadau hyn yn ansoddol eu natur ond gellid gweld tystiolaeth ohonynt yn rhannol drwy offer monitro ac adrodd y rhaglen. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai CDC adolygu a nodi pa dystiolaeth y gallai ei chasglu'n hawdd i helpu i ddangos bod y canlyniadau tymor byr hyn yn cael eu cyflawni. Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r rhaglen ystyried pa dystiolaeth y gallai ei chasglu i ddangos bod ei chynllun rheoli asedau ar gyfer benthyca dyfeisiau, yn arwain at well hyder digidol ymysg staff a thrigolion mewn cartrefi gofal.
- 9.7 Bydd tystiolaeth o'r gwerthusiad o'r canlyniadau hefyd yn bwysig i brofi a yw'r canlyniadau tymor byr hyn yn cael eu cyflawni. Awgrymwn fod y dull gwerthuso yn ystyried ymgymryd ag:
- astudiaethau achos manwl ar draws nifer fach o Fyrddau lechyd, gyda'r bwriad o gyfweld ag arweinwyr strategol, penaethiaid gwasanaethau/adrannau sydd wedi ymgysylltu'n weithredol â CDC, sampl o'r gweithlu a chynrychiolydd CDC sydd wedi cefnogi'r sefydliad i ddeall sut mae'r rhaglen yn effeithio ar arferion a pholisïau cynhwysiant digidol ar lefel sefydliadol. Byddai'r astudiaethau achos manwl hyn hefyd yn anelu at gasglu a dadansoddi data a thueddiadau ar sgiliau a chymhwysedd llythrennedd digidol y gweithlu, gan dynnu, lle bo hynny'n bosibl, ar wybodaeth ar lefel rhaglen am sgiliau'r gweithlu.

- gwaith maes gyda chyfranogwyr sydd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhaglen i ddeall i ba raddau y mae'r cyfranogwyr wedi meithrin sgiliau digidol newydd, wedi cael gwell canlyniadau iechyd a llesiant neu'n llai unig ac ynysig yn gymdeithasol. Efallai y bydd yn briodol cynnal arolwg byr ar y we o'r cyfranogwyr sydd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant CDC yn ystod cyfnod penodol (chwe mis dyweder) cyn dosbarthu'r arolwg. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd proffil y cyfranogwyr hyn a arolygwyd yn gwyro tuag at y rhai sy'n gymwys yn ddigidol ac o'r herwydd gallai hefyd fod yn werthfawr cynnal nifer fach o ymweliadau i arsylwi a chyfweld â grwpiau o gyfranogwyr/defnyddwyr sy'n ymgysylltu â'r rhaglen drwy sefydliadau partner

Dyluniad a gweithrediad y rhaglen

- 9.8 Mae'n amlwg bod polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, pan ddyluniwyd rhaglen gyfredol CDC, yn cefnogi ymyrraeth barhaus gan y sector cyhoeddus i fynd i'r afael ag allgáu digidol a sgiliau digidol sylfaenol ymhlith grwpiau allweddol. Mae'r adborth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod y rhaglen wedi'i chynllunio'n briodol i fynd i'r afael â'r heriau a'r anghenion y disgwyliwyd iddynt fynd i'r afael â hwy.
- 9.9 Mae'r rhesymeg dros ganolbwyntio'r ymyrraeth ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn glir ac yn dra hysbys: roedd polisi Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir yr angen i ymyrraeth ddigidol ganolbwyntio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hefyd yn briodol i'r rhaglen ennyn diddordeb y cyfranogwyr mewn technoleg newydd drwy ganolbwyntio ar eu hobiau a meysydd o ddiddordeb iddynt, gan fod y dystiolaeth yn dangos bod hyn yn ddull effeithiol o ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.
- 9.10 Mae'r rhaglen CDC yn parhau i fod yn uchel ei pharch, ac mae safon ac arbenigedd y tîm cyflawni yn cael eu cydnabod yn eang gan swyddogion a sefydliadau Llywodraeth Cymru fel ei gilydd. Yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd, mae'n ymddangos bod yr adnoddau staffio cyffredinol a ddyrannwyd i'r rhaglen ar y cychwyn yn briodol ac mae cyflwyno rôl cydlynedd gwirfoddol newydd wedi'i groesawu. Awgryma'r adborth y gallai'r rhaglen elwa o ymgysylltiad ar lefel uwch o fewn Canolfan Cydweithredol

Cymru i gefnogi'r gwaith strategol gyda sefydliadau iechyd yn ogystal â phenodi i swydd farchnata benodedig. Mae hefyd angen ystyried a oes angen newidiadau eraill yn awr yng ngoleuni'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y model gweithredu. Er enghraifft, os bydd y twf yn y ddarpariaeth hyfforddiant rhithwir a gafwyd yn ystod COVID-19 yn cael ei gynnal, efallai y bydd y rhaglen am ymchwilio i'r strwythur a'r adnoddau mwyaf addas i gyflawni hyn.

- 9.11 Mae llawer o ansicrwydd ynghylch y Gynghrair Cynhwysiant Digidol a sut y gall ychwanegu gwerth at y rhaglen a'r agenda cynhwysiant digidol ledled Cymru, o ystyried y diffyg cynnydd a wnaed ar yr elfen hon o'r rhaglen. Mae angen mwy o eglurder a chynnydd dros weddill cyfnod y rhaglen cyn y gellir asesu effeithiolrwydd y Gynghrair.
- 9.12 O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, nododd llawer o sefydliadau fod eu gallu i ddarparu gweithgareddau cynhwysiant digidol wedi lleihau ac nad oedd ganddynt bellach y capasiti i ymgysylltu â CDC. Ar yr un pryd, fodd bynnag, canfu'r rhaglen bod yn rhaid iddi ymateb i set wahanol o alwadau a gofynion mwy uniongyrchol gan sefydliadau a'u staff/defnyddwyr. Roedd yn rhesymegol i'r rhaglen CDC gymryd rhan mewn menter ychwanegol i gefnogi cartrefi gofal gyda dyfeisiau ar yr adeg hon, gan ei bod mewn sefyllfa dda i gyfrannu tuag at yr ymateb brys. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, canfu'r rhaglen ei bod dan bwysau sylweddol i gyflawni menter ychwanegol o fewn amserlenni tynn iawn a bod yr adnoddau ar gyfer hynny wedi'u tanamcangyfrif. Er gwaethaf hyn, mae wedi ymateb yn ystwyth a hyblyg i'r her hon, a dylid canmol y tîm cyflawni am ei ymdrech yn ystod y pandemig.
- 9.13 Er bod y galwadau ychwanegol ar CDC yn cyd-fynd â nodau'r rhaglen, ni ellir disgwyl i'r rhaglen gynnal yr un lefel o ymyrraeth yn barhaus heb gapasiti ychwanegol. Mae'r gwerthusiad proses hwn wedi dangos bod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith drawsnewidiol ar gynhwysiant digidol ledled Cymru. Felly, efallai y bydd y rhaglen am ystyried a blaenoriaethu ei rôl ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen i sicrhau ei bod yn parhau i fynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â'r gagendor digidol. Efallai yr hoffai ystyried a yw'r brand 'cynhwysiant digidol' yn dal i

fod yn briodol yng ngoleuni ffocws cynyddol y rhaglen ar wella mynediad, sgiliau a hyder digidol.

- 9.14 Mae perfformiad yn erbyn DPA y rhaglen a ariennir dros y flwyddyn gyntaf wedi bod yn dda, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, gan ragori ar bedwar o'r naw DPA. Ni chyflawnwyd pump o'r naw DPA, ac mae'r staff cyflawni yn priodoli tanberfformiad i'r ffaith bod y targedau wedi bod yn rhy uchelgeisiol er bod y rhain yn seiliedig ar gyflawniadau blaenorol y rhaglen.
- 9.15 Mae'r gwerthusiad proses wedi codi sawl mater yn ymwneud â natur a nifer y DPA a fabwysiadwyd ar gyfer y rhaglen. Awgryma'r adborth fod angen diwygio'r rhain, yn enwedig o gofio bod y pandemig COVID-19 wedi codi materion yn ymwneud â'u perthnasedd. Deuwn i'r casgliad y dylai DPA y rhaglen fod yn fwy strategol ac y dylent gyd-fynd yn well â'r canlyniadau tymor byr a nodir yn y model Damcaniaeth Newid. Mae angen iddynt hefyd sicrhau eu bod yn adlewyrchu cwrpas ehangach y rhaglen gyfredol wrth ymateb i'r pandemig COVID-19.

Recriwtio derbynyddion posibl

- 9.16 Mae'r galw gan gyfranogwyr y rhaglen wedi bod yn gyson gryf ac mae wedi cynyddu ers dyfodiad y pandemig COVID-19. Er bod y rhaglen wedi dibynnu i ddechrau ar sefydliadau i recriwtio derbynyddion, bu dibyniaeth gynyddol ar ddulliau recriwtio uniongyrchol ers COVID-19 gyda derbynyddion yn ymgysylltu'n rhithiol yn hytrach nag ar sail wyneb yn wyneb. Er bod y rhaglen wedi datblygu cynllun cyfathrebu cyffredinol, mae'r adborth yn awgrymu y bu mwy o ddibyniaeth ar weithgaredd cyfryngau cymdeithasol. Er yr hoffai llawer o gyfranwyr weld mwy o ddefnydd o ddulliau cyfryngau traddodiadol i recriwtio darpar dderbynwyr, mae angen gofal i sicrhau y gallai'r rhaglen ymateb i unrhyw gynnydd pellach yn y galw am ei darpariaeth. Ar ben hynny, mae'n bwysig bod y rhaglen yn cynnal ei ffocws ar farchnata drwy sefydliadau sydd mewn sefyllfa well i gyrraedd cyfranogwyr targed, yn hytrach na chanolbwyntio ar wneud hynny'n uniongyrchol.

- 9.17 Bydd yn bwysig bod y rhaglen yn ystyried sut y mae'n parhau i gefnogi'r garfan newydd, ac anhraddodiadol o bosibl, o bobl sydd wedi cael eu hallgáu'n ddigidol ers COVID-19. Mae angen i'r rhaglen gydnabod ac ystyried goblygiadau'r newid sydd wedi digwydd o ran ystyr cynhwysiant digidol 'go iawn' yn 2020. Mae hefyd angen i'r rhaglen adolygu ei grwpiau blaenoriaeth yng ngoleuni datblygiadau diweddar, gan ystyried canolbwyntio ar is-grwpiau penodol yn y pedwar grŵp targed e.e. canolbwyntio ar y rhai sy'n 70 oed a hŷn.

Ymgysylltu â sefydliadau

- 9.18 Mae'r rhaglen CDC wedi parhau i ymgysylltu ag ystod eang o sefydliadau yn ystod y cyfnod cyflawni hwn. Mae'r adborth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad hwn yn ogystal â dadansoddiad o broffil y sefydliadau a gefnogwyd hyd yma yn awgrymu bod mwy o gyfle i'r rhaglen gefnogi sefydliadau mawr yn y sector preifat fel cwmnïau cyfleustodau, a gweithio drwyddynt, er mwyn recriwtio darpar dderbynyddion.
- 9.19 O ystyried ei chylch gwaith, mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â sefydliadau'r sector iechyd. Mae'r gwerthusiad wedi casglu tystiolaeth bod ymgysylltu'n digwydd ar y lefel weithredol e.e. ar lefel ward neu wasanaeth, ar draws y sefydliadau hyn. Er bod y dystiolaeth yn dangos bod yr ymgysylltiad a'r ymyrraeth wedi'u croesawu ac yn dechrau gwneud gwahaniaeth ar lefel weithredol, mae diffyg tystiolaeth i ddangos bod y gweithgareddau hyn yn arwain at ymgysylltu'n effeithiol â chynrychiolwyr strategol ar lefel uwch ar draws y sector iechyd. Mae angen i CDC ystyried sut y gall ddatblygu perthnasoedd strategol ag uwch gynrychiolwyr ar draws y sector iechyd, gan fanteisio ar gymorth eiriolaeth gan swyddogion allweddol Llywodraeth Cymru, uwch staff Canolfan Cydweithredol Cymru yn ogystal ag eiriolwyr cynhwysiant digidol strategol eraill. Mae angen y lefel uwch hon o ymgysylltiad ac ymrwymiad er mwyn i'r rhaglen ddylanwadu ar leoliadau iechyd i ymgorffori arferion a pholisïau cynhwysiant digidol ar draws eu sefydliad a'u rhoi ar waith.

Argymhellion

9.20 Rydym yn cynnig yr argymhelliad a ganlyn i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth gyflawni'r rhaglen CDC:

- **Argymhelliad 1:** ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad er mwyn llywio blaenoriaethau'r rhaglen dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill, gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cwrdd â'r galw ychwanegol yn gysylltiedig â pholisi ar y naill law a chapasiti'r rhaglen ar y llaw arall.
- **Argymhelliad 2:** archwilio i ba raddau y bu newid sylweddol yn y diffiniad o allgáu digidol o ganlyniad i COVID-19, ac ystyried y dylanwad y gallai hyn ei gael ar weithredu'r rhaglen
- **Argymhelliad 3:** ymchwilio i sut y gellir sicrhau ymgysylltiad strategol a lefel uchel â sefydliadau iechyd, ac ymrwymiad ganddynt, gan ddefnyddio tystiolaeth gadarn am y canlyniadau iechyd a llesiant y gellir eu cyflawni drwy atebion digidol yn ogystal â chymorth eiriolaeth ehangach gan gynnwys cymorth gan Swyddogion Llywodraeth Cymru, uwch staff Canolfan Cydweithredol Cymru, hyrwyddwyr digidol a'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol
- **Argymhelliad 4:** adolygu a fyddai budd i'r rhaglen o wneud newidiadau i'w strwythur staffio yng ngoleuni'r awgrymiadau a gofnodir yn y gwerthusiad hwn a darparu ar gyfer unrhyw effaith barhaus y mae COVID-19 yn ei chael ar gyflawni'r rhaglen
- **Argymhelliad 5:** adolygu'r DPA a ariennir gyda'r nod o bennu allbynnau mwy realistig a chyraeddadwy a mabwysiadu nifer fach o DPA yn ymwneud â chanlyniadau ansoddol, sy'n adlewyrchu'n ddigonol waith rheoli asedau ychwanegol a gwaith strategol y rhaglen gyda sefydliadau iechyd
- **Argymhelliad 6:** cyflymu'r gwaith o weithredu'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol, a sicrhau mwy o eglurder ynghylch ei phwrrpas a'i chylch gwaith
- **Argymhelliad 7:** ystyried pa dystiolaeth y gall CDC ei chasglu i ddangos bod cynllun rheoli asedau'r rhaglen ar gyfer benthyca dyfeisiau yn arwain at well cysylltedd digidol mewn cartrefi gofal.

Atodiad A: Canllawiau Trafod

Canllaw pwnc 1: Canolfan Cydweithredol Cymru a Phartneriaid Cyflawni

A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am
 - Eich rôl o fewn CDC

B: Nodau ac Amcanion CDC

2. Beth yn eich barn chi yw nodau ac amcanion gwreiddiol CDC?
3. Beth oedd ysgogwyr polisi allweddol CDC?
4. Pa faterion allweddol y bwriadwyd i CDC fynd i'r afael â nhw?
5. Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl i CDC ei wneud o ran mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn (y rhai gwreiddiol a'r rhai newydd)?
6. Pa fath o ganlyniadau a ddisgwyliwyd gan y rhaglen CDC ar y cychwyn?
7. Ym mha ffordd y mae canfyddiadau ac argymhellion rhaglen flaenorol CDC wedi'u hystyried wrth ddylunio'r rhaglen gyfredol?

C: Dylunio a gweithredu

8. Pa mor briodol oedd y fanyleb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni CDC? Pam ydych chi'n dweud hyn?
9. Beth yw eich barn am y model cyflawni a roddwyd ar waith gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'r ddau bartner cyflawni er mwyn cyflawni CDC?
10. Beth yw eich barn am briodoldeb adnoddau ac arbenigedd y staff a benodwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'r partneriaid cyflawni?

D. Cydweithio â sefydliadau targed

11. Beth yw eich barn am y dull a fabwysiadwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru i weithio gyda sefydliadau targed?
12. I ba raddau y mae partneriaethau cryf wedi'u creu gyda sefydliadau?

13. I ba raddau y mae'r model partneriaeth yn helpu neu'n llesteirio ymgysylltu ag ardaloedd daearyddol neu grwpiau targed penodol?
14. Beth yw eich barn am yr hyfforddiant a ddarperir i sefydliadau drwy'r rhaglen CDC?
15. Pa dystiolaeth sydd gennych bod CDC yn gwneud gwahaniaeth i o ran sicrhau bod sefydliadau partner yn ymgorffori cynhwysiant digidol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau?
16. Ym mha ffordd mae CDC wedi ymateb i'r pandemig COVID-19?

E. Ffrydiau gwaith CDC

17. Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y ffrydiau gwaith / mentrau a gyflwynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i phartneriaid cyflawni hyd yn hyn fel rhan o CDC?

Holwch am:

- Y rhaglen wirfoddoli Arwyr Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Cyfeillion Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Hyrwyddwyr Digidol
- Benthycia offer/cyfarpar i sefydliadau
- Y cyrsiau Learn My Way a ddarperir drwy Ganolfannau Ar-lein
- Y Prosiectau Braenaru Cynhwysiant Digidol
- Cynlluniau Ymgynghori Digidol (wedi'u datblygu ar gyfer sefydliadau)

18. I ba raddau y mae'r mentrau hyn wedi cael eu croesawu gan y sefydliadau targed?
19. Beth yw eich barn am effeithiolrwydd y Gynghrair Cynhwysiant Digidol newydd?

F. Hyrwyddo a marchnata

20. Sut y gwneir darpar dderbynyddion yn ymwybodol o'r rhaglen?
21. Pa mor dda, neu fel arall, y mae'r rhaglen yn ymgysylltu â'r buddiolwyr yn y pedwar grŵp targed?
22. Pa mor effeithiol yw cynllun cyfathrebu CDC o ran:
 - Creu ymwybyddiaeth o'r brand
 - Ysgogi ymholiadau gan sefydliadau a chyfranogwyr
 - Cyfathrebu effaith y rhaglen?

23. Sut, os o gwbl, y gellid gwella neu newid cynllun cyfathrebu CDC?

Holwch am frand y rhaglen, y wefan, cyfryngau cymdeithasol, marchnata uniongyrchol, datganiadau i'r wasg, ymgyrchoedd a chyhoeddiadau.

G. Monitro a rheoli

24. Beth yw eich barn am natur ac ansawdd y data sy'n cael eu cofnodi a'u hadrodd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel tystiolaeth o p'un a yw'r rhaglen yn cyflawni ei nodau a'i hamcanion?

25. Beth yw eich barn am sut y mae rhaglen CDC yn cael ei rheoli?

H. Y perfformiad hyd yma

26. Pa mor dda y mae CDC wedi perfformio hyd yma mewn perthynas â'i DPA a ariennir?

27. Pa mor briodol yw'r DPA hyn yng ngoleuni'r newidiadau a fabwysiadwyd er mwyn ymateb i'r pandemig COVID-19?

28. A yw CDC ar y trywydd iawn o ran gwariant? Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw danwariant neu orwariant?

I. Y dyfodol

29. Beth yw'r prif wersi a ddysgwyd o CDC hyd yn hyn y mae angen i'r rhaglen eu hystyried?

30. Pa newidiadau eraill, os o gwbl, y dylid eu gwneud i CDC yn enwedig yng ngoleuni effaith COVID-19?

Canllaw pwnc 2: Swyddogion Llywodraeth Cymru

A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am
 - Eich rôl [a lle bo hynny'n briodol, meysydd polisi]
 - Eich ymwneud â CDC

B: Nodau ac Amcanion CDC

2. Beth yn eich barn chi yw nodau ac amcanion gwreiddiol CDC?
3. Beth oedd ysgogwyr polisi allweddol CDC?
4. Pa faterion allweddol y bwriadwyd i CDC fynd i'r afael â nhw?
5. Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl i CDC ei wneud o ran mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn (y rhai gwreiddiol a'r rhai newydd)?
6. Pa fath o ganlyniadau a ddisgwyliwyd gan y rhaglen CDC ar y cychwyn?
7. Ym mha ffordd y mae canfyddiadau ac argymhellion rhaglen flaenorol CDC wedi'u hystyried wrth ddylunio'r rhaglen gyfredol?

C: Dylunio a gweithredu

8. Pa mor briodol oedd y fanyleb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni CDC? Pam ydych chi'n dweud hyn?
9. Beth yw eich barn am y model cyflawni a roddwyd ar waith gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i dau bartner⁶⁸ i gyflawni CDC?
10. Beth yw eich barn am briodoldeb adnoddau ac arbenigedd y staff a benodwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'r partneriaid cyflawni?

D. Cydweithio â sefydliadau targed

11. Beth yw eich barn am y dull a fabwysiadwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru i weithio gyda sefydliadau targed?
12. I ba raddau y mae partneriaethau cryf wedi'u creu gyda sefydliadau?

⁶⁸ Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe

13. I ba raddau y mae'r model partneriaeth yn helpu neu'n llesteirio ymgysylltu ag ardaloedd daearyddol neu grwpiau targed penodol?
14. Beth yw eich barn am yr hyfforddiant a ddarperir i sefydliadau drwy'r rhaglen CDC?
15. Pa dystiolaeth sydd gennych bod CDC yn gwneud gwahaniaeth i o ran sicrhau bod sefydliadau partner yn ymgorffori cynhwysiant digidol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau?
16. Ym mha ffordd mae CDC wedi ymateb i'r pandemig COVID-19?

E. Ffrydiau gwaith CDC

17. Beth yw eich barn ar briodoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd y ffrydiau gwaith / mentrau a gyflwynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i phartneriaid cyflawni hyd yn hyn fel rhan o CDC?

Holwch am:

- Y rhaglen wirfoddoli Arwyr Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Cyfeillion Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Hyrwyddwyr Digidol
- Benthycu offer/cyfarpar i sefydliadau
- Y cyrsiau Learn My Way a ddarperir drwy Ganolfannau Ar-lein
- Y Prosiectau Braenaru Cynhwysiant Digidol
- Cynlluniau Ymgynghori Digidol (wedi'u datblygu ar gyfer sefydliadau)

18. Ydych chi'n ymwybodol o'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol newydd?
 - Os felly, pa mor effeithiol yw hyn?

F. Hyrwyddo a marchnata

19. Pa mor effeithiol yw'r rhaglen CDC o ran ymgysylltu a recriwtio darpar dderbynwyr?
20. Pa mor dda, neu fel arall, y mae'r rhaglen yn ymgysylltu â'r buddiolwyr yn y pedwar grŵp targed?
21. Pa mor effeithiol yw cynllun cyfathrebu CDC o ran:
 - Creu ymwybyddiaeth o'r brand
 - Ysgogi ymholiadau gan sefydliadau a chyfranogwyr
 - Cyfathrebu effaith y rhaglen?

22. Sut, os o gwbl, y gellid gwella neu newid cynllun cyfathrebu CDC?

Holwch am frand y rhaglen, y wefan, cyfryngau cymdeithasol, marchnata uniongyrchol, datganiadau i'r wasg, ymgyrchoedd a chyhoeddiadau.

G. Monitro a rheoli

23. Beth yw eich barn am sut y mae rhaglen CDC yn cael ei rheoli?

24. Beth yw eich barn am natur ac ansawdd y data sy'n cael eu cofnodi a'u hadrodd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel tystiolaeth o p'un a yw'r rhaglen yn cyflawni ei nodau a'i hamcanion?

H. Y perfformiad hyd yma

25. Pa mor briodol yw DPA y rhaglen yng ngoleuni'r newidiadau a fabwysiadwyd i ymateb i'r pandemig COVID-19?

26. Pa mor dda y mae CDC wedi perfformio hyd yma mewn perthynas â'i DPA a ariennir?

27. A yw CDC ar y trywydd iawn o ran gwariant? Beth sydd i'w gyfrif am unrhyw danwariant neu orwariant?

I. Y dyfodol

28. Beth yw'r prif wersi a ddysgwyd o CDC hyd yn hyn y mae angen i'r rhaglen eu hystyried?

29. Pa newidiadau eraill, os o gwbl, y dylid eu gwneud i CDC yn enwedig yng ngoleuni effaith COVID-19?

Canllaw pwnc 3: Sefydliadau Partner/Arweiniol

A: Cefndir a chyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am
 - Eich rôl
 - Eich sefydliad
 - Eich ymwneud â CDC

B: Ymwneud â CDC

2. Pam wnaeth eich sefydliad ymwneud â'r rhaglen CDC?
3. Sut mae darpar dderbynyddion (fel defnyddwyr, gwirfoddolwyr a staff eich sefydliad) yn dod yn ymwybodol o'r rhaglen?
4. Pa rai, os o gwbl, o'r pedwar grŵp targed o fuddiolwyr sy'n elwa o ymwneud eich sefydliadau â CDC?
5. Beth yw eich barn am weithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo CDC i sefydliadau targed a defnyddwyr terfynol?
6. Beth yw eich barn am y model a roddwyd ar waith gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i ddau bartner cyflawni i ddarparu CDC?

C: Gwasanaethau a ddefnyddiwyd

7. Ym mha ffordd mae eich sefydliad wedi ymwneud â CDC?
8. Pa mor gryf, neu fel arall, yw'r cydweithio a'r bartneriaeth rhwng eich sefydliad a CDC?
9. A yw eich sefydliad (boed hynny ar gyfer staff neu ddefnyddwyr/cyfranogwyr) wedi manteisio ar unrhyw hyfforddiant drwy CDC?
 - Beth fu natur unrhyw hyfforddiant a gafwyd?
 - Faint a phwy sydd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn?
10. Ydych chi wedi manteisio ar unrhyw sesiynau hyfforddi'r hyfforddwyr a ddarperir gan CDC?
 - Beth oedd natur yr hyfforddiant hwn?
 - Ym mha ffordd y mae wedi'i gyflwyno ar draws y sefydliad?
11. [Lle bo hynny'n berthnasol] Beth yw eich barn am ansawdd a pherthnasedd yr hyfforddiant a gawsoch drwy'r rhaglen CDC?

12. I ba raddau yr ydych wedi ymwneud, os o gwbl, â'r ffrydiau gwaith / mentrau canlynol a gyflwynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i phartneriaid cyflawni hyd yn hyn fel rhan o CDC?

Holwch am y mentrau canlynol ac ym mhob achos, holwch am natur eu hymwneud â hwy yn ogystal â chryfderau/gwendidau pob un:

- Y rhaglen wirfoddoli Arwyr Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Cyfeillion Digidol
- Y rhaglen wirfoddoli Hyrwyddwyr Digidol
- Benthycu offer/cyfarpar i sefydliadau
- Y cyrsiau Learn My Way a ddarperir drwy Ganolfannau Ar-lein
- Y Prosiectau Braenaru Cynhwysiant Digidol
- Cynlluniau Ymgynghori Digidol (wedi'u datblygu ar gyfer sefydliadau)

13. Ym mha ffordd y mae eich ymwneud â CDC wedi newid mewn ymateb i'r pandemig COVID-19?

14. Ydych chi'n ymwybodol o'r Gynghrair Cynhwysiant Digidol?

- Os felly, sut y buoch yn ymwneud â hyn?

D. Y gwahaniaeth a wnaed

15. Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae eich ymwneud â CDC wedi'i gael hyd yma ar eich sefydliad?

16. Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae cymryd rhan mewn hyfforddiant CDC wedi'i gael ar staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr?

E. Monitro a rheoli

17. Beth yw eich barn am y data y mae'n ofynnol i'ch sefydliad eu cofnodi ac adrodd arnynt i Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o'r rhaglen CDC?

F. Y dyfodol

18. Beth yw'r prif wersi a ddysgwyd o CDC hyd yn hyn y mae angen i'r rhaglen eu hystyried?

19. Ym mha ffordd ydych chi'n rhagweld y byddwch chi'n ymgysylltu â CDC dros weddill cyfnod y rhaglen?

20. Pa newidiadau eraill, os o gwbl, y dylid eu gwneud i CDC yn enwedig yng ngoleuni effaith COVID-19?